# Gwerthusiad Cronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC

# Adroddiad Terfynol

**-**

**Medi 2022**



RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

# Gwerthusiad Cronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC: Adroddiad Terfynol

## Diben

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau a chasgliadau gwerthusiad o'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol gaiff ei darparu gan Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a'i hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Rhaglen yn cynnig cymorth i bobl sydd wedi profi heriau dwys i'w helpu nhw i fynd rhagddi i ddod o hyd i waith neu gynnig profiad gwaith iddyn nhw ac, i'r rhai sy'n barod, cynnig cymorth i ddod o hyd i waith tymor hirach.

2. Mae'r adroddiad yn dwyn ynghyd canfyddiadau gwerthusiad sy'n ymdrîn â thri cham y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol yn ystod y cyfnod o Ragfyr 2016 hyd at Fedi 2022. Dyma'r adroddiadau sydd wedi'u cyhoeddi eisoes:

a. Adroddiad cryno yn ymdrîn â gwerthuso camau 1 a 2 y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol a gyhoeddwyd yn ystod Gwanwyn 2020: https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/05/WCVA-AIF-Phase-1-2-Final-Report-20200221-V8.pdf

b. Crynodeb gweithredol o'r adroddiad dros dro ar gyfer cam 3 a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021: https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2021/09/WCVA-AIF-Evaluation-Phase-3-Interim-Report-Executive-Summary.pdf

3. Ar y cyfan, bu'r brîff gwerthuso ar gyfer yr holl gamau yn gofyn am archwilio perfformiad y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol ynghylch bodloni'r nodau ac amcanion penodol gan bwysleisio'n arbennig ar yr agweddau effeithiol. Erbyn hyn, estynnwyd y crynodeb i gasglu dysgu er mwyn llywio polisïau a rhaglenni'r dyfodol gan fynd i'r afael â chyflogadwyedd a chyd-fynd ag amcanion lles wrth gefnogi grwpiau ac unigolion 'anodd eu cyrraedd' i ddod o hyd i waith â thâl neu waith gwirfoddol: pobl gafodd eu disgrifio'n addas fel 'y rheiny nas clywir yn aml' mewn cyfarfod Panel Anweithgarwch Economaidd CGGC.

4. Rydym yn ddiolchgar dros ben i gydweithwyr yn CGGC, Llywodraeth Cymru, Grŵp Llywio'r Gwerthusiad a Phanel Anweithgarwch Ariannol CGGC am eu cymorth a'u dirnadaeth ddiflino, ac i'r nifer fawr o gyrff ac unigolion a oedd yn gyson feddylgar ac ymarferol ac sydd wedi rhoi o'u hamser yn hael mewn cyfweliadau, trafodaethau a gweithdai er mwyn llywio'r gwaith hwn.

**UKRCS**
**Medi 2022**


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

## Cynnwys

**Adran 1. Cynllun yr Adroddiad** 4

**Adran 2. Cyd-destun, Brîff a Dull y Gwerthusiad** 5

2.1. CCG: Cyd-destun 5
2.2. Brîff y Gwerthusiad 6
2.3. Methodoleg 8

**Adran 3. Canfyddiadau** 9

3.1. Cyflwyniad 9
3.2. Perfformiad CCG: Targedau a Gweinyddiaeth 9
3.3. Perfformiad yn erbyn Cyllid a Dangosyddion 11
3.4. COVID 19: Effeithiau a Dysgu 15
3.5. A wnaeth CCG lwyddo i Gyrraedd Grwpiau Targed? 18
3.6 Effeithiau CCG 21

**Adran 4. Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad** 35

4.1. Cyd-destun a Pherthnasedd i Bolisi a Rhaglenni Cyflogadwyedd 35
4.2. Blociau Adeiladu Asesiad Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad CCG 37
4.3. Asesiad Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad 43

**Adran 5: Y Cyd-destun Polisi a Rhaglen ar gyfer CCG** 44

5.1. Sefyllfa'r Polisi a'r Rhaglen 44
5.2. Sefyllfa Gychwynnol y Polisi a'r Rhaglen 45
5.3. Tueddiadau yng Nghymru 48
5.4. Yr Economi Sylfaenol : Yr 'Economi o Ddydd i Ddydd' 53
5.5. Newidiadau a Chyfleoedd 54

**Adran 6: Sut bu i'r CCG gyfrannu tuag at Amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Themâu Trawsbynciol Cronfa Gymdeithasol Ewrop** 57

6.1. Y Ddeddf 57
6.2. Themâu Trawsbynciol 61
6.3. Datblygiad Cynaliadwy a Chodi Ymwybyddiaeth ynghlwm ag Addysg a Hyfforddiant 68
6.4. Sut cafodd Dewisiadau Iaith eu Hadnabod a'u Bodloni 69

**Adran 7: Trosolwg: Oedd y CCG yn Llwyddiannus a'r Gwersi ar gyfer y Dyfodol?** 73

7.1. Trosolwg: Oedd y CCG yn Llwyddiannus? 73
7.2. Gwersi ac Egwyddorion Cynllunio ar gyfer y Dyfodol 78

Atodiad 1: Sefyllfa'r Rhaglen yn ystod y Cyfnod lle'r oedd y CCG Ar Waith 82


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

# Gwerthusiad Cronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC: Adroddiad Terfynol

## Adran 1. Cynllun yr Adroddiad

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd canfyddiadau gwerthusiad sy'n ymdrîn â thri cham Cronfa Cynhwysiant Gweithredol (CCG) Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a oedd ar waith o Ragfyr 2016 hyd at Fedi 2022. Mae'r adroddiad wedi'i lunio er mwyn darparu:

a) Crynodeb o'r cyd-destun ar gyfer y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol (CCG), y cwestiynau gwerthuso allweddol a'r fethodoleg.

b) Canfyddiadau'r gwerthusiad er mwyn disgrifio perfformiad a chyflawniadau CCG gan gynnwys effeithiau a dysgu yn sgil COVID 19.

c) Asesiad o Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad.

d) Trosolwg o sut bu i CCG gyfrannu tuag at a gweddu i sefyllfa ehangach polisi a rhaglen cyflogadwyedd, llesiant a lles Cymru ynghyd ag awgrymiadau am gyfleoedd ar gyfer datblygu posibl yn y dyfodol.

e) Asesiad o sut bu i CCG gyfrannu tuag at amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Themâu Trawsbynciol Cronfa Gymdeithasol Ewrop gan gynnwys lleddfu tlodi, cydraddoldeb a datblygu cynaliadwy.

f) Dadansoddiad o wersi sydd wedi'u dysgu sy'n berthnasol i bolisïau a rhaglenni'r dyfodol sydd â'r nod o gefnogi pobl ymylol neu'r rheiny sy'n wynebu'r amgylchiadau mwyaf heriol i'w helpu i fyw bywydau mwy gwerth chweil neu i ddod o hyd i waith neu waith gwirfoddol parhaol.

1.2. Mae detholiad o ddogfennau ynghlwm â'r adroddiad hwn sy'n crynhoi neu ddatblygu canfyddiadau o'r gwerthusiad:

a. Crynodeb gweithredol.

b. Dadansoddiad o beth sy'n effeithiol gydag astudiaethau achos: *'Ymarfer Da mewn Helpu Pobl i Ddod o Hyd i Waith: Gwersi o Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC'*

c. Astudiaethau achos ar *'Cyfleoedd yn yr Economi Sylfaenol i'r Bobl hynny sy'n Anodd eu Cyrraedd'* er mwyn dangos sut gallai ymyriadau tebyg i CCG gyfrannu tuag at yr economi sylfaenol yng Nghymru

d. Dogfen ar yr Iaith Gymraeg: '*Meithrin Defnydd o'r Gymraeg: Gwersi o'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol'*.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

e. Dau adolygiad llenyddiaeth: *'Ymyriadau Llesiant, Lles a Chyflogadwyedd ar gyfer y rheiny sydd Bellaf o'r Farchnad Lafur'* ac *'Adolygiad Tystiolaeth: Effeithiolrwydd Mentrau Cyflogadwyedd'* sy'n ymdrîn â'r dysgu o brofiad ehangach yn cynllunio a chynnal rhaglenni cyflogadwyedd a dwyn amcanion cyflogadwyedd, llesiant a lles ynghyd wrth gynllunio rhaglenni.

# Adran 2. Cyd-destun, Brîff a Dull y Gwerthusiad

## 2.1. CCG: Cyd-destun

2.1.1. Cafodd Cronfa Cynhwysiant Gweithredol (CCG) yr Undeb Ewropeaidd (UE) ei llunio er mwyn mynd i'r afael â heriau hirsefydlog wrth geisio helpu pobl 'anodd eu cyrraedd' yng Nghymru ymgysylltu neu ail-ymgysylltu gyda'r farchnad lafur: cafodd y bobl hynny eu disgrifio'n addas gan aelod Panel Anweithgarwch Economaidd CGGC fel y 'y rheiny nas clywir yn aml'.

2.1.2. Roedd gan y rhaglen amcanion er mwyn helpu unigolion oedd yn cymryd rhan i drechu tlodi a chyflawni deilliannau gwell mewn bywyd. Pan gafodd y gronfa ei lansio yn 2015, roedd y cyd-destun yn canolbwyntio ar angen parhaus i weithredu yng Nghymru er mwyn helpu grwpiau anoddaf eu cyrraedd oedd yn llawer uwch na'r nifer ar gyfartaledd yn y DU.

2..1.3. Bu'r CCG yn elfen hyblyg a ledled Cymru gyfan mewn rhaglenni â pholisïau cyflogadwyedd Cymru. Bu'n meithrin arloesedd a dulliau sy'n ymateb yn lleol a darparu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer unigolion a grwpiau sy'n wynebu heriau. Bu'n ymwneud ag ystod eang o gyrff i gynnig cymorth. Roedd llawer ohonyn nhw'n gyrff trydydd sector, wnaeth gynnig sgiliau a phrofiad yr un mor eang wrth gefnogi unigolion a grwpiau amrywiol y gall dulliau mwy a mwy sefydliadol ei chael hi'n anodd eu cyrraedd neu eu helpu.

2.1.4. Bu i CCG gyfuno amcanion cyflogadwyedd a llesiant a lles drwy fynd i'r afael â sgiliau meddal a bywyd ynghyd â chaffael sgiliau penodol sy'n ymwneud â gwaith er mwyn sicrhau ein bod yn helpu pobl i ddilyn llwybr tuag at waith gan gydnabod gallai ffyrdd gwell o fyw fod yn benderfynydd allweddol ynghylch mynd rhagddi i ddod o hyd i waith.

2.1.5. Roedd CCG wedi'i seilio'n gadarn ar gynsail bod dod o hyd i a chadw gwaith addas yn fodd o helpu pobl i drechu tlodi, gyda buddion ar gyfer yr unigolyn, teuluoedd, cymunedau ac economi Cymru'n fwy eang (fel enghraifft, fel cafodd ei adnabod yn yr adolygiad o lenyddiaeth gwerthuso *'Adolygiad Tystiolaeth: Effeithiolrwydd Mentrau Cyflogadwyedd'*). Mae hyn yn ymestyn i ymdrîn â gwerth cynorthwyo pobl sy'n wynebu amgylchiadau a bywydau heriol i ddod o hyd i waith gwirfoddol parhaol: cafodd gwirfoddoli ei ystyried fel deilliant CCG.

2.1.6. Dengys tystiolaeth bod tlodi a chyfleoedd gwael mewn bywyd yn cyd-fynd gyda diweithdra hir dymor ac anweithgarwch economaidd ac felly buasai dod o hyd i waith â thâl neu waith gwirfoddol addas yn ffordd o oresgyn tlodi. Er enghraifft, cafodd hyn ei


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

ddisgrifio yn y 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi' (Llywodraeth Cymru 2012), ac yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Tlodi Plant dilynol, sy'n amlygu pwysigrwydd cefnogi rhieni i ddod o hyd i waith (Llywodraeth Cymru 2015).

2.1.7. Bu i nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a'r goblygiadau sy'n cyd-fynd â hynny ar gyrff cyhoeddus i ganolbwyntio ar y tymor hirach a chydweithio'n well, osod cyd-destun strategol eglur i'r CCG.

2.1.8. Mae'r heriau o fynd i'r afael â diweithdra hir dymor ac anweithgarwch economaidd ymysg oedolion ac ymgysylltu gyda phobl ifanc sydd dim mewn gwaith, addysg na hyfforddiant (NEET) yn gymhleth. Mae polisi cyhoeddus yng Nghymru a'r DU wedi ac yn parhau i ddefnyddio amrywiaeth eang o ddulliau megis profiad gwaith, hyfforddiant sgiliau, cymhorthdal cyflogwyr, cefnogaeth neu anogaeth trwy fudd-daliadau a gwasanaethau cyflogadwyedd, cymorth gyda chwilio am waith a dod â chefnogaeth iechyd a gwaith yn nes at ei gilydd.

2.1.9. Yn yr un modd, mae tystiolaeth yn dangos manteision cadarnhaol i gostau sy'n deillio o gefnogaeth lwyddiannus o ystyried cost anweithgarwch economaidd i'r economi, cymdeithas a'r unigolyn. Mae'r adroddiad hwn yn adnabod effeithiau'r CCG ac yn asesu'r elw cymdeithasol ar fuddsoddiad.

2.1.10. Cafodd CCG ei lansio yn 2015 (a'i labelu'n cam 1 yn dilyn hynny), a'i hestyn ar gyfer cam 2 yn 2017 (gan ailbroffilio'r targedau a'r gyllideb), ac yna ei hestyn ymhellach yn 2019 (eto, gan ailbroffilio'r targedau a'r cyllidebau) a fydd, yn dilyn estyniad terfynol, yn dod i ben yng Ngwanwyn 2023 (gyda phrosiectau unigol yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2022).

2.1.11. Bu i gam 3 y CCG gynnal a datblygu'r dull cyffredinol a'r trefniadau rheoli a roddwyd ar waith yng nghamau 1 a 2. Er bu newidiadau ac addasiadau yn ystod y tri cham yn sgil profiad, roedd y model gweithredu a rheoli sylfaenol yn parhau'n gyson.

2.1.12. Bu i'r pandemig COVID 19 effeithio'n anochel ar gyflawni'r CCG, a bu i'r gwerthusiad archwilio'r effeithiau hynny a'r gwersi gafodd eu dysgu yn sgil y gwaith addasu angenrheidiol.

2.1.13. Roedd y CGC yn un o gorff sylweddol o raglenni yng Nghymru oedd wedi'u hariannu gan Gronfa Cymdeithasol Ewrop (CGE). Mae ymadawiad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd yn gyfle i adolygu dulliau i helpu pobl i ddod o hyd i waith yng nghyd-destun amodau ac anghenion sy'n benodol i Gymru.

## 2.2. Brîff y Gwerthusiad

2.2.1 Brîff y gwerthusiad gwreiddiol ar gyfer camau 1 a 2 oedd rhyngweithio gyda CGGC i 'ddadansoddi cynnydd yn barhaus' ac adrodd yn ôl gyda chanfyddiadau wrth iddyn nhw ddod i'r amlwg, gan ganolbwyntio ar y canlynol:


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

a) A wnaeth y pedair cronfa unigol yn CCG gyflawni eu hamcanion? Er ei fod yn mabwysiadu dull a phroses cyson ledled Cymru, bu'r CCG yn gyfrifol am wariant drwy 4 cronfa unigol[1] dwy yn Nwyrain Cymru a dwy yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd[2].

b) I ba raddau bu i'r CCG gyrraedd grwpiau targed a'r camau fu'n llwyddiannus i gyflawni hynny.

c) Sut bu i ddulliau amrywiol gan fuddiolwyr (mudiadau wedi'u hariannu i gynnig cymorth) effeithio ar y deilliannau: beth oedd yn effeithiol ar gyfer y grwpiau targed a beth wnaeth y rheiny oedd yn cymryd rhan ei gyflawni o ganlyniad i'r cymorth.

d) Sut bu i'r CCG fodloni nodau, amcanion a dangosyddion Themâu Trawsbynciol Cronfa Gymdeithasol Ewrop a sut bu iddi gyfrannu tuag at yr amcanion sydd ynghlwm â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

e) I ba raddau bu i'r gwaith gyfuno Datblygiad Cynaliadwy gyda chodi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant.

2.2.2. Roedd y brîff hefyd yn gofyn am weithio 'gyda'r weithred er mwyn datblygu rhesymeg ymyrraeth' fel fframwaith trosfwaol i lywio trefniadau arfaethedig yn y dyfodol sydd wedi'u targedu i gefnogi'r unigolion a grwpiau 'anodd eu cyrraedd' gaiff eu cefnogi drwy'r CCG ar hyn o bryd.

2.2.3. Cafodd y cwestiynau craidd hyn eu cynnal a'u datblygu er mwyn gwerthuso cam 3 y CCG a wnaeth ychwanegu cyfres o gwestiynau cyflenwol a oedd yn cyfuno ffocws parhaus ar werthuso'r gweithrediad cyfredol gyda gofyniad i gynnig addysg er mwyn llywio gwaith datblygu polisïau a rhaglenni yn y dyfodol, ac i gyflawni'r canlynol yn enwedig:

a. Asesu categorïau budd ac Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad

b. Sut bu i'r model CCG 'gyd-fynd yn daclus' gyda chyd-destun y rhaglenni cyflogadwyedd prif ffrwd

c. I ba raddau oedd y CCG yn rhaglen cyflogadwyedd yn benodol, neu a wnaeth yr ymyriadau fynd i'r afael â'r rhwystrau a phroblemau ehangach yr oedd yr unigolion yn eu hwynebu, ac felly'n pontio amcanion cyflogadwyedd, lles a llesiant.

---

[1] Dwyrain Cymru Pobl Ifanc 16 – 24, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd Pobl Ifanc 16 – 24, Dwyrain Cymru Pobl 25 oed a hŷn a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd Pobl 25 oed a hŷn.

[2] Mae Dwyrain Cymru'n cynnwys 7 awdurdod lleol (Caerdydd, Sir y Fflint, Sir Fynwy, Casnewydd, Powys, Wrecsam a Bro Morgannwg). Mae Gorllewin Cymru'n cynnwys 15 awdurdod lleol (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Torfaen)



RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

d. Dangos yr hynny 'sy'n effeithiol' o ran CCG gyda sut bu i fuddiolwyr ymwneud gydag a chefnogi'r unigolion oedd yn cymryd rhan a dangos arfer da o ran paru unigolion gyda chyfleoedd.

e. Adnabod cyfleoedd gwaith arfaethedig neu gychwynnol i grwpiau ac unigolion sydd wedi'u targedu gan y CCG ar hyn o bryd gan gynnwys cyfleoedd sy'n deillio o ddatblygu'r economi sylfaenol yng Nghymru.

## 2.3. Methodoleg

2.3.1. Bu i'r gwerthusiad fabwysiadu cymysgedd eang o ddulliau meintiol ac ansoddol, gan gynnwys y defnydd o ddata CGGC helaeth ac ymwneud gydag unigolion sy'n cymryd rhan, mudiadau cyflawni a rhanddeiliaid eraill. Yn gryno, bu i'r dull ymwneud â:

a. Adolygiad desg i archwilio papurau gwaith, polisi a data helaeth CGGC a data eraill.

b. Cyfweliadau wyneb yn wyneb, sesiynau grŵp ac arsylwadau gydag unigolion sy'n cymryd rhan yn ystod camau 1 a 2 (gan ymwneud yn uniongyrchol gyda 200+ o unigolion).

c. Cyfweliadau a gweithdai (dros y ffôn neu dechnoleg fideogynadledda yn bennaf) gydag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys staff CGGC, buddiolwyr CCG, Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid ehangach neu'r rheiny sy'n meddu ar safbwynt perthnasol yn ymwneud â pholisïau ac arferion cyflogadwyedd, llesiant a lles. Yn ystod y tri cham, bu inni gydweithio gyda 100+ o fuddiolwyr CCG, 50 o fudiadau rhanddeiliaid, Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r tîm CGGC ar bob lefel.

d. Astudiaethau achos gan ymwneud yn fwy trylwyr gyda buddiolwyr CCG, unigolion oedd yn cymryd rhan, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill.

e. Adolygiadau llenyddiaeth ynghylch pynciau perthnasol gan gynnwys adolygiad cynnar o ganfyddiadau'r gwerthusiad ynghylch polisi ac arferion, archwiliad o'r berthynas a'r posibilrwydd o gyfuno amcanion cyflogadwyedd, llesiant a lles gan gyfeirio at y rheiny gaiff eu disgrifio fel rhai 'anodd eu cyrraedd' (gwelwch 1.2 uchod) a rhoi dulliau Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad ar waith ynghlwm â rhaglenni cyflogadwyedd, llesiant a lles (gwelwch Adran 4 isod).

f. Dau arolwg yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol gydag un ar gyfer unigolion i archwilio eu profiad ymhellach ac un i archwilio profiad cyrff buddiolwyr CCG ymhellach.

g. Gweithdai dilysiad.

### COVID-19

2.3.2. Cafodd camau olaf y gwerthusiad eu heffeithio'n anochel gan y pandemig Covid-19. Fodd bynnag, cafodd y gwerthusiad ei gynllunio o'r cychwyn cyntaf i fabwysiadu cymysgedd o ddulliau ac arferion rhithiol ac wyneb yn wyneb traddodiadol. O 2020, rhaid


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

oedd bwrw iddi i symud y gwaith yn sylweddol i ddulliau electronig er mwyn cydweithio gyda phobl.

2.3.3. Roedd yn ffodus ein bod ni wedi llwyddo i gyflawni'r rhan fwyaf o'r gwaith gwerthuso ar y cyd â'r unigolion oedd yn cymryd rhan yn ystod camau 1 a 2 oherwydd buasai agwedd yma'r gwaith wedi bod yn fwyaf heriol pe bai wedi'i gynnal yn electronig yn unig. Mae adran 3.4 yn crynhoi effeithiau a gwersi COVID 19.

# Adran 3. Canfyddiadau

## 3.1. Cyflwyniad

3.1.1. Mae'r adran hon yn cynnig trosolwg o'r canfyddiadau sy'n deillio o'r gwerthusiad ac yn datblygu canlyniadau sydd wedi'u cyflwyno mewn adroddiadau gwerthuso sydd wedi'u cyhoeddi'n flaenorol.

### Trosolwg

3.1.2. Bu'r CCG yn effeithiol o ran cyrraedd grwpiau wedi'u targedu a dengys tystiolaeth gwerthuso ei fod wedi gwneud gwahaniaeth 'sylweddol' ledled Cymru wrth gynnig cymorth i dros 23,000 o unigolion ers 2016. Unwaith y mae pobl ynghlwm â'r CCG, bu iddyn nhw elwa'n gyson o'r cymorth a ddarparwyd mewn ffordd sy'n drawiadol o ystyried bod y rhaglen wedi ymwneud yn llwyddiannus gyda phobl sydd wedi, ac yn parhau i, wynebu amgylchiadau heriol.

3.1.3. Mae adrannau diweddarach yn manylu ymhellach ar y canlyniadau a'r effeithiau.

## 3.2. Perfformiad CCG: Targedau a Gweinyddiaeth

3.2.1. Bu i gyrff buddiolwyr gydnabod rôl CGGC a'r CCG yn eang fel un cadarnhaol a chalonogol, yn enwedig gan y nifer o gyrff sector gwirfoddol oedd wedi'u hariannu gan y CCG i gynnig cymorth. Estynnodd hyn i werthfawrogiad o rôl gadarnhaol staff CGGC.

3.2.2. Roedd y brif her a gafodd ei nodi drwy gydol y gwerthusiad (y mae'r gwerthusiad hwn yn ei ategu) yn ymwneud â'r rhwystredigaethau cyson i fuddiolwyr ynghylch natur a gofynion dyrys sy'n deillio o brosesau CCG. Roedd y rhain o reidrwydd wedi'u cynllunio i gydymffurfio ag amodau Cyllid Ewropeaidd. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y gofynion hyn yn ymddangos yn rhesymegol ac roedd rhai yn fuddiol i'r unigolyn yn y tymor hirach, ond weithiau roedden nhw'n achosi heriau gwirioneddol wrth ymdrin ag unigolion allai fod yn fregus, yn amheus o awdurdod neu'n anghyfarwydd gyda phrosesau swyddogol.

3.2.3. Dydy'r heriau hyn ddim yn unigryw i'r CCG, ac, er enghraifft, amlygodd yr adroddiad Guilford 2013 (a oedd yn canolbwyntio ar brofiadau Cymru) eu bod yn broblemau sy'n endemig i raglenni a gweithrediad Cronfeydd Strwythurol Ewrop [3]. Yn gryno, cafodd

[3] Buddsoddi mewn Twf a Swyddi: Adolygiad Annibynnol o Drefniadau ar gyfer Gweithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop 2014 – 2020, Mawrth 2013, Dr Graham Guilford



RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

amcanion a chyfleoedd pwysig yng Nghymru sy'n deillio o gyllid yr UE eu rhwystro o bosibl gan gymhlethdod gweinyddol.

3.2.4. Bydd y CCG yn dod i ben yng Ngwanwyn 2023. Dydy'r adroddiad hwn felly ddim yn cynnig dadansoddiad ôl-weithredol manwl o broblemau gweithredol y gorffennol ac eithrio lle mae ganddyn nhw wersi perthnasol ar gyfer dyfodol yn dilyn Brexit. Bu adroddiadau gwerthuso sydd wedi'u cyhoeddi'n flaenorol yn cynnig dadansoddiad pellach o heriau'r gorffennol.

3.2.5. Gwers allweddol ydy y dylai cynllun rhaglen dda o reidrwydd ac arfer da gynnig atebolrwydd a rheolaethau priodol ond fe ddylid ddefnyddio systemau sy'n gymesur â lefel y dyfarniadau grant a wneir a chyn belled ag y bo modd wedi'u teilwra i anghenion grwpiau cleientiaid. Roedd gwobrau CCG yn gymedrol fel arfer, sef £58,700 ar gyfartaledd ar gyfer camau un a dau. Mae'r adroddiad Guilford yn atseinio'r casgliad hwn.

3.2.6. Er gwaethaf y beichiau gweinyddol, daeth y gwerthusiad i werthfawrogi'r ffaith bod CGGC yn ymatebol ac wedi gwneud newidiadau defnyddiol i systemau lle'n bosibl ac yn dderbyniol ynghlwm â fframwaith ariannu'r UE. Yn ystod blwyddyn gyntaf y gwerthusiad, soniodd aelod o'r tîm gwerthuso bod cyfweliadau buddiolwyr yn sesiynau therapi i bob diben, ond wrth i'r gwerthusiad fynd rhagddo, cafodd y lefel hyn o rwystredigaeth ei leihau ond ni ddiflannodd yn gyfan gwbl.

3.2.7. Ail amheuaeth sy'n deillio o'r gwerthusiad ydy'r camgymhariad rhwng natur hanfodol hyblyg CCG (y mae'r gwerthusiad hwn yn ei gymeradwyo fel cyfrannwr cryf a chadarnhaol tuag at lwyddiant y rhaglen), a natur y fframwaith targedu sydd wedi'i osod ynghlwm ag o.

3.2.8. Mae adrannau diweddarach yn datblygu'r rhesymeg ymyrraeth sy'n sail i gynllun y CCG, fodd bynnag, mae'r CCG, yn ei hanfod, yn cynnig gwahoddiad i gyflawni un neu fwy o amcanion y CCG heb ragnodi manwl. Cafodd y dull hynod hyblyg hwn ei 'wasgu rhwng' prosesau diwydrwydd dyladwy i asesu gallu darparwyr arfaethedig o'r cychwyn cyntaf, cymhwystra'r unigolion sy'n cymryd rhan, ac yna i reoli perfformiad dyfarniadau'n agos drwy brosiect cam wrth gam a system rheoli data manwl.

3.2.9. Mae'n gwbl briodol fod amcanion cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogadwyedd wedi'u hategu gan fân ddata a dadansoddiadau i ddisgrifio amodau lleol (gan dybio bod data cadarn ar gael). Fodd bynnag pan gaiff ei roi ar waith gyda chyfryngau penodol, gallan nhw fod yn llai defnyddiol. Ar y cyfan, roedd y CCG yn effeithiol iawn am gyrraedd grwpiau wedi'u targedu, ond roedd cynllun y rhaglen yn anghyson gyda dadansoddiad manwl iawn, a rhy fanwl o ran rhifau, fesul grŵp targed ac ardal ddaearyddol fel y dangosir yn y dyfyniad isod o Gynllun busnes cynnar y CCG.

3.2.10. Yn yr enghraifft hwn, mae'n aneglur a fyddai cefnogi 153 neu 155 o bobl gyda sgiliau isel yng Nghonwy o gymharu â tharged o 154 yn cynrychioli methiant neu or-gyflawni ac yn yr un modd, pa statws fyddai'n briodol pe bai un person yn llai na'r targed wedi'i gefnogi yng Nghonwy ac un un fwy na'r targed yn Ynys Môn. Mae'r dadansoddiad sy'n ategu'r targedau manwl yn werthfawr a gallai fod yn ganllaw er mwyn llywio menter dros amser. Fodd bynnag, er mwyn gallu cyflawni i'r lefel hon o fanylder, mae angen nifer


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

o ddulliau ac ymyriadau (ynghyd â chydweithio traws-sefydliadol) wrth geisio ymwneud gydag a chefnogi'r rheiny sy'n wynebu'r amgylchiadau mwyaf heriol - ac mae'n debyg ei fod yn gorddatgan cywirdeb y mân ddata sydd ar gael wrth adnabod pobl o'r fath.

**Dyfyniad o Gynllun Busnes Cynnar y CCG**

| | Local Authority area | | | | | | | | | | | | | | | Outcomes | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Target group** | **Blaenau Gwent** | **Bridgend** | **Caerphilly** | **Carmarthenshire** | **Ceredigion** | **Conwy** | **Denbighshire** | **Gwynedd** | **Isle of Anglesey** | **Merthyr Tydfil** | **Neath Port Talbot** | **Pembrokeshire** | **Rhondda Cynon Taf** | **Swansea** | **Torfaen** | **Total Engaged** | **Part quals** | **Full accredited qualifications** | **Further learning** | **Volunteering** | **Employment** | **Positive outcomes** |
| Low skills | 144 | 55 | 150 | 182 | 18 | 154 | 177 | 73 | 103 | 196 | 269 | 128 | 646 | 308 | 204 | **2,806** | **340** | **982** | **675** | **473** | **275** | **2,220** |
| S1 | 144 | 55 | 150 | 182 | 18 | 154 | 177 | 73 | 103 | 196 | 269 | 128 | 646 | 308 | 204 | 2,806 | 340 | 982 | 675 | 473 | 275 | 2,220 |
| S2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| WLHC | 99 | 36 | 80 | 99 | 13 | 94 | 105 | 42 | 40 | 102 | 224 | 81 | 361 | 119 | 185 | **1,680** | **208** | **634** | **395** | **394** | **227** | **1,368** |
| S1 | 91 | 30 | 72 | 92 | 13 | 78 | 88 | 25 | 33 | 99 | 214 | 81 | 346 | 112 | 179 | 1,554 | 208 | 493 | 382 | 335 | 134 | 1,242 |
| S2 | 15 | 12 | 17 | 15 | 0 | 33 | 33 | 33 | 13 | 6 | 19 | 0 | 29 | 15 | 12 | 252 | 0 | 141 | 13 | 59 | 94 | 126 |
| EI Carers | 43 | 8 | 44 | 75 | 4 | 53 | 83 | 17 | 15 | 65 | 86 | 27 | 175 | 36 | 35 | **767** | **72** | **322** | **189** | **109** | **162** | **602** |
| S1 | 40 | 5 | 41 | 73 | 4 | 43 | 73 | 14 | 13 | 63 | 83 | 27 | 169 | 36 | 33 | 718 | 72 | 282 | 189 | 98 | 119 | 553 |
| S2 | 4 | 6 | 6 | 4 | 0 | 19 | 21 | 6 | 4 | 4 | 6 | 0 | 13 | 0 | 4 | 98 | 0 | 40 | 0 | 11 | 43 | 49 |
| EI 54+ | 36 | 20 | 49 | 44 | 7 | 84 | 99 | 44 | 50 | 34 | 63 | 46 | 139 | 90 | 44 | **849** | **85** | **340** | **157** | **329** | **181** | **728** |
| S1 | 28 | 20 | 33 | 35 | 7 | 75 | 89 | 34 | 41 | 27 | 51 | 46 | 129 | 90 | 34 | 740 | 85 | 238 | 147 | 153 | 44 | 619 |
| S2 | 17 | 0 | 31 | 19 | 0 | 19 | 19 | 19 | 19 | 15 | 25 | 0 | 19 | 0 | 19 | 219 | 0 | 101 | 11 | 176 | 137 | 109 |
| LT BAME | 0 | 0 | 1 | 3 | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 3 | 51 | 0 | **65** | **15** | **15** | **22** | **8** | **8** | **40** |
| S1 | 0 | 0 | 1 | 3 | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 3 | 51 | 0 | 65 | 15 | 15 | 22 | 8 | 8 | 40 |
| S2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Jobless Households | 93 | 48 | 85 | 130 | 7 | 120 | 144 | 74 | 95 | 188 | 104 | 85 | 356 | 115 | 95 | **1,738** | **160** | **1,061** | **334** | **254** | **581** | **1,455** |
| S1 | 83 | 35 | 68 | 118 | 7 | 83 | 110 | 41 | 57 | 171 | 87 | 75 | 314 | 90 | 74 | 1,414 | 160 | 594 | 314 | 206 | 219 | 1,132 |
| S2 | 21 | 25 | 33 | 25 | 0 | 75 | 67 | 67 | 75 | 33 | 33 | 18 | 83 | 50 | 42 | 648 | 0 | 467 | 21 | 47 | 361 | 324 |
| Total | 415 | 167 | 408 | 534 | 49 | 506 | 609 | 251 | 302 | 586 | 748 | 368 | 1,680 | 720 | 563 | **7,905** | **880** | **3,355** | **1,773** | **1,566** | **1,434** | **6,415** |
| S1 | 387 | 145 | 364 | 503 | 49 | 433 | 539 | 188 | 247 | 557 | 706 | 359 | 1,608 | 688 | 525 | **7,297** | **880** | **2,605** | **1,728** | **1,273** | **799** | **5,807** |
| S2 | 56 | 44 | 88 | 63 | 0 | 146 | 140 | 125 | 110 | 58 | 83 | 18 | 144 | 65 | 77 | **1,216** | **0** | **750** | **44** | **293** | **635** | **608** |

## 3.3. Perfformiad yn Erbyn Cyllid a Dangosyddion

3.3.1. Dylid darllen yr adran hon ar y cyd ag Adran 3.6 ac Adran 4 sy'n disgrifio'r effeithiau a'r buddion o ganlyniad i'r CCG. Mae'r adran hon yn cofnodi perfformiad yn erbyn targedau sydd wedi'u gosod neu eu hailbroffilio yn hwyrach ymlaen. Mae'n fwy o ddadansoddiad o berfformiad yn erbyn disgwyliadau yn hytrach na sylwebaeth ar gyflawniad.

3.3.2. Ar y cyfan, roedd y CCG yn llwyddiannus ar lefel rhaglen o ran cyrraedd unigolion a grwpiau wedi' targedu a bu ar waith yn llwyddiannus ar raddfa fawr ledled Cymru.

3.3.3. Er gwaethaf hyn, ac ers ei lanio, mae targedau'r CCG wedi bod yn destun adolygiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru a CGGC gan gynnwys ar gyfer cam 3 gyda chyllidebau uwch ar gyfer tair cronfa a gostyngiad ar gyfer Dwyrain Cymru 16-24.

3.3.4. Bydd y CCG yn parhau i fod ar waith nes Gwanwyn 2023. Mae'r ffigyrau ar dablau 1 i 4 isod yn cynnig trosolwg hyd at Orffennaf 2022 ac maen nhw'n ymdrîn â mwyafrif sylweddol o'r holl fuddsoddiadau yn y CCG. Fodd bynnag, fe fydd gwariant dilynol pellach a deilliannau'n cael eu cyflawni ac mae dau adolygiad pellach wedi'u trefnu cyn


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

y bydd yn dod i ben yn gyfan gwbl, (mae'r ddau wedi'u trefnu ar gyfer y cyfnod ar ôl cwblhau'r gwerthusiad hwn).

3.3.5. Roedd graddau'r ailbroffilio angenrheidiol (a phragmatig) ar hyd oes y rhaglen yn sgil:

a. Amserlenni afrealistig ar gyfer ymwneud gydag a chefnogi unigolion ar lefel rhaglen yn ogystal ag ar lefel buddiolwr unigol o ran ailbroffilio. Bu i hyn gynrychioli dull pragmatig i addasu tuag at amserlenni mwy realistig o ran cyrraedd a chefnogi pobl sy'n wynebu heriau a rhwystrau difrifol ac sy'n aml yn brin o ffyrdd unionlin o fyw sy'n addas ar gyfer targedu neu amserlenni mwy manwl gywir.

b. Gormod o optimistiaeth ynghylch asesu amserlenni a wnaeth achosi oedi canlyniadol gyda chynnig cymorth, yn ogystal ag effeithio ar gymhelliant yr unigolion oedd yn cymryd rhan, lle yn dilyn cyswllt cychwynnol, bu iddyn nhw wynebu bwlch cyn derbyn cymorth disgwyliedig wrth i fuddiolwyr recriwtio unigolion digonol.

3.3.6. Y canlyniad oedd baich gweinyddol sylweddol. Er enghraifft, cafodd cyfanswm o 75 (24%) o 307 o brosiectau CCG yn ystod camau 1 a 2 eu hailbroffilio o leiaf unwaith. Yn ychwanegol bu i 50 prosiect (16%) dynnu'n ôl cyn cwblhau (roedd 8 ohonyn nhw wedi'u hailbroffilio yn gynharach).

3.3.7. Roedd ymwneud gyda phobl i gymryd rhan yng Nghronfa NEET Dwyrain Cymru 16 – 24 yn arbennig o heriol. Does dim un rheswm penodol am hyn, ond ymysg yr agweddau perthnasol oedd bod llai o bobl angen cefnogaeth na'r hyn gafodd ei asesu mewn rhai ardaloedd, bod rhannau o Ddwyrain Cymru'n gymharol gefnog a'r economïau lleol yn fywiog, doedd y rheiny oedd angen cymorth ddim ar radar buddiolwyr oedd wedi'u hariannu i ymwneud â nhw neu fod pobl yn llai amlwg mewn ardaloedd mwy cefnog fel arall. Hefyd, gallai ffin fandyllog gyda Lloegr (h.y. cyfleoedd ehangach ar gael o bosibl) fod wedi cyfrannu at y mater.  Yn olaf, roedd gofynion arian cyfatebol uwch gan fuddiolwyr yn Nwyrain Cymru, h.y. roedd angen iddyn nhw fuddsoddi mwy o adnoddau i sicrhau dyfarniad CCG.

3.3.8. Yn fwy cyffredinol, ymysg rhesymau bu i'r buddiolwyr eu cofnodi am eu heriau mae'r canlynol:

a) Diffyg eglurder ynghylch bodolaeth leol (ai peidio) pobl gymwys a'r gallu (ai peidio) i recriwtio a chadarnhau digon o bobl i gymryd rhan.

b) Achosion o gystadleuaeth rhwng mudiadau a/neu raglenni sy'n gorgyffwrdd mewn rhai ardaloedd.

c) Amcangyfrif yn rhy isel faint o amser oedd ei angen i roi trefniadau ailgyfeirio mewn lle.

d) Sylweddoli bod y rhai oedd yn cymryd rhan yn fwy heriol i weithio gyda nhw na'r disgwyl.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

*"Mae angen i CGGC fapio'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd... mae llawer gormod o raglenni. Mae angen mwy o gydlynu."*

3.3.9. Er gwaethaf cystadleuaeth ymddangosiadol neu wirioneddol rhwng mudiadau, bu i ddarparwyr CCG geisio gwell cyfathrebu a chydweithio rhyngddyn nhw gan gredu y byddai hyn yn cyflawni deilliannau gwell. Roedden nhw'n teimlo y dylai CGGC hwyluso hyn.

3.3.10. Ar y cyfan, nid oes dim o hyn yn amharu ar gasgliad cadarnhaol y gwerthusiad hwn. Nid yw'n syndod bod perfformiad yn anghyson o ystyried y canlynol:

a. Gallu trefniadol buddiolwyr unigol: roedd nifer sylweddol o'r cyrff hyn yn hynod alluog i allu cefnogi grwpiau cleientiaid penodol ond roedden nhw'n fach ac ond yn meddu ar ychydig iawn o adnoddau gweinyddol a staff.

b. Amgylchiadau amrywiol a hygyrchedd unigolion a grwpiau wedi'u targedu ynghyd â natur gymhleth eu hanghenion.

c. Agweddau allanol megis amodau a chyfleoedd y farchnad lafur lleol.

3.3.11. Mae'r pedwar tabl isod yn crynhoi perfformiad ariannol y CCG yn erbyn targedau allweddol penodol gan bob un o'r pedair cronfa hyd at Orffennaf yr 31ain 2022 (y data diweddaraf ar gael ar gyfer yr adroddiad hwn ym mis Medi 2022).

| **Tabl 1: Cyllid a Dangosyddion** | **80727 CCG Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 25+** | | |
|---|---|---|---|
| | **Rhif Targed 31/07/2022** | **Rhif Gwirioneddol 31/07/2022** | **Gwahaniaeth %** |
| **Unigolion a ymgysylltwyd gyda nhw** | 12,622 | 12,622 | Amherthnasol* |
| **Ennill Cymhwyster / Achrediad sy'n Berthnasol â Gwaith** | 6,935 | 6,935 | Amherthnasol* |
| **Cwblhau Lleoliad Profiad Gwaith neu Gyfle Gwirfoddoli** | 2,823 | 2,823 | Amherthnasol* |
| **Dod o hyd i Waith / Gweithio'n Hunangyflogedig** | 1,768 | 1,768 | Amherthnasol* |
| **Yn Chwilio am Waith** | 947 | 947 | Amherthnasol* |
| **Gwariant (gan gynnwys Cyllid Cyfatebol) £oedd** | £18,762,687 | £18,762,687 | Amherthnasol* |

* Ffigwr Targed wedi'i Ailbroffilio ar gyfer 31/07/2022 felly does dim data gwahaniaeth ar gael


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

| Tabl 2: Cyllid a Dangosyddion | 80728 CCG Dwyrain Cymru 25+ | | |
|---|---|---|---|
| | Rhif Targed 31/07/2022 | Rhif Gwirioneddol 31/07/2022 | Gwahaniaeth % |
| Unigolion a ymgysylltwyd gyda nhw | 3,315 | 3,315 | Amherthnasol * |
| Ennill Cymhwyster / Achrediad sy'n Berthnasol â Gwaith | 1,665 | 1,665 | Amherthnasol * |
| Cwblhau Lleoliad Profiad Gwaith neu Gyfle Gwirfoddoli | 792 | 792 | Amherthnasol * |
| Dod o hyd i Waith / Hunangyflogedig | 350 | 350 | Amherthnasol * |
| Yn Chwilio am Waith | 95 | 95 | Amherthnasol * |
| Gwariant (gan gynnwys Cyllid Cyfatebol) £oedd | £4,256,981 | £4,256,981 | Amherthnasol * |

* Ffigwr Targed wedi'i Ailbroffilio ar gyfer 31/07/2022 felly does dim data gwahaniaeth ar gael

| Tabl 3: Cyllid a Dangosyddion | 80743 CCG Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 16-24 Oed | | |
|---|---|---|---|
| | Rhif Targed 31/07/2022 | Rhif Gwirioneddol 31/07/31 | Gwahaniaeth % |
| Unigolion a ymgysylltwyd gyda nhw | 6,751 | 6,018 | -10.86% |
| Ennill Cymhwyster Achrededig Llawn | 1,524 | 981 | -35.63% |
| Cyflawni Addysg / Hyfforddiant | 1,275 | 966 | -24.24% |
| Dod o hyd i Waith / Hunangyflogedig | 1,467 | 1,512 | 3.0% |
| Gwariant £oedd | £10,842,854 | £10,770,652 | -0.67% |

| Tabl 4: Cyllid a Dangosyddion | 80744 CCG Dwyrain Cymru 16-24 Oed | | |
|---|---|---|---|
| | Rhif Targed 31/07/2022 | Rhif Gwirioneddol 31/07/31 | Gwahaniaeth % |
| Unigolion a ymgysylltwyd gyda nhw | 1,062 | 1,114 | 4.9% |
| Ennill Cymhwyster Achrededig Llawn | 209 | 181 | -13.4% |
| Cyflawni Addysg / Hyfforddiant | 139 | 165 | 18.71% |
| Dod o hyd i Waith / Hunangyflogedig | 250 | 299 | 19.60% |
| Gwariant £oedd | £1,583,218 | £1,729,488 | 8.67% |

*Ffynhonnell CGGC Awst 2022*


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

## 3.4. COVID 19: Effeithiau a Dysgu

3.4.1. Mae'r adran hon yn crynhoi'r canfyddiadau a'r dysgu o brofiad cyffredinol y CCG ynghylch effeithiau'r pandemig COVID 19 yn ogystal â chyfres benodol o ddyfarniadau yn ymwneud â COVID 19.

### Trosolwg

3.4.2. Cychwynnodd Cam 3 y CCG yn Hydref 2019 gyda phroffiliau wedi'u hadolygu ar gyfer y 4 cronfa CCG. Fodd bynnag, llai na 6 mis yn ddiweddaraf fe ymddangosodd COVID 19 gan gael effaith aflonyddgar iawn ledled Cymru a'r byd, gan gynnwys ar berfformiad y CCG.

3.4.3. O ystyried y diffyg cynsail modern, does dim 'ffon fesur' na data cymharol i allu cymharu perfformiad. Fodd bynnag bu i'r CCG barhau i weithredu o dan amodau heriol dros ben. Yn reddfol, mae'n syndod nad oedd yr effeithiau'n fwy eithafol gan ystyried amgylchiadau'r bobl oedd wedi'u targedu i dderbyn cymorth gan y CCG a'r effaith ar economi a chymdeithas Cymru'n fwy eang.

3.4.4. Hefyd, wrth i ymatebion buddiolwyr unigol amrywio'n eang, bu i'r rheiny wnaeth ymateb yn effeithiol i natur hynod aflonyddgar y pandemig addasu a'i ddefnyddio'n greadigol fel sbardun ar gyfer newid cadarnhaol.

3.4.5. Ymysg yr effeithiau tymor byr oedd rhwystrau i ddod o hyd i gyfleoedd priodol i gynnig cymorth (er enghraifft, roedd rhai prosiectau'n ymwneud â gweithgareddau grŵp neu brofiad ymarferol mewn garddwriaeth neu wella amgylcheddol) a heriau i ddod o hyd i swyddi neu leoliadau ar gyfer y rheiny oedd yn cymryd rhan.

3.4.6. Yn yr un modd, o ystyried y grwpiau a'r unigolion oedd wedi'u targedu i dderbyn cymorth, roedd yn debygol y byddai unigolion yn cael eu 'colli'. Fe wnaeth y gwerthusiad gadarnhau fod hyn yn wir yn ymarferol, er enghraifft yn sgil cymhelliant neu ddisgwyliadau'r unigolion yn lleihau.

3.4.7. Roedd y canlynol yn allweddol i gynnal y Gweithrediad CCG:

a. Hyblygrwydd CGGC a Llywodraeth Cymru ynghylch lleddfu gofynion y CCG. I gychwyn, bu i gyfyngiadau COVID 19 ei gwneud hi'n heriol i gyflawni gofynion gweinyddol y CCG hyd yn oed ar eu ffurf fwy syml ar gyfer rownd y CCG oedd yn benodol i COVID 19. Fodd bynnag bu i'r buddiolwyr gydnabod ymatebolrwydd CGGC wrth addasu a symleiddio gofynion yn ystod dyfodiad COVID ac roedden nhw'n gadarnhaol dros ben ynghylch y newidiadau e.e. cyflwyno prosesau electronig megis defnyddio DocuSign neu raglenni llofnodion electronig eraill.

b. Hyblygrwydd staff CGGC, eu gwaith cyfathrebu a'u parodrwydd i ymwneud gyda buddiolwyr i'w helpu a deall yr heriau o'u safbwynt nhw. Bu i'r buddiolwyr ganmol yr elfen hon. Cafodd hyn ei ymestyn i ddigwyddiadau rhwydweithio ar-lein gyda buddiolwyr yn dysgu o brofiadau ei gilydd yn ogystal â dysgu gan


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

brofiadau CGGC. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn awgrymu y bu i hyn annog mwy o gydweithio rhwng mudiadau'n annibynnol.

c. Gwydnwch, ystwythder ac addasrwydd buddiolwyr – *ai peidio* – i ymateb i'r amgylchiadau sydd wedi newid yn sylweddol ynghlwm â'r pandemig. Bu i rai buddiolwyr roi'r gorau i'w gweithgarwch neu ei gwtogi'n sylweddol a bu i rai eraill addasu eu dulliau a'r natur neu'r ffordd oedden nhw'n cynnig cymorth i'r unigolion. Roedd y gwahaniaethau rhwng mudiadau'n amlwg. Yn nodweddiadol, y mudiadau gwydn, ystwyth, oedd yn agos i'w unigolion oedd yn cymryd rhan ac yn ymroddedig oedd y rhai mwyaf llwyddiannus wrth addasu a chynnal eu cymorth yn llwyddiannus.

3.4.8. Mae'r CCG – a phrofiad rhaglen arall gyda'r CCG – yn awgrymu *gwerth mewn cyfnewid addysg a gwybodaeth trydydd sector fel cyfle i ddeall gwersi trosglwyddadwy a allai fod yn berthnasol o dan amodau 'busnes fel arfer' yn ogystal â sut i ymateb yn llwyddiannus i argyfwng*.

## COVID 19: Yr hynny oedd yn Llwyddiannus

3.4.9. Roedd y newidiadau a'r addysg a wnaeth arwain at gynnig cymorth llwyddiannus i'r unigolion oedd yn cymryd rhan yn sgil mudiadau buddiolwyr oedd:

a. Yn ymwybodol ac yn ymatebol i effeithiau arfaethedig y pandemig ar bobl fregus o ran cynnydd mewn problemau iechyd meddwl gan gynnwys gorbryder a straen, a'r gallu i fynd i'r afael â hyn er mwyn calonogi a chynnal y cymorth hwnnw ynghyd â pharhau i gynnig y cymorth hwnnw.

b. Yn gallu cynnal y cymorth hwn yn llwyddiannus drwy ddulliau rhithiol pan fo cyfathrebu wyneb yn wyneb wedi'i wahardd neu'n annymunol: bu i gyswllt rhithiol gynnig parhad a bu'n fodd o gynnal ymgysylltiad yr unigolion oedd yn cymryd rhan, ond roedd hefyd yn gyfle i unigolion rannu meddyliau a theimladau a theimlo'n llai unig yn ystod y cyfnod clo neu eu cyfnod yn cysgodi.

c. Yn gallu parhau i gynnig cyswllt wyneb yn wyneb (gan gadw pellter cymdeithasol) gydag unigolion pan fo'n ganiataol ac yn ymarferol: er gwaethaf enghreifftiau da o ymgysylltu'n rhithiol, gallai cyfathrebu wyneb yn wyneb fod yn hanfodol ar gyfer ymgysylltu a hybu hyder unigolion sy'n cymryd rhan, yn enwedig yn ystod camau cynnar y cymorth.

d. Yn gallu rhoi ffydd newydd o weithio ar waith a bod yn hyblyg gan barhau i fynd i'r afael ag anghenion unigol yn hytrach na chynnig cymorth cyffredinol, h.y. cynnal agwedd bersonol at y cymorth hwnnw.

e. Yn gallu annog y defnydd o dechnoleg a gafodd effaith gadarnhaol i rai unigolion (a'u teuluoedd) wrth feithrin a chynnal cysylltiadau a'u huwchsgilio gan roedd nifer sylweddol yn anghyfarwydd gyda gweithio'n rhithiol. Bu i fudiadau buddiolwyr llwyddiannus fynd i'r afael â "tlodi digidol a llythrennedd", er


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

enghraifft, wrth gaffael a chynnig cyfarpar i fuddiolwyr gyda buddion sy'n dueddol o ymestyn y tu hwnt i'r pandemig.

## Agweddau cadarnhaol yn dilyn Cyfnod Heriol

3.4.10. Ymysg y deilliannau cadarnhaol yn dilyn y pandemig lle gafodd cymorth ei gynnal yn llwyddiannus oedd:

a. Sicrwydd a chyswllt gyda phobl a allai fod yn fregus yn ystod y profiad o COVID 19 a oedd yn aml yn straen ac yn arbennig, parhad cysylltiad cymdeithasol a rhyngweithio.

b. Dealltwriaeth fwy eang o sut i gynnig cymorth effeithiol, er enghraifft, wrth ymwneud â llesiant ynghyd â chymorth cyflogadwyedd penodol yn wyneb amgylchiadau personol sy'n hynod heriol.

c. Manteisio ar gipolwg o amodau byw a thlodi drwy ymwneud yn rhithiol gyda phobl yn eu cartrefi gyda buddion dilynol ychwanegol i helpu pobl gyda'u hanghenion ehangach (e.e. manteisio ar fanciau bwyd neu ddillad).

d. Defnyddio ymgysylltu rhithiol fel modd o gynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan a'r graddau maen nhw'n cymryd rhan, er enghraifft gyda theuluoedd ynghyd ag unigolion ac mewn rhai achosion hwyluso pobl i gymryd rhan na fyddai'n cymryd rhan wyneb yn wyneb o bosibl (e.e., o ganlyniad i ddisgwyliadau ac arferion diwylliannol).

e. Buddiolwyr yn grymuso a chefnogi unigolion i ymwneud gyda'r gymdeithas er mwyn helpu eraill mewn argyfwng, er enghraifft mewn un achos bu i unigolion adnabod angen i gynnig gwisg ysgol ail law yn ystod cymorth CCG ac yna trefnu mynd ati i'w caffael, eu golchi a'u smwddio cyn eu dosbarthu i'r rheiny mewn angen.

f. Cynnydd mewn ymwybyddiaeth ddigidol a hybu hyder i'w ddefnyddio gan gynnwys gyda theuluoedd sy'n defnyddio'r cyfarpar (nid yr unigolion sy'n cymryd rhan yn unig).

## COVID 19: Effeithiau Tymor Hirach

3.4.11. Ar y cyfan, bu i gyfyngiadau COVID 19 hybu neu gyflymu newidiadau yn nhrefn arferol y gymdeithas. Wrth i'r gymdeithas ddychwelyd i fyw bywyd sy'n nes at fywyd 'arferol', mae'r newidiadau hyn yn dal ar waith. Fodd bynnag, mae'r profiad CCG (a phrofiadau eraill gyda rhaglenni cyfredol sy'n ymwneud â chymorth i grwpiau ac unigolion sy'n wynebu heriau) yn awgrymu ei bod yn ymddangos mai un deilliant ydy mabwysiadu dulliau hybrid o ymwneud gyda phobl sy'n cyfuno rhai dulliau wyneb yn wyneb gyda dulliau digidol a ffyrdd o weithio i raddau llawer mwy helaeth o gymharu â'r cyfnod cyn COVID 19.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

3.4.12. Mae'r astudiaethau achos a dadansoddiad 'beth sy'n effeithiol' (*'Ymarfer Da mewn Helpu Pobl i Ddod o hyd i Waith: Gwersi o Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC')* yn adnabod arfer da gan fuddiolwyr ynghylch cefnogi cymryd rhan sy'n cynnwys dysgu yn sgil y pandemig COVID 19.

## 3.5. A wnaeth y CCG Gyrraedd Grwpiau Targed?

3.5.1. Ar y cyfan, bu i'r CCG gyrraedd unigolion wedi'u targedu sy'n 'anodd eu cyrraedd' yn gyson, gyda manteision sylweddol i lawer unwaith yr oedden nhw wedi ymgysylltu a'u cadarnhau'n gymwys. Bu i'r rhan fwyaf o'r unigolion oedd yn cymryd rhan adrodd profiadau a manteision cadarnhaol cyson ar gyfer Llinyn 1 (helpu pobl i ddod o hyd i waith neu rôl wirfoddoli) a Llinyn 2 (lleoliadau gwaith). Roedd yna eithriadau, ond gan ystyried math a graddfa'r rhaglen hwn, ynghyd â'r grwpiau sydd wedi'u targedu, mae hynny i'w ddisgwyl gan fod elfen sylweddol o'r bobl fu'n rhan o'r rhaglen naill ai yn neu wedi bod yn byw bywydau di-drefn tan yn ddiweddar neu'n wynebu amgylchiadau heriol.


3.5.2. Mantais arall ynghlwm â'r CCG oedd diffinio amgylchiadau heriol yn fras. Nid oedd pob un o'r unigolion oedd yn cymryd rhan o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol, er enghraifft, roedd un unigolyn arfer gweithio mewn swydd lefel rheoli uwch, ond roedd wedi *"gorweithio",* yn dioddef o iselder ac fe *"gychwynnodd yfed"* gan arwain at ganlyniadau difrifol

3.5.3. Mae Siart 1 isod yn cynnig dadansoddiad o'r 23096 o unigolion oedd yn cymryd rhan ac a wnaeth gwblhau eu cymorth CCG erbyn Mawrth yr 31ain 2022 yn ôl y tri maen prawf craidd o ran cymhwysedd cyflogaeth a oedd yn berthnasol i'r holl unigolion arfaethedig iddyn nhw allu cymryd rhan yn y CCG: mae'n rhaid iddyn nhw fodloni un o'r rhain.

3.5.4. Mae dadansoddiad mwy manwl o gydraddoldeb, gan gynnwys rhyw, gan ddefnyddio data CGGC yn Adran 6 fodd bynnag mae'r system yn cofnodi fod y cydbwysedd rhwng dynion / merched wnaeth gymryd rhan yn y CCG fel a ganlyn 55% yn ddynion a 45% yn ferched a oedd yn gyson yn ystod y 3 cham.

3.5.5. **Sylwch 1:** cyn i'r rhaglen ddod i ben yn gyfan gwbl, bydd unigolion pellach yn cwblhau'r CCG sydd ar hyn o bryd yn derbyn cymorth neu a wnaeth gwblhau ar ôl Mawrth yr 31ain 2022 ac felly dydyn nhw ddim wedi'u cynnwys yn y siart. Bydd y rheiny'n gyfanswm ychwanegol cymharol fach ac ni fyddan nhw'n newid casgliadau'r gwerthusiad yn sylweddol.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP





3.5.6. Yn dilyn rhoi'r hidlydd statws gwaith CCG ar waith uchod, bu i'r CCG adnabod a wnaeth unigolion arfaethedig fodloni cyfres o 'flaenoriaethau mynediad sylfaenol' penodol o ran cymhwystra a wnaeth arwain at y posibilrwydd o gynnig cymorth CCG. Mae Siart 2 isod yn cofnodi'r rhain.

3.5.7. **Sylwch 1**: Mae Siart 2 yn dangos y flaenoriaeth mynediad sylfaenol, yn ymarferol mae nifer o unigolion yn bodloni neu'n profi mwy nac un o'r rhain, felly er enghraifft mae mwy o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol nac sydd wedi'u cofnodi yma (gwelwch Adran 6.2. yn ogystal).

3.5.8. **Sylwch 2**: Mae Siart 2 yn cynnwys 283 o gofnodion ychwanegol ar gyfer unigolion wnaeth fanteisio ar y CCG cyn Mawrth yr 31ain 2022 ond na wnaeth gwblhau eu cymorth erbyn y dyddiad hwnnw.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP





3.5.9. Mae data CGGC yn cynnig cipolwg arall ar amgylchiadau'r unigolion a wnaeth dderbyn cymorth CCG drwy gofnodi nodweddion yr unigolion: dydy'r rhain ddim yn feini prawf craidd ond maen nhw'n cynnig tystiolaeth pellach i ddangos fod cymorth CCG wedi'i gynnig i'r rheiny mewn amgylchiadau heriol. Mae Siart 3 isod yn dangos y patrwm pan fo'r data ar gael.

3.5.10. **Sylwch 1:** dydy'r data sydd ar gael ar gyfer Siart 3 ddim yn 100% a gallai'r unigolion gofnodi mwy nac un agwedd.

3.5.11. Mae'r data hwn yn gyson gyda chanfyddiadau'r gwerthusiad yn dilyn gwaith maes o ran y bu i'r CCG targedu a chyrraedd nifer o bobl oedd yn byw bywydau cymhleth a heriol a oedd yn aml yn wynebu nifer o broblemau neu heriau a oedd yn berthnasol i sawl 'meini prawf blaenoriaeth sylfaenol' CCG. At hyn, mae'n bosibl bod yr unigolion wedi wynebu cyflyrau iechyd meddwl megis iselder a gorbryder ac mewn rhai achosion ymgais i gyflawni hunanladdiad, camddefnyddio a dibyniaeth ar sylweddau ac anableddau gan gynnwys anableddau dysgu.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP




## 3.6. Effeithiau'r CCG

3.6.1. Mae'r adran hon yn bwrw golwg ar effeithiau CCG ac yn manteisio ar yr ystod eang o dechnegau ymchwil oedd wedi'u defnyddio ac yn enwedig ar gyfweliadau ac arsylwadau maes gyda'r unigolion oedd yn cymryd rhan a'r buddiolwyr, cofnodion data helaeth CGGC, a chanlyniadau mynegol o arolwg byr i unigolion oedd yn cymryd rhan.

3.6.2. Ar y cyfan, unwaith i'r CCG ymgysylltu gydag unigolion, bu i'r rhaglen:

a) Lwyddo i ymwneud yn llwyddiannus gyda nifer o bobl mewn amgylchiadau heriol a oedd yn aml angen buddsoddiad amser a chymorth sylweddol dros gyfnodau estynedig er mwyn sicrhau eu bod yn ymuno â'r farchnad lafur.

b) Gyflawni deilliannau aruthrol gyda'r unigolion (gwelwch isod) o ystyried amgylchiadau'r bobl a gefnogwyd gyda chorff o naratifau cymryd rhan cadarnhaol sy'n dangos yr heriau ymarferol niferus ac amrywiol maen nhw'n eu hwynebu yn ogystal â'u llwyddiannau.

c) Manteision cyson ynghylch hybu a chodi hunan-hyder yr unigolion oedd yn cymryd rhan: ar ei orau, bu i'r CCG gyflawni cyfuniadau llwyddiannus o sgiliau meddal a chaled ar gyfer yr unigolion oedd yn cymryd rhan.

d) Ymwneud gydag unigolion oedd yn meddu ar nodweddion amrywiol iawn. Roedd rhai yn agos at ymuno â'r farchnad lafur a nifer o'r rhai eraill ddim. Er


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

enghraifft, gallai mewnfudwyr economaidd fod yn gryf eu cymhelliad ac yn barod i weithio ond, er enghraifft, mae angen sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r prosesau sylfaenol er mwyn ceisio am a chyflawni swyddi yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd nifer o unigolion eraill mewn amgylchiadau heriol yn dod i'r amlwg ac wedi elwa ond nid oedden nhw'n barod ar gyfer y gofynion mwy ffurfiol sy'n cyd-fynd ag ymuno â'r gweithlu'n gyfan gwbl yn fuan. Caiff y gwersi sydd wedi'u dysgu yn sgil hyn eu crybwyll yn Adran 7.

3.6.3. Fodd bynnag, er ei fod yn effeithiol o ran cefnogi unigolion unwaith iddyn nhw ymuno â'r rhaglen, roedd trosglwyddo unigolion i brosiect CCG ac yna sicrhau caiff cymorth hanfodol ac effeithiol ei gynnig yn y dyfodol, wedi iddyn nhw gwblhau'r rhaglen, yn fwy heriol. Roedd yr opsiwn 'llinyn cyfun' a gyflwynwyd yng ngham 2 yn gam i'r cyfeiriad cywir i helpu llunio llwybrau i unigolion allu symud tuag at ac yna ymuno gyda'r farchnad lafur. Fodd bynnag, byddai nifer sylweddol o'r bobl oedd yn cymryd rhan yn y CCG wedi elwa o lwybr at waith tymor hirach gyda chefnogaeth. Mae'r canfyddiad hwn wedi'i ategu gan adolygiad llenyddiaeth y gwerthusiad *'Adolygiad Tystiolaeth: Effeithiolrwydd Mentrau Cyflogadwyedd'* sy'n adnabod y canlynol yn gyffredinol:

a. Yr hiraf bydd unigolyn yn anweithredol yn economaidd, y mwyaf o rwystrau bydd yn eu hwynebu wrth [ail] ymuno â'r farchnad lafur.

b. Y mwyaf o gymorth sydd ei angen arnyn nhw i ddod o hyd i waith.

c. Y mwyaf o amser sydd ei angen arnyn nhw i gyflawni hyn.

3.6.4. Mae newid arall a gyflawnwyd yng ngham 2 werth ei nodi: mae cyflwyno modd i grwpiau oedran cymysg gymryd rhan wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan. Er enghraifft:

a. Gallai mamau ifanc ddysgu mwy am ofal plant gan eu cyfoedion hŷn.

b. Gallai pobl ifanc ddysgu mwy am brofiad gwaith gan bobl hŷn ac, er enghraifft, gallan nhw gynnig cymorth gyda thechnoleg gwybodaeth yn gyfnewid am hynny.


c. Fodd bynnag, mae adegau lle gall fod yn llai addas, er enghraifft, os ydy'r rhai sy'n cymryd rhan yn arbennig o fregus neu lle mae problemau diogelu penodol.

3.6.5. Un gyfres ddata allweddol ydy cofnod, wedi'i ddilysu gan CGGC, o ddeilliannau yn syth ar ôl i'r 23096 o bobl gymryd rhan gan y rheiny a wnaeth gwblhau eu cymorth CCG (neu a wnaeth adael yn gynnar) ar neu cyn Mawrth yr 31ain 2022. Mae hyn yn adnabod deilliannau yn erbyn rhestr safonol y cytunwyd arni. Mae'r canlyniadau yn Siart 4 isod yn nodi y gallai'r unigolion oedd yn cymryd rhan fod wedi cyflawni mwy nac un deilliant wedi iddyn nhw gwblhau.

3.6.6. Mae'r data wedi'i rannu fesul merched, dynion a'r rheiny oedd heb eu hadnabod ar yr adeg y cafodd y data hwn ei gaffael. O ystyried cymhareb gyffredinol yr unigolion oedd yn cymryd rhan o 55% o ddynion i 45% o ferched, roedd 53% o'r rheiny wnaeth nodi eu bod yn ddynion gyflawni o leiaf un deilliant wrth gwblhau ac fe wnaeth 47% o'r rheiny wnaeth nodi eu bod yn ferched yn yr un modd hefyd.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

3.6.7. Mae Siart 4 hefyd yn dangos y rheiny wnaeth adael yn gynnar, h.y. unigolion wnaeth gymryd rhan yn y CCG ond a wnaeth adael cyn cyflawni eu cymorth oedd wedi'i drefnu. Mewn rhai achosion, roedd hyn oherwydd doeddwn nhw, am ba bynnag rheswm, ddim o'r farn bod y CCG yn ddefnyddiol neu bu i'w hamgylchiadau achosi iddyn nhw roi'r gorau. Fodd bynnag, mae'r categori hwn hefyd yn ymdrîn â straeon cadarnhaol lle bu i unigolion fynd rhagddi i gyflawni canlyniad cadarnhaol cynnar. Er nad oedd gan y gwerthusiad unrhyw ddata y gellir ei gymharu'n uniongyrchol, mae'r gyfradd o unigolion sy'n gadael cyn cwblhau sef 18%, gyda chyfran o straeon llwyddiant ynghlwm â'r ffigwr hwnnw hefyd, yn reddfol resymol ac nid yw'n syndod.





**Cymwysterau**

3.6.8. Mae Siart 5 isod yn dangos yr ystod o gymwysterau a gyflawnwyd fel deilliant ymadael o'r CCG.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

**Siart 5: Cronfa Cynhwysiant Gweithredol: Deilliannau Ymadael Unigolion – Cymwysterau sydd wedi'u Hennill**

*(Ffynhonnell: CGGC o 23096 o Gofnodion)*




3.6.9. Mae'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau i Gymru yn fframwaith dysgu strwythuredig gyda'r holl ddysgu wedi'i ddisgrifio gan gyfres o lefelau o gymwysterau lefel mynediad sylfaenol / sgiliau hanfodol ac yna ystod o 8 cymhwyster lefel uchel cynyddol gyda'r lefel uchaf (8) yn gymwysterau doethurol neu broffesiynol (megis cyfrifydd siartredig)[4]. Yn gryno:

a. Caiff cymhwyster Lefel 1 Fframwaith Credydau a Chymwysterau ei ddiffinio fel – neu mae'n cyfateb i – cymhwyster Sylfaen Bagloriaeth Cymru, cymhwyster galwedigaethol, sgil hanfodol neu TGAU gradd D – G.

b. Caiff cymhwyster Lefel 2 Fframwaith Credydau a Chymwysterau ei ddiffinio fel – neu mae'n cyfateb i – cymhwyster Cenedlaethol Bagloriaeth Cymru, cymhwyster galwedigaethol, sgil hanfodol, TGAU gradd A* - C neu brentisiaeth.

c. Caiff cymhwyster Lefel 3 Fframwaith Credydau a Chymwysterau ei ddiffinio fel – neu mae'n cyfateb i – cymhwyster Uwch Bagloriaeth Cymru, cymhwyster galwedigaethol, sgil hanfodol, UG/Safon Uwch, Mynediad i Addysg Uwch neu brentisiaeth.

---

[4] Mae mwy o wybodaeth yma: https://gov.wales/credit-and-qualifications-framework-cqfw-overview



RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

## Sgiliau Meddal a Chymhelliant

3.6.10. Bu i adolygiad llenyddiaeth y gwerthusiad *'Adolygiad Tystiolaeth: Effeithiolrwydd Mentrau Cyflogadwyedd'* wrthgyferbynnu canlyniadau 'caled' a deilliannau 'meddal' mewn arferion a pholisïau cyflogadwyedd, ac yn enwedig, y pwysigrwydd o ddatblygu sgiliau meddal fel rhagofyniad angenrheidiol ar gyfer parhau i fod yn rhan o'r farchnad lafur (neu wirfoddoli tymor hirach llwyddiannus), yn enwedig ar gyfer y rheiny sy'n wynebu rhwystrau heriol rhag dod o hyd i waith. Bu i'r model CCG gydnabod hyn.

3.6.11. Gellir bodloni rhai o anghenion yr unigolion sy'n cymryd rhan (yn enwedig y rheiny sy'n nes at ymuno â'r farchnad lafur) drwy gynnig cymorth ymarferol uniongyrchol i gaffael sgiliau neu gyfeirio pobl i reoli swyddogion neu'r prosesau ynghlwm. Fodd bynnag, trwy ddiffiniad, mae angen help ar yr unigolion mwyaf 'anodd eu cyrraedd' i hybu eu hyder neu i addasu wedi iddyn nhw wynebu amgylchiadau heriol, dysgu ymddygiadau perthnasol ar gyfer llwyddo yn y gweithle neu i oresgyn nifer o rwystrau'n aml i gyflawni ffordd o fyw mwy buddiol a dod o hyd i waith â thâl neu waith gwirfoddol.

3.6.12. Mae'r ddogfen atodol *'Ymarfer Da mewn Helpu Pobl i Ddod o hyd i Waith: Gwersi o Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC'* yn disgrifio arfer da o ran cynlluniau rhaglenni a chynnig cymorth ynghyd ag astudiaethau achos eglurhaol sy'n canolbwyntio ar y rheiny sy'n wynebu'r mwyaf o heriau.

**Arsylwadau'r Gwerthusiad:** bu i'r gwerthusiad arsylwi cwrs sgiliau rhyngbersonol ar gyfer grŵp o unigolion oedd yn rhan o'r CCG.

Rydym yn canolbwyntio ar straen gan gynnig cyfle i'r rhai sy'n cymryd rhan i ystyried beth sy'n achosi ac yn cael effaith ar hyn, a sut mae modd iddyn nhw ei leihau a datblygu strategaethau ymdopi. Mae'r cwrs yn defnyddio amrywiaeth o offer megis cyflwyniadau, diagramau, fideos ayb, er mwyn parhau gyda'r ymgysylltiad. Mae gan bawb sy'n cymryd rhan lyfrau gwaith i'w cwblhau er mwyn cofnodi eu teimladau a'u deilliannau fel ffordd o'u grymuso. Bu i bawb oedd yn cymryd rhan adael y sesiwn gyda strategaethau ymdopi roedden nhw wedi'u hystyried ac yn awyddus i'w mabwysiadu.

Roedd y swyddog yn deimladwy tuag at anghenion unigolion, yn rhoi amser i'r rhai oedd yn cymryd rhan rannu eu teimladau a'u profiadau gan gynnig cydymdeimlad ac anogaeth trwy gydol y sesiwn: roedd rhai wedi profi digwyddiadau trawmatig ac roedd yn amlwg ei bod hi wedi meithrin perthynas llawn ffydd gyda nhw a chreu amgylchedd diogel i'r rhai oedd yn cymryd rhan siarad yn agored ymysg ei gilydd.

3.6.13. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn manteisio ar gyfweliadau unigolion a buddiolwyr ynghyd ag arsylwadau o'r CCG ar waith. Bu i ddadansoddiad o ddata CGGC ddangos fod y CCG wedi perfformio'n dda i helpu'r rhai oedd yn cymryd rhan i wella'u sgiliau mwy meddal a chefnogi llesiant a gwydnwch meddyliol.

3.6.14. Yn gyffredinol, mae hwn yn ddangosydd pendant o'r ffordd y llwyddodd CCG i gydnabod a gweithredu'n llwyddiannus ar y ffaith mai'r ffordd orau o gyflawni amcanion


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

cyflogadwyedd ydy wrth eu cyfuno gyda mesurau i gefnogi anghenion llesiant a lles unigol, ac felly mae angen teilwra cymorth i fodloni anghenion yr unigolyn wrth helpu'r rheiny sy'n wynebu'r mwyaf o heriau.

**Enghraifft: Rhieni Sengl Ifanc:** Cafodd yr unigolion oedd yn rhan o'r **CCG** hyfforddiant cyflogadwyedd a chymorth gyda goresgyn unrhyw rwystrau, yna eu lleoli a'u cefnogi i ddod o hyd i waith parhaol ar ôl iddyn nhw gwblhau. Adborth y rhai sy'n cymryd rhan ydy eu bod nhw'n teimlo'n fwy hyderus a bod y lleoliadau yn llwyddiannus yn ymarferol o ran cynnig sgiliau trosglwyddadwy ond hefyd yn seicolegol (fel rhieni sengl, cyfle i ryngweithio gydag 'oedolion' eraill): yn hanfodol, roedd y rhaglen yn ariannu costau gofal plant.

3.6.15. Mae'r siartiau canlynol yn cynnig dadansoddiad cryno o ddata'r CGGC ar hunan-asesiadau'r rhai sy'n cymryd rhan ynghylch agweddau amrywiol o sgiliau 'mwy meddal', gan gynnwys mwy o hyder, cymhelliant a hunan-gred. Maen nhw'n seiliedig ar y 23096 o unigolion oedd yn rhan o'r CCG a wnaeth gwblhau'r CCG (neu a wnaeth adael yn gynnar) erbyn Mawrth yr 31ain 2022 felly mae'n cynrychioli mwyafrif sylweddol o'r holl unigolion oedd yn derbyn cymorth CCG.

3.6.16. Mae hwn yn ddata craff, ond mae'n cynrychioli darlun mewn amser felly mae'n rhaid ei ddwyn i ystyriaeth gan gofio hynny. Ni fydd y rhan fwyaf o'r rheiny wnaeth dderbyn cefnogaeth a chymorth yn manteisio ar lwybr unionlin tuag at ansawdd bywyd gwell neu tuag at waith neu rôl wirfoddoli ac mae cyfran yn debygol o ddioddef siomedigaethau, atgwympau neu anawsterau o'r newydd.

3.6.17. Gofynnwyd i'r holl unigolion oedd yn cymryd rhan i sgorio'u 'cyflwr' ymddangosiadol ar raddfa o 1 i 5 o gymharu â chyfres o gwestiynau (gydag 1 yn isel a 5 yn uchel bob amser) a hynny unwaith cyn derbyn cymorth gan y CCG ac unwaith wedi iddyn nhw gwblhau'r cymorth hwnnw. Roedd rhai o'r cwestiynau'n gyffredinol i'r holl unigolion a rhai yn benodol i gategorïau neilltuol fel caiff ei egluro isod.

3.6.18. Nid oedd gan yr holl gofnodion ymateb ar gychwyn a diwedd y rhaglen felly mae'r dadansoddiad isod ond yn cofnodi'r achosion hynny lle mae ymateb cychwyn a diwedd ar gael i'w cymharu.

3.6.19. Mae yna 25 gyfuniad o ran y newidiadau rhwng y cychwyn a'r diwedd gyda'r gostyngiad negyddol mwyaf sylweddol o 5 (uchel) i 1 (isel) a'r cynnydd mwyaf cadarnhaol o 1 (isel) i 5 (uchel) gyda 23 o gyfnewidiadau posibl rhyngddyn nhw. Er mwyn dadansoddi'r data, roedd angen matrics cymhleth felly mae'r siartiau canlynol yn cynnig dull symlach o fanteisio ar drosolwg.

3.6.20. Mae gan bob bar ddwy elfen:

a. Mae'r bar uchod glas / gwyrdd yn ymwneud â phob un o'r 25 opsiwn ac mae pob arlliw gwyrdd / glas yn cynrychioli un o'r 25 opsiwn: mae'r data sylfaenol ar gael ar wahân ond yn ei hanfod, *roedd y rhan fwyaf o newidiadau yn gynnydd o 1, 2,*


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

*neu'n llai tebygol 3* : *yn gyffredinol, roedd gostyngiadau neu gynyddiadau o 4 (h.y., 5 i 1 neu 1 i 5) yn anarferol*.

b. Mae'r bar isaf yn symlu'r cyflwyniad gyda chod lliw coch / melyngoch / gwyrdd gyda choch yn cofnodi unrhyw ostyngiad, melyngoch yn dangos dim newid o gwbl a gwyrdd yn dangos cynnydd cadarnhaol yn dilyn gadael y CCG.


| Effaith Negyddol | Dim Newid | Newid Cadarnhaol |
| --- | --- | --- |

**Siart 6: Hyder a Chymhelliant a Sgiliau ar gyfer dod o hyd i Waith**

3.6.21. Gofynnwyd y cwestiynau hyn i bawb wnaeth dderbyn cymorth drwy'r CCG. Yn y ddau achos ac yn ymwneud â'r ddau ryw, mae cyfrannau'r ymatebion cadarnhaol yn ddirfawr gyda'r cwestiynau'n canolbwyntio ar y canlynol:

3.6.22. Bu i'r cwestiynau **Hyder a Chymhelliant** amrywio o: Sgôr o 1 (isel): *Does gen i ddim hyder na chymhelliant a dydw i ddim yn meddwl bod unrhyw ffynonellau cymorth i fy helpu i ddod o hyd i waith neu gyfleoedd addysg bellach* i Sgôr o 5 (uchel): *Rydw i'n hyderus ac yn llawn cymhelliant ac yn teimlo fy mod yn barod i ddod o hyd i waith a chyflawni cyfleoedd addysg.*

3.6.23. Bu i'r cwestiynau **Sgiliau ar gyfer Gwaith** amrywio o: Sgôr o 1 (isel) *Dydw i ddim yn meddwl fy mod yn meddu ar unrhyw sgiliau sy'n berthnasol ac a fydd yn fy helpu i ddod o hyd i waith* i Sgôr o 5: *Rydw i'n credu fy mod yn meddu ar yr holl sgiliau perthnasol sydd eu hangen arnaf i ddod o hyd i waith*.






RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

**Siart 7: Chwilio am Waith a Hunanfyfyrio**

3.6.24. Gofynnwyd y cwestiynau hyn i bawb wnaeth dderbyn cymorth gan y CCG gydag ymateb llawer llai cadarnhaol gan ferched a dynion ynghylch chwilio am waith ond bu ymateb cadarnhaol ynghylch hunanfyfyrio. Bu'r cwestiynau'n canolbwyntio ar y canlynol:

3.6.25. Bu i'r cwestiynau **Chwilio am Waith** amrywio o Sgôr o 1 (isel): *Does gen i ddim syniad sut i fynd rhagddi i chwilio am waith neu gyfleoedd* i Sgôr o 5 (uchel) *Rydw i'n hyderus yn fy ngallu i adnabod a cheisio am swyddi addas.*

3.6.26. Roedd y cwestiynau **Hunanfyfyrio** yn amrywio o Sgôr o 1 (isel): *Dydw i ddim yn teimlo'n gadarnhaol am fy nyfodol* i Sgôr o 5 (uchel) *Rydw i'n teimlo'n gadarnhaol am fy nyfodol*.

3.6.27. Mae'r ymateb ynghylch chwilio am waith yn allanolyn mewn perthynas â chwestiynau sgiliau meddal a chymhelliant eraill gan ei fod yn llawer mwy negyddol. Ymysg yr agweddau eglurhaol mae:

a. Ofn y gallai statws chwilio am waith effeithio ar eu budd-daliadau, e.e. am anableddau.


b. Bod hyn yn gyson gyda chanfyddiadau ehangach y gwerthusiad gyda chyfran sylweddol o unigolion llwyddiannus y rhaglen CCG yn dal yn bell o allu ymuno gyda'r farchnad lafur: bu i'r CCG lwyddo i gyrraedd pobl mewn amgylchiadau heriol a'u helpu nhw, ond nid yw hynny'n syndod (gwelwch adran 3.5 yn ogystal).

c. Er gwaethaf cyfleoedd y farchnad lafur, mae'n bosibl nad ydyn nhw'n lleol neu'n addas neu fod lefelau uchel o ddiweithdra lleol neu brofiadau ac amgylchiadau personol wedi arwain at ddisgwyliadau isel. Er enghraifft, un canfyddiad cyson (sy'n adlewyrchu profiad polisi cyflogadwyedd ehangach) oedd, lle nad oedd aelodau teulu'r unigolion oedd yn cymryd rhan erioed wedi gweithio, roedden nhw'n dangos agwedd negyddol pan fo gofyn iddyn nhw fynd ati i ddod o hyd i waith.

d. Os oes rhywun sydd erioed wedi ceisio am swydd neu wedi wynebu anawsterau, gallai fod yr ymateb cychwynnol i beth allai ymddangos yn frawychus yn hytrach nac ymateb negyddol tymor hirach, h.y., ymdeimlad o realiti sydd ar ddod ynghyd â her gan ystyried yr hynny sydd ynghlwm yn aml gyda llwyddo i ddod o hyd i waith.

e. Mae'n debyg nad oedd rhai o'r unigolion oedd yn cymryd rhan wedi dysgu sut i lunio CV, chwarae rôl mewn cyfweliad neu chwilio am swyddi ac ati gan nad oedden nhw'n barod i wneud hynny, ac felly'n teimlo'n llai hyderus.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP




3.6.28. Mae'r siartiau sy'n weddill yn yr adran hon yn canolbwyntio ar ddata sydd wedi'i gasglu ar gyfer is-grwpiau penodol o unigolion sydd â nodweddion neu gyflyrau penodol.


**Siart 8: Lles ar gyfer y rheiny gyda Chyflwr Iechyd sy'n Cyfyngu ar Allu i Weithio a Dyheadau ar gyfer y rheiny sy'n 16 - 24 oed**

3.6.29. Roedd y cwestiynau hyn wedi'u cyfeirio'n benodol at y rheiny oedd yn dioddef o gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio a'r rheiny oedd yn 16-24 oed. Bu i ddynion a merched y categori hwn eill dau gofnodi canlyniadau cymharol debyg a chadarnhaol ar y cyfan am eu profiad ar y rhaglen CCG.

3.6.30. Bu i'r cwestiynau **Lles** amrywio o Sgôr o 1 (isel): *Rydw i'n teimlo bod fy nghyflwr yn cyfyngu'r cyfleoedd gwaith gallaf eu hystyried* i Sgôr o 5 (uchel): *Rydw i'n hyderus na fyddai fy nghyflwr yn cyfyngu fy nghyfleoedd gwaith.*

3.6.31. Bu i'r cwestiynau **Dyhead** amrywio o Sgôr o 1 (isel): *Dydw i ddim yn gwybod beth hoffwn i ei wneud yn y dyfodol a does gen i ddim cynlluniau* i Sgôr o 5 (uchel): *Rydw i wedi ymrwymo'n llwyr ynghylch beth hoffwn i ei wneud yn y dyfodol ac yn teimlo fy mod i bellach yn gallu cyflawni hyn.*


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP





**Siart 9: Rhwystrau ar gyfer Grwpiau Du Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a'r rhai 54+ oed**

3.6.32. Roedd y cwestiynau hyn wedi'u cyfeirio'n benodol at y rheiny dros 54 a'r rheiny o grwpiau Pobl Ddu, Asiaidd ac o gefndir Ethnig Lleiafrifol. Bu i ddynion a merched y categori hwn eill dau gofnodi canlyniadau cymharol debyg a chadarnhaol ar y cyfan am eu profiad ar y rhaglen CCG.

3.6.33. Bu i'r cwestiynau **Rhwystrau ar gyfer y grwpiau Pobl Ddu, Asiaidd ac o gefndiroedd Ethnig Lleiafrifol**: amrywio o Sgôr o 1 (isel): *Rydw i'n teimlo bod fy ngwybodaeth a'm sgiliau ar ei hôl hi ar gyfer y farchnad swyddi presennol* i Sgôr o 5 (uchel) *Rydw i'n cydnabod y byddai'r profiad sydd gen i yn werthfawr mewn unrhyw weithle.*

3.6.34. Bu i'r cwestiynau **Rhwystrau ar gyfer y rheiny 54+:** amrywio o Sgôr 1 (isel): *Rydw i'n teimlo bod fy ngwybodaeth a'm sgiliau ar ei hôl hi ar gyfer y farchnad swyddi presennol* i Sgôr o 5 (uchel) *Rydw i'n cydnabod y byddai'r profiad sydd gen i yn werthfawr mewn unrhyw weithle.*


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP




Bu i weithdy cydraddoldeb CCG diweddar (Gorffennaf 2022) gyda dau fudiad buddiolwyr amlygu pwysigrwydd hybu hyder unigolion sy'n cymryd rhan, eu helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, mynd i'r afael gydag iechyd meddwl, a theilwra i broblemau'r unigolyn a allai ymwneud gyda dyledion, tlodi bwyd, a (perygl o) ddigartrefedd cyn cychwyn ar y llwybr tuag at rôl wirfoddol neu waith. Roedd rhaglenni CCG yn cynnig y math hwn o gymorth fel arfer ac roedd angen iddo fod ar sail sesiynau 'un-i-un' yn aml.


3.6.35. Fel y cofnodwyd yn gynharach, mae'r canlyniadau hyn yn cyd-fynd â phrofiad gwerthuswr o gyfweld ac arsylwi unigolion CCG ac ymgysylltu gyda chyrff buddiolwyr CCG (dros y cyfnod gwerthuso 5+ mlynedd bu inni siarad gyda'r rhan fwyaf o gyrff buddiolwyr CCG drwy gyfweliadau, grwpiau ffocws a gweithdai). Bu inni hefyd geisio dysgu am brofiadau'r unigolion wnaeth gymryd rhan drwy gynnal arolwg ar-lein yn ystod Gwanwyn 2022. Yn anffodus, er gwaethaf ymdrechion hyd eithaf eu gallu gan bawb ynghlwm, roedd yr ymateb yn siomedig felly mae ond modd ystyried y canlyniadau fel rhai mynegol (mae amharodrwydd i gyflawni arolygon a blinder yn brofiad cynyddol cyffredin ynghlwm ag ymchwil).

3.6.36. Bu i'r arolwg dargedu unigolion oedd wedi cwblhau eu cymorth CCG dros gyfnod cyflawn y rhaglen er mwyn casglu rhywfaint o ddata ynghylch i ba raddau cafodd manteision y CCG eu cynnal neu eu datblygu dros amser wedi i'r unigolion gymryd rhan. Mae'r diffyg ail-gysylltu dros amser yn gyffredin ynghlwm â rhaglenni cyflogadwyedd ac fe gafodd hyn ei gadarnhau yn yr adolygiad llenyddiaeth gwerthusiad *'Adolygiad Gwerthuso: Effeithiolrwydd Mentrau Cyflogadwyedd'*. Nid yw'n unigryw i'r CCG yn sicr ac mae'n ymddangos nad oedd unrhyw ddarpariaeth i ariannu gweithgarwch o'r fath yn y fframwaith CGE.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP


3.6.37. Yn anffodus, mae cyfradd ymateb gymedrol yr arolwg yn rhwystro casgliadau cadarn, ond mae Siart 10 a Siart 11 yn dangos ymatebion gan unigolion mewn perthynas â buddion personol yn syth ar ôl cwblhau rhaglen CCG a sampl llai lle bu i unigolion adael cymorth CCG 12 mis neu fwy'n ôl. Mae'r Siartiau yn dangos yr ymatebion ar raddfa 5-pwynt o 1 (ychydig o neu ddim newid) i 5 (newid sylweddol). **Sylwch:** cafodd y cwestiynau eu llunio i fwrw golwg ar newidiadau o ganlyniad i'r CCG felly dydy sgôr isel o 1 ddim o *reidrwydd* yn awgrymu budd personol gwael i'r unigolyn a gallai awgrymu man cychwyn cadarnhaol ar gyfer y cwestiwn hwnnw. Er enghraifft, gallai iechyd cyffredinol unigolyn fod yn dda cyn cymryd rhan yn y CCG heb unrhyw ddisgwyliad y byddai hyn yn gwella o ganlyniad uniongyrchol neu anuniongyrchol o gymorth y CCG.

3.6.38. Fel data dangosol, mae'r ymatebion hyn yn adlewyrchu'n fras ganfyddiadau gwerthuso ehangach – a chadarnhaol.






RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP




3.6.39. Bu'r arolwg hefyd yn gofyn am asesiad cyffredinol gan yr unigolion oedd yn cymryd rhan o fuddion y CCG gyda gwaharddiadau ynghylch ymateb cymedrol, ond mae'r canlyniadau'n gyson â chanfyddiadau ehangach y gwerthusiad.






RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

## Profiad yr Unigolion sy'n Cymryd Rhan

3.6.40. Bu i'r arolwg unigolion oedd yn cymryd rhan 2022 sydd wedi'i ddisgrifio uchod hefyd ofyn i'r unigolion sgorio'u profiad a'u cymorth. Mae'r gyfradd ymateb gymedrol yn golygu bod unrhyw ddata yn ddangosol ar y gorau ond mae'r canlyniadau'n cefnogi profiad ehangach sydd wedi'i gasglu o'r gwerthusiad bod nifer o'r unigolion oedd yn cymryd rhan yn gadarnhaol ac yn frwdfrydig fel arfer.


**Siart 13: Ansawdd y Cymorth: Sgôr gan yr Unigolion**

*(Ffynhonnell Arolwg unigolion oedd yn cymryd rhan yn CCG 2022 : o 76 o ymatebion gydag 1 heb ateb – Yn Nodi Cyfradd Ymateb Gymedrol)*




**Siart 14: A oedd Cymorth y CCG yn Hawdd manteisio arno?**

*(Ffynhonnell: Arolwg Unigolion sy'n cymryd rhan yn y CCG 2022 gan 75 o Ymatebion)*



# Adran 4. Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad

## 4.1. Cyd-destun a Chymhwysedd i Bolisïau a Rhaglenni Cyflogadwyedd

4.1.1. Mae methodoleg asesu Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) yn seiliedig ar economeg les, cynaladwyedd a chyfrifo ariannol i gynnig dull strwythuredig o ddeall effeithiau ar lefel cyfundrefnol, polisi a rhaglen. Cyn bwrw iddi gydag asesiad Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad, bu i'r gwerthusiad hwn fwrw golwg ar gymhwysedd y fethodoleg ynghlwm â mentrau cyflogadwyedd, bwrw golwg ar enghreifftiau o sut mae wedi'i roi ar waith ac ymchwilio'r ffynonellau ymchwil cadarn sydd ar gael i lywio'r gwerthoedd angenrheidiol i'w rhoi ar waith gydag asesiad o'r CCG. Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad:

a. Mae'n asesiad effaith sydd wedi'i ddatblygu o ddulliau sy'n seiliedig ar gyfrifo er mwyn mesur gwerth economaidd ymyriadau.

b. Ei nod ydy cyflawni 'cysyniad ehangach o werth' er mwyn ymgorffori costau a buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

c. Mae'n adnabod ac yn mesur effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ymyriad polisi ac yn rhoi gwerthoedd ariannol ar waith i gynrychioli'r effeithiau hyn.

d. Y dull mwyaf cyffredin ym Mhrydain – ac sydd wedi'i fabwysiadu ar gyfer y gwerthusiad hwn – ydy'r dull sy'n Arbennig i Randdeiliaid ac sy'n canolbwyntio ar fuddion i randdeiliaid gyda gwerthoedd wedi'u neilltuo ar gyfer mewnbynnau ac allbynnau wedi'u cyflwyno fel cymhareb, e.e., £1 wedi'i fuddsoddi o gymharu â'r £x sydd wedi'i gynhyrchu.

4.1.2. Bu i Groundwork gadarnhau bod Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad yn berthnasol i fentrau cyflogadwyedd, llesiant a lles, bod asesiadau sydd ar gael yn gyhoeddus fel arfer yn canolbwyntio ar fentrau ar raddfa lai ac sydd wedi'u targedu'n benodol, a hefyd bod modd i asesiadau gael eu rhwystro gan agweddau megis diffyg data digonol a meintiol ynghylch deilliannau gan gynnwys yr angen am (a'r diffyg arferol o) ddata hydredol i ddangos beth ddigwyddodd i bobl ar ôl iddyn nhw dderbyn cymorth gan raglenni.

4.1.3. Bu'r ymchwil hwn hefyd yn ategu canfyddiadau'r gwerthusiad CCG o ran bod sgiliau meddal a gwell ansawdd bywyd yn agweddau allweddol er mwyn lleihau tlodi a helpu pobl i ddod o hyd i waith.

4.1.4. Fe gadarnhaodd hefyd bod data wedi'i ymchwilio ar gael i ychwanegu gwerthoedd i rai o effeithiau craidd y CCG, gan gynnwys i agweddau megis sgiliau meddal. Roedd asesu gwerthoedd o'r fath o'r 'cychwyn cyntaf' y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad CCG, felly roedd yn bwysig bod y data ar gael. Y ffynonellau sydd wedi'u hadnabod ydy'r rhai mae asesiadau Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad perthnasol eraill Prydain yn eu defnyddio fel arfer.



RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

4.1.5. Mae Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad yn fethodoleg gymharol newydd sy'n mabwysiadu ymagwedd systematig tuag at y canlynol:

a. Sefydlu cwmpas ac adnabod rhanddeiliaid allweddol.

b. Mapio deilliannau, cynnig tystiolaeth ohonyn nhw a phennu effeithiau.

c. Rhoi gwerthoedd ar waith er mwyn cyfrifo Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad gan ddefnyddio gwiriadau, gweddillion a dadansoddiad sensitifrwydd.

4.1.6. Mae'r gwiriadau a'r gweddillion yn cynnwys asesiad o'r canlynol:

a. Di-fudd: y tebygolrwydd y gallai'r deilliant fod wedi'i gyflawni heb gynnal yr ymyriad.

b. Priodoliad: unrhyw gyfran o'r deilliant sydd wedi'i gyflawni gan fudiadau neu unigolion eraill na ellir ei hawlio'n deg gan y dadansoddiad Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad.

c. Dadleoliad: bu i gyfran o'r deilliant ddadleoli deilliannau amgen.

d. Gostyngiad: mae'n rhaid i ddeilliannau sydd wedi'u cynllunio am dros flwyddyn ddwyn i ystyriaeth unrhyw raddfa gostwng h.y., y raddfa lle byddai gwerth cychwynnol yn lleihau dros amser.

4.1.7. **Mae heriau o gwmpas yn nodweddiadol**

a. Mae'n anodd rhoi gwerth ar rai deilliannau: yn yr achos hwn rydym wedi canolbwyntio ar ddeilliannau craidd y CCG, lle mae data wedi'i ymchwilio a'i ddilysu – a gwerthoedd priodoladwy - ar gael. Mae hyn yn debygol o danddatgan cyfraniad y CCG ond mae'n fwy cadarn: er enghraifft, mae ambell i brosiect CCG wedi cefnogi pobl sydd wedi bod ynghlwm â'r system cyfiawnder troseddol. Os ydy'r unigolion yn llwyddo i beidio â bod yn rhan o'r system eto, mae'r gwerth i'r unigolyn a'r gymdeithas yn sylweddol. Fodd bynnag, ni allwn ddilysu faint gallai'r CCG fod wedi helpu deilliannau cadarnhaol o'r fath, lle'r ydym yn ymwybodol o faint o bobl sydd wedi llwyddo i ennill cymhwyster perthnasol, dod o hyd i waith neu ddod o hyd i rôl wirfoddol ac ati., mae cymryd rhan ar ôl cwblhau'r rhaglen CCG a'r asesiad yn canolbwyntio ar y rhain.

b. Yr angen am ddata o safon: gallai cyfrifo'r gostyngiad mewn gwerth o ran yr ymyriadau dros amser fod yn heriol yn fethodolegol a gallai asesu'r gwrthffeithiol fod yr un mor anodd yn ogystal.

4.1.8. Mae nifer o asesiadau Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad ynghylch mentrau cyflogadwyedd yn canolbwyntio ar y deilliannau cyflogadwyedd 'caled' sydd wedi'u cyflawni, megis dod o hyd i a chadw gwaith ond maen nhw hefyd yn cydnabod deilliannau mwy meddal megis hwb mewn hyder, gwell sgiliau rhyngbersonol neu sgiliau cyffredinol


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

fel defnyddio TG. Mae hyn hefyd yn arwain fel arfer at fwy o annibyniaeth, perthnasau cryfach gyda theulu, ffrindiau a'r gymuned, gwirfoddoli a chyflawni addysg a/neu hyfforddiant pellach.

4.1.9. **Gwerthuso Deilliannau:** er gwaethaf peth wrthrychedd cynhenid, mae yna agweddau cyffredin rhwng yr asesiadau rhaglenni cyflogadwyedd Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad sydd wedi'u harchwilio fel cyd-destun ar gyfer y gwerthusiad hwn o ran lle caiff gwerth ariannol ei gynhyrchu. Yn nodweddiadol, yr unigolion sy'n cymryd rhan a'r wladwriaeth sy'n ennill y rhan fwyaf o werth ariannol gydag eraill yn ennill gwerth cymharol is ond fe allai fod yn sylweddol o hyd.

4.1.10. Daeth canfyddiad penodol i'r golwg fod ymyriadau cyflogadwyedd sy'n cydweithio gyda chleientiaid mewn grwpiau bregus (digartref, cyn-droseddwyr, y rheiny sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl, pobl anabl, y rheiny sy'n dioddef ynghylch camddefnyddio sylweddau ac ati.) *yn dueddol o gynhyrchu gwerth llawer uwch ar gyfartaledd o ran yr arbedion i'r Wladwriaeth* h.y., mae'r 'di-fudd' o ran gweithio gyda grwpiau bregus neu sy'n anoddach eu cyrraedd yn is.

## 4.2. Gwaith Paratoadol Asesiad Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad y CCG

4.2.1. Mae'r sail ar gyfer yr asesiad hwn fel a ganlyn. Mae'r asesiad yn:

a. Defnyddio data wedi'i archwilio ar gyfer deilliannau uniongyrchol y CCG o 23096 o gofnodion unigolion ar gyfer y rheiny wnaeth gwblhau ymgysylltiad CCG (neu a wnaeth adael yn gynnar) ledled oes y CCG hyd at Fawrth yr 31ain 2022 (gwelwch Siart 15 isod).

b. Mae'r dyddiad terfyn hwn felly'n eithrio unigolion sy'n parhau i dderbyn cefnogaeth drwy'r prosiectau CCG ynghyd ag unrhyw unigolion newydd ar neu ar ôl y dyddiad hwn. Fodd bynnag mae'r niferoedd ychwanegol hyn yn gymharol fach o gymharu â'r 23096.

c. Caiff prisiadau deilliannau eu hasesu yn erbyn cyfanswm costau'r CCG hyd at Fawrth yr 31ain 2022 gyda chostau dyfarnu grantiau'r rhaglen yn £35,800,978 hyd at Fawrth yr 31ain 2022 (gallai hyn gynnwys elfen gymharol fach am unigolion sy'n parhau i gymryd rhan yn hytrach na chwblhau eu cymorth CCG erbyn Mawrth yr 31ain 2022) ac felly bu'r costau cyffredinol hyd at Fawrth yr 31ain 2022 yn £9,221,340

d. Caiff cyfanswm costau'r CCG felly eu talgrynnu i £45,000,000 (sylwch nad ydy costau Llywodraeth Cymru am arolygiaeth ar gael felly dydyn nhw heb eu cynnwys).

e. Nid yw mewnbynnau ychwanegol a chyllid cyfatebol gan fuddiolwyr y CCG wedi'u cynnwys gan y gellid dadlau bod y rhain yn dynodi trosoledd rhaglen.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

4.2.2. **Sylwch:** bu i arolwg unigolion CCG 2022 ofyn cwestiynau hydredol ynghylch beth ddigwyddodd ar ôl 12 mis neu fwy ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen. Fodd bynnag, bu'r sampl yn annigonol i allu dod i gasgliadau dibynadwy felly yn lle hynny rydym wedi pennu rhagdybiaethau ar gyfer y cyfrifiad Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad isod. Dyma agweddau allweddol y cyfrifiad Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad fel a ganlyn:

a. Mae gwerthoedd yn gysylltiedig â deilliannau cadarnhaol hysbys ac sydd wedi'u harchwilio'n unig, gan y 23096 o unigolion wnaeth gymryd rhan yn y CCG ac a wnaeth gwblhau'r cymorth CCG (neu a wnaeth adael yn gynnar heb ganlyniad) ar neu cyn Mawrth yr 31ain 2022. Caiff cyfanswm cost y rhaglen CCG hyd at Fawrth yr 31ain 2022 ei ychwanegu at y gwerthoedd hyn, er mwyn cyfrifo'r gymhareb derfynol h.y., mae hyn yn dwyn i ystyriaeth nad oedd elfen o gyfanswm y buddsoddiad yn cynhyrchu deilliant cadarnhaol mesuradwy ac felly byddai'n lleihau'r gymhareb derfynol o ystyried na wnaeth y rhaglen (nid yw'n syndod) gyflawni llwyddiant o 100% o ran canlyniad cadarnhaol ar gyfer yr holl unigolion wnaeth gymryd rhan.

b. Ni chaiff gostyngiadau pellach eu hystyried ar gyfer unigolion nad ydyn nhw o bosibl wedi cyflawni budd wedi'i gofnodi o'r CCG a hynny ar sail bod y rhesymau dros hyn yn amrywiol. Hefyd, mae'n bosibl nad ydy hyn yn ganlyniad negyddol os ydy rhywun yn ailgyfeirio eu nodau personol neu'n ail-ystyried eu dyfodol.


c. Mae sgiliau meddal yn canolbwyntio ar hyder ac yn cael eu gwerthuso mewn pedair cynyddran (gwelwch Adran 3.6.10 ymlaen). Caiff gwerth llawn (100%) ei gynnig i'r rheiny sy'n dangos cynnydd llawn o 4 cynyddran o 1 i 5 gyda 25% o'r cyfanswm gwerth ynghlwm â phob cynyddran ymgodol sengl: y ffigyrau gaiff eu defnyddio ydy £13,080 (100% neu 4 cynyddran ar gyfer oedolion) a £9283 (100% neu 4 cynyddran ar gyfer pobl ifanc 16 – 24 oed). Mae tablau 5 a 6 isod yn cynnig mwy o fanylion. Mae tabl 7 yn ymdrîn â'r meintiau a'r gwerthoedd llawn a ddefnyddiwyd ynghyd â ffynonellau.

d. Caiff ail werthusiad ei weithredu gyda buddion sydd wedi'u tybio y bydd ar waith am 2 flynedd yn absenoldeb data hydredol digonol neu ddibynadwy. Caiff hyn ei gyfrifo ar sail gostyngiad o 60% mewn gwerth ar gyfer gwerthoedd union ar ôl y CCG o ddeilliannau sydd wedi'u harchwilio ac mae hyn yn rhagdybiaeth gymharol lym (yn nodweddiadol, mae'n bosib caiff 40% ei ychwanegu at raglenni cyflogadwyedd). Mae hyn yn amcan pwyllog o ystyried bod unigolion CCG yn – neu wedi – wynebu amgylchiadau a bywydau heriol, felly gellid disgwyl cyfradd uwch o bobl yn gadael y rhaglen.

e. Ar ôl addasu ar gyfer y gostyngiad o 60% sydd wedi'i ddisgrifio uchod, caiff y 40% o werth sy'n weddill ei ostwng 3% y flwyddyn am 2 flynedd (h.y., ei luosi gyda 0.9426). Mae hyn yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys EM na ddylid gweithredu cyfradd gostyngiad canran uwch i gyfrifiadau cost a budd lle mae'r rheiny'n ymwneud â throsglwyddiadau cyfoeth sylweddol o'r dyfodol i'r presennol (rhywbeth a amlygwyd yn yr Adroddiad Stern 2006 ar effeithiau economaidd newid mewn hinsawdd) neu'n fwy rhyddieithol 'un pwyth mewn pryd sy'n arbed wyth'.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

f. Yn ychwanegol i ddata CGGC, caiff dwy ffynhonnell allweddol eu defnyddio i ychwanegu gwerthoedd: sef yr Ymddiriedolaeth Elusennol Cymdeithasau Tai (HACT) ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr (PHE) / Quality Adjusted Life Year (QALY)



## Tabl 5: Cyfrifiad Sgiliau Meddal: Pobl Ifanc

*(Ffynhonnell: 23096 o Unigolion CCG gyda 7163 yn 16 – 24 Oed a 15927 yn 25+ Oed a 6 Cofnod Aneglur)*

| Sgôr | Nifer y Cofnodion sydd ar gael sy'n Dangos Canlyniad Cadarnhaol | % y Cofnodion sydd ar gael sy'n Dangos Canlyniad Cadarnhaol | Wedi Addasu ar gyfer Cyfanswm Poblogaeth CCG. (h.y.: 7163) ar sail Gyfrannol Uniongyrchol | Gwerth wrth Adael CCG (+1 + = 25% o'r Gwerth wedi'i Asesu / +4 = 100% o'r Gwerth wedi'i Asesu) |
|---|---|---|---|---|
| **+1** | 2166 | 40% | 2865 | £6.7m |
| **+2** | 1303 | 24% | 1719 | £8.0m |
| **+3** | 476 | 9% | 644 | £4.5m |
| **+4** | 119 | 2% | 143 | £1.3m |
| **Cyfanswm yn Dangos Canlyniad Cadarnhaol** | 4064 | 75% | 5371 | £20.5m |
| **Dim Canlyniad Cadarnhaol** | 1297 | 25% | 1792 | - |
| **Cyfanswm Poblogaeth CCG** | **Mae'r Cofnodion sydd Ar Gael ar gyfer 5361 o Bobl Ifanc sy'n Cymryd Rhan yn CCG : Cyafnswm y Nifer o Unigolion CCG sy'n 16 – 24 Oed = 7163** | | | **100% = £9283 ar gyfer Pobl Ifanc Ffynhonnell HACT** |

## Tabl 6: Cyfrifiad Sgiliau Meddal: Pobl 25+ Oed

*(Ffynhonnell: 23096 o Unigolion CCG Gyda 15927 sy'n25+ Oed a 7163 yn 16 – 24 Oed + a 6 Cofnod yn Aneglur)*

| Sgôr | Nifer y Cofnodion sydd ar gael sy'n Dangos Canlyniad Cadarnhaol | % o Gofnodion sydd ar gael sy'n Dangos Canlyniad Cadarnhaol (diystyru dim newid / canlyniad negyddol) | Wedi Addasu ar gyfer Cyfanswm Poblogaeth CCG (15927) or Sail Gyfrannol Uniongyrchol. | Gwerth wrth Adael CCG (+1 + = 25% o'r Gwerth wedi'i Asesu / +4 = 100% o'r Gwerth wedi'i Asesu) |
|---|---|---|---|---|
| **+1** | 4486 | 43% | 6848 | £22.4m |
| **+2** | 2158 | 21% | 3344 | £21.9m |
| **+3** | 631 | 6% | 955 | £9.4m |
| **+4** | 117 | 1% | 160 | £2.1m |
| **Cyfanswm yn Dangos Canlyniad Cadarnhaol** | 7392 | 71% | 11,307 | £55.8m |
| **Dim Canlyniad Cadarnhaol** | 2976 | 29% | 4620 | - |
| **Cyfanswm Poblogaeth CCG** | **Mae'r Cofnodion sydd Ar Gael ar gyfer 10368 o Bobl 25+ Oed sy'n Cymryd rhan yn CCG: cyfanswm y nifer o unigolion 25+ oed CCG = 15927** | | | **100% = £13080 ar gyfer pobl 25+ Oed Ffynhonnell HACT** |



RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

# Tabl 7: Gwerthoedd Cydran Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad Cronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC

*(Sylwch mae'r cyfrifiadau wedi'u talgrynnu er mwyn osgoi cywirdeb annilys)*

| Categori Effaith Cyffredinol | Effaith CCG Penodol i'w Werthuso | Gwerth Uchaf Posibl | Gwerth wrth Adael y CCG: Ymgymryd â 12 Mis o Fudd | Gostwng 60% a + Gostyngiad o 3% y flwyddyn Gwerth Presennol 24 Mis yn Ddiweddarach | Ffynhonnell / Nodiadau – Mae'r Holl Gyfrifiadau'n Seiliedig ar Ddata wedi'i Archwilio gan CGGC ar gyfer 23096 o Gofnodion Unigolion |
|---|---|---|---|---|---|
| **Personol / Ffordd o fyw** | Hwb mewn Hyder | £13,080 (Oedolion) / £9,283 (Pobl Ifanc) | £20.5m / £55.8m = **£76.3m** | **£28.8m** | Data Sgiliau Meddwl CGGC / HACT. Addasu ar gyfer Asesiadau Sgiliau Meddal CGGC e.e., dim newid = 0 / newid o 1 pwynt = 25%/ newid o 4 pwynt = 100% |
| **Barod i Weithio / Sgiliau / Hyfforddiant** | Sgiliau / Cymwysterau wedi'u hennill yn ystod y CCG | £1,124 | 4,478 x £1,124 = **£5.0m** | **£1.9m** | HACT – mesur trwy ddirprwy – mae'r ffigwr yn cynrychioli ystod eang o gymwysterau posibl |
| | Sgiliau Barod i Weithio / Hyfforddiant Cyffredinol Cysylltiedig â Gwaith | £1,567 | 8,562 x £1,567 = **£13.4m** | **£5.1m** | HACT |
| | Cyflawni ar ôl y CCG Addysg / Hyfforddiant | £2,353 | 1,092 x £2,353 = **£2.6m** | **£1m** | HACT trwy ddirprwy gan fod y pris yn cyfeirio at brentisiaeth – sylwch mae gwerth Cynlluniau Hyfforddiant Gwaith y Llywodraeth yn £9,447 |
| **Yn Gweithio** | Lleoliad Gwaith CCG | £1,773 | 858 x £1,773 = **£1.5m** | **£0.6m** | HACT yn defnyddio profiad gwirfoddoli fel dirprwy : os yw'n llwyddiannus, bydd hybu hyder yn ychwanegu at y gwerth – gwelwch uchod. |



RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

| Categori Effaith Cyffredinol | Effaith CCG Penodol i'w Werthuso | Gwerth Uchaf Posibl | Gwerth wrth Adael y CCG: Ymgymryd â 12 Mis o Fudd | Gostwng 60% a + Gostyngiad o 3% y flwyddyn Gwerth Presennol 24 Mis yn Ddiweddarach | Ffynhonnell / Nodiadau – Mae'r Holl Gyfrifiadau'n Seiliedig ar Ddata wedi'i Archwilio gan CGGC ar gyfer 23096 o Gofnodion Unigolion |
|---|---|---|---|---|---|
| | Wedi'u Cyflogi'n Llawn Amser (Rhagdybio 1/3aean o'r holl unigolion) | £14,433 (HACT) / £3,500 (QALY) | 1282 x £3,500 = **£4.5m** | **£1.7m** | PHE / QALY (dim /HACT) rhagdybio gwaith cynaliadwy + ffigwr net y buddion |
| | Hunan-gyflogedig (rhagdybio 1/3aean o'r holl unigolion) | £11,588 (HACT) / £3,500 (QALY) | 1282 x £3,500 = **£4.5m** | **£1.7m** | PHE / QALY (dim /HACT) rhagdybio gwaith cynaliadwy + ffigwr net y buddion |
| | Wedi'u Cyflogi'n Rhan Amser (rhagdybio 1/3aean o'r holl unigolion) | £1,229 | 1282 x £1,229 = **£1,6m** | **£0.6m** | HACT yn rhagdybio ychydig iawn o arbedion o ran Buddion |
| **Gwirfoddoli / Ymgysylltu Cymunedol** | Profiad Gwirfoddoli CCG | £1,773 | 4,287 x £1,773 = **£7.6m** | **£2.9m** | HACT – gwerth agosaf yn mynychu grwpiau gwirfoddol / grwpiau lleol eraill |
| | Rôl Wirfoddoli Rheolaidd CCG | £3,249 | Data annigonol | Data annigonol | HACT: mae'n cyfeirio'n benodol at wirfoddoli rheolaidd |
| **Cost Gostyngol i'r Wladwriaeth** | Sector Cyhoeddus / Arbedion Budd / Arbedion Iechyd / Gwasanaethau Cyhoeddus Eraill (Wedi'u gwerthuso ar gyfer y rheiny sydd wedi'u cyflogi yn llawn amser a'r rheiny sy'n hunan-gyflogedig yn unig) | £19,913 (HACT) / £12,000 (QALY) | 2564 x £12,000 = **£30m** | **£11.1m** | Dadansoddiad PHE QALY yn dangos cyfanswm yr arbedion cost i fuddion / llywodraeth leol / iechyd = £12,000 yn rhagdybio gwaith cynaliadwy.<br><br>Dadansoddiad Cyffredinol HACT yn seiliedig ar bobl iach – mae data ar gael am gyflogaeth ond nid am iechyd. |


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

## 4.3. Asesiad Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad

a. **Gwerth Sylfaenol yr Effeithiau** (gwelwch Dabl 7 uchod): **£202.4m**

b. **Gostwng 25% ar gyfer Di-fudd a Phriodoliad (5%) / Dadleoliad (20%) = £151.8m**

c. **Cymhareb o ran y Costau Cyffredinol £151.8 / £45.0m = Cymhareb o 3.37 h.y., ar gyfer pob £1 gafodd ei wario, bu i'r CCG roi £3.37 o fudd meintiol.**

d. **Rhoi dadansoddiad sensitifrwydd o + neu - 20% ac mae'r gymhareb yn amrywio o 2.7 i 4.1**

4.3.1. **Mae cymhareb o £1 o fuddsoddiad i £3.37 o fudd** yn cynrychioli canlyniad pwyllog, amddiffynadwy a chadarnhaol sy'n ychwanegu gwerthoedd at yr hyn y mae'r data yn ei amlygu. Mae'n debyg fod gwir werth y CCG yn uwch oherwydd dydyn ni ddim yn meddu ar y data i feintioli agweddau megis gwirfoddoli cynaliadwy ar ôl y rhaglen CCG, buddion i deuluoedd, i gymunedau neu'r buddion tymor hirach i'r unigolion sy'n cymryd rhan.

4.3.2. Mae'r asesiad hwn hefyd yn cyd-fynd yn briodol gydag ystod nifer o asesiadau eraill sydd wedi'u harchwilio drwy waith sylfaen gwerthuso. Roedd y rhan fwyaf o'r enghreifftiau yn llawer llai ac yn aml yn brosiectau mwy lleol oedd yn cydweithio gyda grwpiau cleientiaid llai neu fwy penodol tebyg (gyda gwell gyfle o ail-ymweld ag effeithiau a'r pellter a deithiwyd dros amser).

4.3.3. **Nodiadau Cyfrifo:**

a. **Di-fudd a Phriodoliad:** h.y., a fyddai'r unigolion wedi llwyddo i wella'u sefyllfa beth bynnag heb yr ymyriad ac oes yna gyswllt achosol rhwng cymorth a deilliannau. Mae'r sylfaen ymchwil (gan gynnwys gwaith RCS) yn awgrymu bod gan y rhaglenni sy'n cydweithio gyda'r grwpiau sy'n wynebu'r mwyaf o heriau lai o 'gostau di-fudd' na rhaglenni prif ffrwd. Yn ôl eu diffiniad, mae'r grwpiau hyn y tu hwnt i'r brif ffrwd ac maen nhw wedi'u hymylu'n aml, felly caiff gostyngiad cymharol fach o 5% ei weithredu. Gallwn gadarnhau bod y CCG wedi cyrraedd grwpiau ac unigolion wedi'u targedu ac mae'r dadansoddiad o ddata deilliannau'r CCG a sgiliau meddal yn cynnig arwydd pendant o gyswllt achosol uniongyrchol i'r CCG o ran buddion. Fe gaiff hyn ei gadarnhau gan waith maes y gwerthusiad.

b. Mae **Dadleoli** yn heriol i'w asesu: bu i'r gwerthusiad ganfod tystiolaeth ansoddol o waith rhyng-sefydliadol i osgoi dyblygu, ond hefyd rhywfaint o dystiolaeth o waith maes a gwaith ar y polisi a sefyllfa'r rhaglen (gwelwch Adran 5) bod rhywfaint o ddadleoli. Bu i'r fframwaith CGE osod amcanion penodol a oedd yn berthnasol i'r holl raglenni oedd wedi'u hariannu. Gan



RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

hynny, roedd nifer sylweddol o raglenni cyflogadwyedd, llesiant a lles yng Nghymru gydag amcanion tebyg i'r CCG a oedd yn gweithredu ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Ar sail hyn, rydym wedi ychwanegu ffigwr o 20% am ddadleoli ac rydym yn credu ei fod yn gymharol gosbol ond mae wedi'i gyflwyno er mwyn bod yn ofalus a phwyllog.

c. Asesiad **Sensitifrwydd**: bu i'r gwerthusiad ychwanegu cyfyngiad hyder naill ffordd neu'r llall o 20%. Yn absenoldeb data amgen gwell: mae 20% yn gyfyngiad hyder achos busnes arferol.

d. **Chwyddiant**: mae'r holl ddata gwerth ariannol yn deillio o'r cyfnod 2016 – 2022 h.y., cyfateb i hyd y CCG. Mae'r asesiad hwn yn ymwneud â data 5+ mlynedd y CCG felly mae addasu ar gyfer chwyddiant yn ystod unrhyw flwyddyn benodol yn afrealistig. Hefyd, roedd chwyddiant yn gymharol isel yn ystod y cyfnod dan sylw, felly mae unrhyw effaith yn gymharol ddinod ac mae'r asesiad sensitifrwydd yn amsugno mwy nag unrhyw amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn.

# Adran 5: Cyd-destun Polisi a'r Rhaglenni ar gyfer y CCG

## 5.1. Sefyllfa'r Polisi a'r Rhaglen

5.1.1. Bu briff y gwerthusiad yn ymwneud ag archwilio sefyllfa'r polisi a'r rhaglenni roedd y CCG ynghlwm â nhw ers y cychwyn a nodi i ba raddau yr oedd gan raglenni eraill amcanion tebyg yn ôl pob golwg.

5.1.2. Yr hyn sy'n dilyn yw trosolwg yn hytrach na dadansoddiad hollgynhwysol. Bu'r dadansoddid yn ymdrîn â rhaglenni ag oes gweithredu gyfyngedig neu a oedd wedi dod i ben ers 2015, ond a oedd yn weithredol am o leiaf rhan o'r amser yr oedd y CCG ar waith. Nid ydym wedi gwerthuso'r rhaglenni eraill gan ei fod y tu hwnt i gwmpas ein gwaith ac felly *nid ydym yn beirniadu unrhyw raglen arall*, fodd bynnag:

a. Bu i CCG weithredu o fewn sefyllfa polisi cymhleth o fentrau a rhaglenni a oedd yn gweithredu ar amryw lefel o rai lleol dros ben hyd at rai rhanbarthol a'r rheiny oedd yn berthnasol i'r rhan fwyaf o Gymru neu Gymru gyfan.

b. Roedd rhaglenni'n gorgyffwrdd o ran nodau penodol a oedd yn cyfateb yn eang i nodau'r CCG. Fel y soniwyd yn flaenorol, bu i'r gwerthusiad fwrw golwg ar enghreifftiau o gydweithio effeithiol rhwng mudiadau a rhaglenni, a rhai achosion lle'r oedd rhaglenni'n ymddangos fel eu bod yn cydweithio'n llai cytûn neu eu bod yn cystadlu gyda'i gilydd. Mae dyfyniadau gan fuddiolwyr y CCG yn crybwyll y problemau sy'n codi:


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

*“Mae pob atgyfeiriad yn mynd drwy un person yn yr Awdurdod Lleol ac maen nhw hefyd yn rhedeg rhaglen felly mae o fudd iddyn nhw os nad ydyn nhw’n anfon pobl yn eu blaen”.*

*“Bu inni geisio ymgysylltu ond doedden nhw ddim am ymgysylltu gyda ni, maen nhw’n ein gweld ni fel cystadleuaeth uniongyrchol”.*

c. Dydy amryw raglenni sy’n gweithredu gydag amcanion gweddol debyg ac yn yr un diriogaeth *o reidrwydd* yn beth drwg ar yr amod bod ffiniau gweithredol yn amlwg a bod cydweithio buddiol yn cael ei gyflawni fel sy’n briodol. Mae amcanion cyflogadwyedd, llesiant a lles yn mynd i’r afael â set amrywiol o grwpiau ac unigolion mewn amgylchiadau, ardaloedd ac amodau economaidd-gymdeithasol sydd yr un mor amrywiol. Felly, gallai amryw ffynonellau cymorth fod yn fuddiol os, er enghraifft, ydy’r rhaglenni hyn yn meithrin amrywiaeth a sgiliau, arbenigedd a gwybodaeth gyflenwol.

5.1.3. Mae Atodiad 1 yn dangos y rhaglenni a’r mentrau hynny sydd â’r nodau a’r amcanion sy’n fwyaf tebyg i rai CCG: mae’n ddarluniadol ac nid yn ddiffiniol. Mae hyn yn defnyddio trosolwg o 119 o raglenni a chynlluniau CGE rhwng 2014 a 2020 a oedd yn gweithredu’n fras yn y maes gwaith hwn. Ers Gorffennaf 2022, roedd 54 o brosiectau wedi’u hariannu gan UE ar waith gyda dim ond ychydig os o gwbl yn parhau y tu hwnt i 2023 (Llywodraeth Cymru, Mai’r 20fed[5])

5.1.4. Yn ymarferol, ychydig iawn o brosiectau oedd ar gael ledled Cymru fel yr oedd y CCG ac roedd hyd yn oed llai yn adnabod y ‘trydydd sector’ yn benodol fel partner: ymysg y rheiny oedd ‘Ehangu Gorwelion Môn’ (Cymunedau Môn Ymlaen. Ynys Môn) a Phrosiect ‘JobSense yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd’ (fodd bynnag dydy hyn ddim yn golygu bod y trydydd sector wedi’i eithrio o raglenni eraill).

## 5.2. Sefyllfa Cychwynnol Polisïau a Rhaglenni

5.2.1. Mae’r sefyllfa ar ôl y CGE yn edrych yn symlach er ei fod yn esblygu ond mae llai o gyllid a gorbryder ynghylch i ba raddau bydd y trydydd sector ynghlwm (ac wedi’i ariannu) i helpu cefnogi’r rheiny sy’n wynebu’r mwyaf o heriau yn y ffordd maen nhw wedi ychwanegu gwerth trwy’r CCG.

5.2.2. Bu i’r CCG ategu rhaglenni cynharach a oedd wedi defnyddio cyllid CGE i ymwneud â’r sector gwirfoddol yng Nghymru ynghlwm â chyflogadwyedd ac amcanion perthnasol. Y canlyniad oedd parhad dros gyfnod sylweddol o flynyddoedd a chynnydd sylweddol yng nghapasiti y sector gwirfoddol ac arbenigedd yn y maes. Roedd rhywfaint o hyn yn ymwneud â chysylltiadau agos gyda – a gwybodaeth arbenigol o – grwpiau ymylol neu’r rheiny sy’n wynebu heriau penodol (megis goroeswyr trais yn y cartref, pobl gydag anawsterau dysgu ac ati.).

[5] https://gov.wales/eu-structural-funds-programme-2014-2020-approved-projects (ACGEssed 12th July 2022)



RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

5.2.3. Mae cam olaf y gwerthusiad CCG yn awgrymu, wrth i'r rhaglen ddirwyn i ben heb unrhyw olynydd amlwg a chyfyngiadau ehangach o ran adnoddau, bod y gallu a'r arbenigedd hwnnw'n lleihau'n sylweddol (gan gynnwys yn CGGC). Mae hyn yn peri pryder arbennig o ran sut bydd modd cynnig cymorth yn y dyfodol i'r rheiny sy'n wynebu'r amgylchiadau mwyaf heriol. Yn gryno, mae staff medrus yn cael eu diswyddo ac mae mudiadau gwirfoddol sydd wedi bod yn ymgysylltu ers tro yn lleihau.

5.2.4. Roedd gan y CCG ddwy nodwedd arbennig sy'n berthnasol i'w rôl yn ystod ei gyfnod gweithredu ac wrth edrych tua'r dyfodol:

a. Mae wedi trefnu bod cyrff buddiolwyr yn meddu ar arbenigedd mewn ymwneud gydag a helpu'r rheiny mewn amgylchiadau heriol dros ben y mae rhaglenni prif ffrwd yn ei chael hi'n anodd eu cyrraedd, yn ogystal ag ymgysylltu gyda mudiadau i gynnig cymorth yn lleol, rhanbarthol a/neu'n genedlaethol ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion y CCG. Yn gryno, roedd yn cynnwys ystod eang iawn o fudiadau dilys gyda'r gallu i helpu ar bob lefel.

b. Bu iddo ariannu cymorth ar gyfer unigolion a grwpiau wedi'u targedu lle bynnag yr oedden nhw, o fewn neu y tu hwnt i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae pwyslais polisïau a rhaglenni ar ardaloedd o amddifadedd uchel yn bwysig ac yn ddealladwy, ond gan fod y CCG wedi llwyddo i gyrraedd mwy o bobl, roedd modd cynnig cymorth i bobl a allai fod wedi'u hepgor lle bynnag oedden nhw'n byw. Er enghraifft, mae dadansoddiad arferol o anfantais wledig yn tanlinellu ei fod ar wasgar yn ddaearyddol a gellir dadlau ei fod yn llai gweladwy ond heb fod yn llai heriol ar gyfer yr unigolion sydd ynghlwm. Bu'r CCG ar waith yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ogystal â thu hwnt i'r ardaloedd hynny.

5.2.5. Mae dirwyn y CCG i ben yn awgrymu diffyg posibl yng Nghymru yn y dyfodol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn (Awst 2022), rydym yn nodi bod cynlluniau awdurdod lleol y Gronfa Ffyniant Cyffredin ar fin digwydd ac fe allan nhw newid materion yn hyn o beth.

5.2.6. Mae trosolwg cryno o ddatblygiadau diweddar Llywodraeth Cymru mewn amgylchedd polisi cyfnewidiol yn awgrymu fod grwpiau sydd wedi'u targedu gan y CCG yn parhau i fod ar y 'radar'. Cwestiwn allweddol felly yw i ba raddau y bydd y datblygiadau hyn yn cynnal ymgysylltiad gyda'r cyrff hyn – a chyrff sector gwirfoddol yn enwedig – y mae eu grwpiau cleientiaid wedi'u hymyleiddio fwyaf ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn eu hadnabod ac sy'n gallu cysylltu gyda nhw a'u helpu nhw.

5.2.7. Am ran helaeth o'i oes, bu'r CCG yn gweithredu mewn amgylchedd ar ôl refferendwm aelodaeth yr UE gyda pholisïau Prydain a Chymru yn mynd i'r afael


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

â hynny. Roedd hyn yn cynnwys Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru (2018) yn adnabod pedwar prif ddull ar gyfer cyflawni:

a. Agweddau unigol at gymorth cyflogadwyedd.

b. Annog cyflogwyr i uwchsgilio'u gweithwyr, cefnogi eu staff a chynnig gwaith teg.

c. Mynd i'r afael â'r bylchau o ran sgiliau presennol ac arfaethedig.

d. Paratoi am newid sylweddol yn y byd gwaith.

5.2.8. Mae'r cynllun hefyd yn cyfeirio at:

a. Cryfhau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol er mwyn sicrhau "eu bod yn darparu arweinyddiaeth ranbarthol a gwybodaeth marchnad lafur cadarn, gan ddefnyddio cymhellion ariannol i gynyddu eu dylanwad ar ddarpariaeth sgiliau ym mhob rhanbarth."

b. Cydweithio gyda phartneriaid i helpu sicrhau bod 90% o bobl ifanc 16-i-24 oed yng Nghymru yn y byd addysg, yn gweithio neu'n cyflawni hyfforddiant erbyn 2050.

c. Gweithio i gael gwared â'r bwlch cyflog ar gyfer merched, Pobl Ddu, Asiaidd ac o gefndiroedd Ethnig Lleiafrifol, a phobl anabl.

d. Cael gwared ar y bwlch yn y gyfradd cyflogaeth rhwng Cymru a Phrydain gan ganolbwyntio'n benodol ar grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli."

5.3.9. Yng nghyd-destun cynlluniau Prydain, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu mynd i'r afael â bylchau yn y rhaglenni hyn yn dilyn Brexit er mwyn bodloni anghenion yng Nghymru:

*"Yn wyneb llai o gyllid a llai o ymreolaeth i wneud penderfyniadau, rydym yn ceisio ychwanegu gwerth yn hytrach na dyblygu cynnig cyflogaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau a chanolbwyntio ar ddull trawsllywodraethol o hyrwyddo ein nodau ar gyfer Cymru Decach."*[6].

5.2.10. Mae hyn yn canolbwyntio ar gefnogi'r grwpiau hynny sydd wedi'u tangynrychioli yn y farchnad waith:

a. Pobl Ifanc i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

b. Trechu anghydraddoldeb economaidd.

[6] Papur Cabinet CAB(21-22)71 (April 2022) Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau. Ar gael ar: https://gov.wales/stronger-fairer-greener-wales-a-plan-for-employability-and-skills-cabinet-paper-html (Agorwyd ar Orffennaf y 13eg 2022)



RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

c. Hyrwyddo Gwaith Teg i bawb.

d. Cefnogi pobl gyda chyflwr iechyd hirdymor i weithio.

e. Meithrin diwylliant dysgu am oes.

5.2.11. Mae'r ymrwymiad yn ymestyn i gynnig cymorth i bobl gyda rhwystrau cymhleth rhag dod o hyd i waith[7] gan ganolbwyntio ar y rheiny sydd fwyaf difreintiedig yn y farchnad lafur gan gynnwys y rheiny sydd wedi'u nodi uchod a gweithwyr hŷn sydd dros 50, gofalwyr a rheiny gydag ychydig iawn o sgiliau. Dyma'r mentrau sydd ar y gweill:

a. **Twf Swyddi Cymru +** (lansiwyd ym Mawrth 2022) sy'n rhaglen hyfforddiant a datblygu i bobl ifanc **16–18 oed.**

b. **ReAct+.** cymorth wedi'i deilwra i helpu pobl i ddod o hyd i waith ledled Cymru gan gynnwys cyflog i gyflogwyr a chymorth hyfforddiant

c. **Cymunedau dros Waith a Mwy**: cefnogaeth cyflogaeth arbenigol a mentora dwys i bobl sydd mewn, neu mewn perygl o dlodi, ac sydd heb fod yn gymwys i ymuno â rhaglenni rhanbarthol eraill sydd wedi'u hariannu [ar hyn o bryd] gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, ac sy'n wynebu rhwystrau cymhleth wrth geisio dod o hyd i waith a chyfleoedd hyfforddiant.

d. **Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PACE)** ar gyfer rhieni sy'n anweithgar yn economaidd sy'n 16+ lle mae gofal plant yn brif rwystr rhag dod o hyd i waith.

e. **Grant Dechrau Busnes Pobl Ifanc** i helpu pobl ifanc o dan 25 oed, sy'n byw yng Nghymru neu'n dychwelyd i Gymru i ddod yn hunangyflogedig ond mae'n bosibl y bydd yn dod i ben ym mis Mawrth 2023.

f. **Grant Rhwystrau rhag Dechrau Busnes ar gyfer pobl 25 oed a hŷn**, sy'n galluogi unigolion sy'n economaidd anweithgar ac unigolion di-waith sydd yn 25 oed a hŷn i ddechrau busnes yng Nghymru, ond mae'n bosibl y bydd yn dod i ben ym mis Mawrth 2023.

g. **Gwarant i Bobl Ifanc** i gynnig gwaith, addysg, hyfforddiant neu i ddod yn hunangyflogedig.

## 5.3. Tueddiadau yng Nghymru

### Cyd-destun

[7] https://gov.wales/welsh-government-steps-replace-eu-funded-programmes-support-people-complex-barriers-find-work



RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

5.3.1. Bu bylchau sylweddol rhwng Cymru a gweddill Prydain yn y 1980au a'r 1990au. Tra bod y bwlch wedi lleihau'n sylweddol dros amser, mae dadansoddiadau ac ystadegau diweddar yn dangos bod bylchau a heriau'n dal yn bodoli. Mae Trosolwg Marchnad Lafur Llywodraeth Cymru, Mehefin 2022[8] yn dangos:

a. Yn Awst 2022, roedd y gyfradd gwaith cyffredinol yng Nghymru'n 72.7% (75.5% ar gyfer Prydain): mae hyn yn gostwng ond mae cynnydd bychan o gymharu â'r flwyddyn flaenorol gydag adferiad yn y nifer o weithwyr cyflogedig yn dilyn y pandemig yn ogystal â thuedd tymor hirach cynyddol mewn hunangyflogaeth (cynnydd o 32.3% o 1999).

b. Bu cyfradd diweithdra hirdymor Cymru (12 mis neu fwy) yn uwch yn gyffredinol na chyfradd Prydain, gyda'r bwlch yn cau dros dro yn 2018 ond gan gynyddu cymaint fel yn 2021 roedd 35.2% o'r rheiny oedd yn ddi-waith yn y flwyddyn yn ddi-waith yn yr hirdymor o gymharu â 28.5% ar gyfer Prydain.

c. Anweithgarwch Economaidd ar 24.4% (cynnydd o 0.8% ers y flwyddyn flaenorol a gan gymharu gyda 21.4% ar gyfartaledd ledled Prydain)[9]: mae hyn yn rheswm allweddol dros y bwlch cyflogaeth yng Nghymru ac er ei fod wedi gostwng o 29% yn y 1990au, mae'n dal yn uwch na'r canran ar gyfartaledd ym Mhrydain. Mae 19.9% o ddynion yng Nghymru'n anweithgar yn economaidd a 28.8% o ferched. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2021, y rhesymau mwyaf cyffredin dros anweithgarwch economaidd yw:

    i. Salwch hirdymor mewn dynion (34.7%) gyda bod yn fyfyriwr yn dilyn yn agos (roedd bod yn fyfyriwr yn cyfrannu 30.2% tuag at gyfanswm yr holl ddynion sy'n anweithgar yn economaidd)

    ii. Yn hanesyddol, y rheswm mwyaf cyffredin dros anweithgarwch economaidd ymysg merched yng Nghymru oedd eu bod yn gofalu am eu teulu a'u cartref, fodd bynnag mae hyn wedi lleihau. Yn ddiweddar, y rheswm mwyaf cyffredin ar gyfer merched yng Nghymru oedd salwch hirdymor (26.9% o'r holl ferched sy'n anweithgar yn economaidd) gyda'r rheiny sy'n gofalu am eu teulu'n cyfrannu 25.1% a myfyrwyr yn cyfrannu 24.4% tuag at y cyfanswm.


d. Mae cyflogaeth yng Nghymru'n uwch i ddynion na merched yn hanesyddol, fodd bynnag dydy gwahaniaethau rhwng *diweithdra* ymysg dynion a

[8] https://gov.wales/labour-market-overview-august-2022
[9] https://gov.wales/labour-market-overview-august-2022


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

merched ddim mor amlwg o gymharu â chyflogaeth neu anweithgarwch economaidd[10].

**Siart 16: Cyfradd cyflogaeth fel % o'r Boblogaeth 16 – 64 oed: Prydain a Chymru**




5.3.2. Mae'r ystadegau hyn, ar y cyd â'r sylfaen dystiolaeth (gan gynnwys adolygiadau llenyddiaeth y gwerthusiad) yn dangos fod pwyslais ar 'waith yn gyntaf' mewn darpariaeth prif ffrwd yn llai effeithiol i'r rheiny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth a grwpiau penodol, gan gynnwys pobl gyda chyflyrau iechyd ac anableddau a phobl dros 50. Mae hyn yn awgrymu y dylid cynnig y gwerth parhaol o ddarpariaeth arbenigol ar y cyd â rhaglenni prif ffrwd ar gyfer grwpiau megis y rheiny sydd wedi'u targedu gan y CCG i gynnig y gwasanaethau mwy hollgynhwysol a chyfannol sydd eu hangen ar bobl o'r fath.

**Swyddi ac Incymau**

5.3.3. Mae bwlch cyflog rhwng Cymru a gweddill Prydain. Er bod anghydraddoldebau rhanbarthol yng Nghymru'n llai amlwg o gymharu â gweddill Prydain, maen nhw'n dal yn bodoli ac mae angen bwrw golwg arnyn nhw yng ngoleuni enillion wythnosol gros canolrifol ar gyfer oedolion llawn amser. Roedd hyn yn £562.8 yng Nghymru ym mis Ebrill 2021 (92.2% o'r cyfanswm ar gyfartaledd ym Mhrydain oedd yn £610.7) a'r trydydd isaf o blith 12 gwlad Prydain a rhanbarthau Lloegr.

5.3.4. Fodd bynnag, roedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar sail amser llawn canolrif fesul awr (ac eithrio goramser) yn Ebrill 2021 yn 5.0% yng Nghymru a 7.9% ym Mhrydain[11].


5.3.5. Ar y cyfan, mae diffyg cymharol o waith â chyflogau uchel yng Nghymru gyda lletygarwch, iechyd a gofal cymdeithasol ymysg y cyflogwyr mwyaf yn gyffredinol.

[10] https://gov.wales/labour-market-overview-august-2022
[11] https://gov.wales/annual-survey-hours-and-earnings-2021


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

Mae Siart 17 isod (Trosolwg o'r Farchnad Lafur ym mis Mehefin 2022 gan Lywodraeth Cymru[12]) yn dangos y nifer o swyddi fesul sector yng Nghymru.

**Siart 17: Swyddi Gweithlu fesul Sector Diwydiant yng Nghymru**




5.3.6. At hyn, bu i'r Arolwg Poblogaeth Flynyddol ar 'Cyflogaeth pobl ifanc (16-24 oed) fesul diwydiant a grŵp oedran, Cymru, 2021'[13] nodi bod pobl ifanc 16–19-oed (10.2%) a 20–24 oed (14.9%) yn fwyaf tebygol o gael eu cyflogi yn y meysydd dosbarthu, gwestai a bwytai.

5.3.7. Bu i gam un a dau'r gwerthusiad fwrw golwg ar leoliadau gwaith y CCG ynghyd â mannau gwaith ar gyfer yr unigolion oedd yn rhan o'r rhaglen. Roedd y rhan fwyaf o'r unigolion aeth rhagddi i ddod o hyd i waith mewn swyddi lefel mynediad gydag isafswm cyflog. Roedd lleoliadau profiad gwaith mwyaf cyffredin y CCG yn y meysydd arlwyo, manwerthu, adeiladu, cartrefi gofal, canolfannau galwadau, manwerthu ar-lein, gofal plant a gwaith ieuenctid. Fodd bynnag llwyddodd cyfran o gyrff buddiolwyr ddod o hyd i leoliadau a chyfleoedd gwaith arloesol ac oedd wedi'u teilwra'n lleol.

5.3.8. Bu darparwyr yn amrywio o fod yn fudiadau sylweddol megis awdurdodau lleol neu gwmnïau mawr hyd at fentrau lleol bach neu ficro. Ar y cyfan, roedd y nifer o gyfleoedd lleol ac ansawdd y cyfleoedd o'r fath yn amrywio'n fawr ar gyfer lleoliadau a gwaith dilynol.

[12] https://gov.wales/labour-market-overview-august-2022

[13] https://gov.wales/ad-hoc-statistical-requests-23-may-3-june-2022

*“dydy’r farchnad lafur yn ein hardal ni ddim yn wych – llawer o gytundebau dim oriau a swyddi isafswm cyflog. Mae’n anodd iawn dod o hyd i unrhyw beth sy’n talu cyflog digonol.”*

5.3.9. Hefyd, roedd lefel o ansicrwydd yn y mathau o swyddi’r oedd nifer o unigolion oedd yn rhan o’r CCG yn dod o hyd iddyn nhw. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod y sectorau sy’n cynnig cyfleoedd yn agored i’w moderneiddio – er enghraifft mae cyfleoedd mewn siopau ar y Stryd Fawr yn gostwng mewn nifer fawr o ardaloedd.

5.3.10. Bu i’r adolygiad llenyddiaeth y gwerthusiad *‘Ymyriadau Llesiant, Lles a Chyflogadwyedd ar gyfer y rheiny sydd Ymhellach o’r Farchnad Lafur’* amlygu fod rhaglenni cyflogaeth yn dueddol yn gyffredinol o fynd ati i ddatblygu sgiliau a gallu unigolion i sicrhau eu bod yn fwy addas ar gyfer cyfleoedd sydd ar gael eisoes yn hytrach na chreu cyfleoedd newydd.

5.3.11. Amlygodd rhai buddiolwyr CCG arloesol sut i ddefnyddio CCG i ddwyn cyflenwad a galw ynghyd gan gefnogi busnesau bach lleol i ddatblygu a chyflogi staff newydd, mewn rhai achosion symud o fod yn fasnachwr unigol i gyflogi’r unigolyn CCG yn barhaol, a hefyd helpu’r unigolyn i achub ar y cyfle.

5.3.12. Mae’r astudiaethau achos yn y dogfennau atodol *‘Cyfleoedd ar gyfer y Rheiny sy’n Anodd eu Cyrraedd yn yr Economi Sylfaenol’* ac *‘Ymarfer Da mewn Helpu Pobl i Ddod o Hyd i Waith: Gwersi gan Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC’* yn cynnig darluniau o hyn.

5.3.13. Mae Tabl 8 isod yn manteisio ar yr arolwg Gwerthuso CCG i unigolion oedd yn rhan ohono 2022 a dderbyniwyd ymateb cymedrol felly dylid trin y data fel data dangosol yn unig. Fodd bynnag mae’n cefnogi gwaith maes ehangach yn fras o ran natur gwaith yr unigolyn wedi iddyn nhw gwblhau’r CCG. Byddai’r categori arall yn ymdrîn ag ystod eang o weithgareddau gan gynnwys y cyfleoedd gwaith arbenigol a ddisgrifiwyd uchod.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

| Tabl 8: Mannau Gwaith ar ôl Cymryd Rhan yn y Rhaglen CCG<br>*(Ffynhonnell: Arolwg Gwerthuso'r CCG i Unigolion oedd yn rhan ohono 2022)* | |
|---|---|
| **Categori Gwaith** | **Nifer yr Unigolion wnaeth Ymateb** |
| Manwerthu / Siopau | 6 |
| Lletygarwch (gwestai / paratoi neu weini bwyd ac ati.) | 4 |
| Iechyd neu Ofal Cymdeithasol | 6 |
| Adeiladaeth / Adeiladu | 2 |
| Hyfforddiant neu Addysg | 2 |
| Cynhyrchu / Gwneud pethau | 1 |
| Ffermio / Coedwigaeth / Rheoli'r Tir | 0 |
| Yr Amgylchedd | 0 |
| Y Celfyddydau / Crefftau / Cerddoriaeth / Gweithgarwch Creadigol megis Ffilm neu Ffotograffiaeth | 1 |
| Gwybodaeth a Chyfathrebu | 4 |
| Cyllid ac Yswiriant | 1 |
| Gweinyddu a Chymorth | 2 |
| Arall | 12 |
| **Cyfanswm** | 41 |

## 5.4. Yr Economi Sylfaenol: Yr 'Economi Dydd i Ddydd'

5.4.1. Mae'r Economi Sylfaenol yn ymdrîn â gwasanaethau a chynnyrch sylfaenol y mae pobl yn dibynnu arnyn nhw:

*"Mae'r economi pob dydd, neu'r economi sylfaenol fel y'i gelwir hefyd, yn disgrifio'r swyddi sydd wrth galon ein cymunedau ar draws sectorau fel gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, twristiaeth, adeiladu a manwerthu."*[14]

5.4.2. Mae cynlluniau adfer Llywodraeth Cymru yn ymrwymo Gweinidogion i gefnogi'r economi sylfaenol fel bod mwy o wariant a phrosiectau lleol yn cefnogi swyddi a busnesau yn y gymuned. Mae'r amcanion hyn yn cyd-fynd yn fras gyda'r sectorau roedd unigolion CCG naill ai yn tueddu i weithio ynddyn nhw neu'n dymuno gweithio ynddyn nhw, a lle mae cyfleoedd posibl yn nodweddiadol (ond nid yn gyffredinol) i grwpiau ac unigolion sydd wedi'u targedu a'u cefnogi drwy'r CCG.

5.4.3. Mae swyddi yn y sectorau hyn yn cynrychioli pedair o bob deg swydd yn economi Cymru ac mae £1 o bob 33 yn cael ei wario ynddyn nhw. Mewn rhai rhannau o Gymru, *'yr Economi Sylfaenol yw'r economi'*. Mae'r ddogfen atodol *'Cyfleoedd ar gyfer y rheiny sy'n Anodd eu Cyrraedd yn yr Economi Sylfaenol'* yn cynnig enghreifftiau o astudiaethau achos ar sut bu i rai prosiectau'r CCG gyd-fynd gyda dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr elfen hon o bolisi economaidd. Bu

[14] https://gov.wales/25-million-funding-boost-back-businesses-everyday-local-economy


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Cynllun Cyflawni Economi Sylfaenol ym mis Ebrill 2021[15]. Fel yr amlygwyd yn Busnes Cymru[16], bydd gweithdrefn Llywodraeth Cymru tuag at gefnogi a datblygu'r economi sylfaenol yn canolbwyntio ar y canlynol:

a. Cronfa Her yr Economi Sylfaenol o £4.5m i gefnogi prosiectau arbrofol i wirio'r ffordd orau o gefnogi'r economi sylfaenol, yn ogystal â buddsoddiad pellach o £2.5m a gyhoeddwyd yn ddiweddarach.

b. Canolbwyntio ar dyfu'r 'canol coll' er mwyn cynyddu'r nifer o gwmnïau bach a chanolig eu maint sydd yng Nghymru a allai fynd at i i werthu y tu hwnt i Gymru ond sydd â'u gwreiddiau'n gadarn i wneud penderfyniadau mewn cymunedau Cymreig.

c. Rhannu ac ehangu ymarfer gorau gan gychwyn drwy fwrw golwg ar werth cymdeithasol yn ymwneud â chaffael gan gydweithio gyda Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus i ddefnyddio a chryfhau cadwyni cyflenwi lleol.[17] Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail i'r broses hon.

5.4.4. Fel enghreifftiau, ymysg y prosiectau a ddefnyddiwyd ar gyfer cyllid mae: lleoliadau hyfforddiant cartrefi gofal, cymorth ar gyfer datblygu 'Cynllun Iechyd yr Economi Sylfaenol', datblygu gallu digidol lleol mewn trefi mewn ardaloedd awdurdod lleol penodol, a phrosiect awdurdod lleol i ddatblygu gwasanaethau gofal-micro sy'n cynnig gofal a chymorth lleol.

## 5.5. Newidiadau a Chyfleoedd


5.5.1. Bu i'r CCG weithredu mewn amgylchedd economaidd Cymreig gyda:

a) Newidiadau strwythurol hirdymor o ran math a natur cyfleoedd gwaith yng Nghymru (gwelwch Siart 18 isod) sy'n dangos cynnydd a lleihad mewn cyflogaeth fesul sector rhwng 2008 a 2018, er enghraifft llai o waith yn y maes manwerthu ar y stryd fawr. Fodd bynnag, mae patrymau cyflogaeth ranbarthol ac isranbarthol ac felly cyfleoedd cyflogaeth yn dangos amrywiadau daearyddol eang.

b) Amrywiadau daearyddol ategol mewn perfformiad economaidd, felly mae llwyddiant yn dibynnu ar amodau economaidd lleol cyffredinol yn ogystal ag amodau cenedlaethol: roedd cyfleoedd gwaith lleol ac ansawdd cyfleoedd o'r fath yn amrywiol dros ben ar gyfer lleoliadau a gwaith dilynol.

[15] https://gov.wales/foundational-economy-delivery-plan-html
[16] https://businesswales.gov.wales/
[17] https://businesswales.gov.wales/foundational-economy


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP




5.5.2. Ar ei orau, mae'r CCG wedi cyflawni'r canlynol:

a) Ariannu buddiolwyr sy'n rhwydweithio'n effeithiol gyda busnesau lleol i gysylltu unigolion yn greadigol gyda chyfleoedd. Er mwyn sicrhau ymgysylltu'n llwyddiannus gydag unigolion mewn gwaith cynaliadwy ac addas mae gofyn i fuddiolwyr allu cysylltu gyda chyflogwyr addas a pharod, a'u bod yn gallu cefnogi unigolion yn weithredol i fanteisio ar gyfleoedd pan fo unigolion yn barod i wneud hynny.

b) Canfod lleoliadau o safon a helpu pobl i fanteisio ar gyfleoedd gwaith (neu wirfoddoli) tymor hirach drwy gysylltiadau buddiolwyr, neu drwy greu llwybrau ar gyfer unigolion, y gallai rhai ohonyn nhw fynd rhagddi i wirfoddoli gyda, ac yn y pen draw gael eu cyflogi gan y buddiolwr hwnnw.

c) Cefnogi cyfleoedd arloesol, gan gynnwys ymgysylltu gyda marchnadoedd lleol newydd (a micro yn aml) neu weithgareddau economaidd. Er nad oedd yn brofiad deuaidd, roedd buddiolwyr effeithiol llai yn aml mewn sefyllfa dda i ddod o hyd i neu greu atebion arloesol ac unigyddol ar gyfer unigolion, ac yn enwedig ar gyfer y rhai oedd yn ymddangos fel eu bod yn bellach o ddod o hyd i waith, a allai fod wedi bod yn fregus ac angen amser i feithrin perthnasau llawn ymddiriedaeth.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

d) Adnabod a datblygu cyfleoedd unigol neu 'arbennig' sydd mae'n debyg y tu hwnt i faes rhaglenni prif ffrwd mwy, felly mae'r elfen gwybodaeth a rhwydweithio'r weithdrefn CCG wedi ychwanegu gwerth (mae'r astudiaethau achos yn y ddogfen atodol *'Ymarfer Da mewn Helpu Pobl i Ddod o hyd i Waith: Gwersi gan Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC'* yn disgrifio enghreifftiau).

5.5.3. Mae cynnig dadansoddiad manwl ar sut mae'r newidiadau parhaus yn natblygiadau ac amodau cymdeithasol, demograffig, economaidd, technolegol a busnes Cymru, Prydain a gweddill y byd yn effeithio ar gyfleoedd gwaith yn y dyfodol yng Nghymru ac yn enwedig y rheiny ar gyfer y grwpiau sydd wedi'u targedu gan y CCG y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad hwn. Fodd bynnag:

a. Mae symudiadau sylweddol yn parhau, gyda newidiadau mewn patrymau gwaith, economi 'GIG' parhaol (lle mae cyflogwyr a gweithwyr unigol yn ymrwymo i drefniadau gwaith tymor byr) a newidiadau sydd wedi'u galluogi neu eu hysgogi gan dechnoleg gan gynnwys gweithio (a gwirfoddoli) rhithiol ehangach, mabwysiadu roboteg a chategorïau gwaith newydd megis 'dylanwadwyr' (er y gallai sinig o oed penodol ystyried bod dylanwadwyr yn fersiwn newydd o weithgarwch hen iawn: marchnata a gwerthu).

b. Ymysg effeithiau'r newidiadau mae '*y potensial i dechnolegau newydd ddisodli swyddi cyfredol, a galluogi cyflogwyr i greu a manteisio ar gronfeydd llafur hyblyg, gan achosi cynnydd posibl mewn swyddi ansefydlog ac ansicr*'[18]. Wrth iddyn nhw barhau i ddatblygu, mae'n aneglur sut byddai'r datblygiadau hyn yn cael effaith tymor hirach fodd bynnag mae'n rhesymol disgwyl y byddan nhw'n gweithredu fel aflonyddwyr ar gyfer elfennau o farchnad llafur Cymru o leiaf. Er enghraifft, mae'r ddadl yn dyfalu i ba raddau y bydd economi Cymru yn parhau i ddibynnu ar lafur sgiliau isel, cyflog isel ac ansicr, ynghyd ag i ba raddau y bydd angen gweithlu medrus iawn ar yr economi, ond gyda llai o swyddi o bosibl.

5.5.4. Gan ystyried y cefndir hwn, mae rhai agweddau'n berthnasol yn uniongyrchol i drefniadau cymorth y dyfodol ar gyfer y rheiny sy'n wynebu'r mwyaf o heriau sy'n cynnwys cyfleoedd sy'n deillio o farchnad lafur Cymreig newidiol os gallai rhaglenni yn y dyfodol weithio gyda rhywfaint o'r newid hwnnw:

a. Yr Economi Sylfaenol (gwelwch uchod): mae hyn yn cyd-fynd yn dda gyda'r sectorau y mae unigolion sy'n rhan o'r CCG yn dueddol o ddod o hyd i waith ynddyn nhw (gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth a manwerthu).

---

[18] The Future of Work in Wales Public Policy Institute of Wales 2017, Bell.M, Bristow.D & Martin.S.,



RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

b. Gan gysylltu â'r uchod, mae'r CCG yn awgrymu model o gefnogi twf busnesau bach lleol mae'n allweddol helpu pobl a fyddai'n wynebu heriau rhag gallu manteisio ar waith o bosibl ynghyd â helpu busnesau i ganfod cyfleoedd i ddatblygu ac achub ar y cyfleoedd hynny a chynnig swyddi i bobl o'r fath.

c. Gwerth cyfleoedd lleol / arbennig a ellir eu hepgor gan raglenni prif ffrwd, yn enwedig ar gyfer y rheiny sydd mewn amgylchiadau heriol.

d. Manteisio ar gyfleoedd yn y sector mentrau cymdeithasol a chymunedol (yn ymwneud gyda gwirfoddoli hefyd).

e. I'r gwrthwyneb, meithrin cysylltiadau cryfach gyda chyflogwyr mwy ar lefel rhaglen: gallai hyn hefyd oresgyn y stigma allai fod ynghlwm â chyflogi pobl mewn amgylchiadau heriol.

f. Y gweithlu rhithiol: Bu i COVID 19 gyflymu'r newid i ffurfiau rhithiol o weithio a gwirfoddoli. Mae ymarferoldeb a dymunoldeb hyn yn destun cryn ddadl. Mewn gwirionedd, gellir gwella rhai mathau o weithgarwch a lles personol trwy ddulliau o weithio o'r fath (er enghraifft gallai gwirfoddoli rhithiol fod yn hollgynhwysol ar gyfer y rheiny sy'n wynebu heriau gyda symudedd) tra i eraill mae'n llai ymarferol a gallai fod yn unig. Fodd bynnag, i'r rhai a allai fod yn addas, mae'n parhau i fod yn gyfle, er enghraifft gallai gweithio rhithiol gynnig cyfleoedd i'r rheiny mewn cymunedau mwy anghysbell.

g. Bu i'r gwerthusiad ganfod hefyd, er gwaethaf sawl effaith aflonyddgar yn sgil COVID 19, bu i rai unigolion elwa o gymorth ar ffurfiau rhithiol, ac fe gafodd rhai eu hannog i ymgysylltu a allai fod wedi bod naill ai'n amharod i ymgysylltu trwy ddulliau mwy traddodiadol am resymau personol neu ddiwylliannol neu oherwydd yr angen i deithio.

h. Gallai'r newid i weithio digidol hefyd arwain at gynnydd mewn galw am wasanaethau lleol wrth i fwy o bobl fynd ati i weithio o adref.

# Adran 6: Sut mae CCG yn cyfrannu at amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac at Themâu Trawsgwricwlaidd CGE

## 6.1. Y Ddeddf


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

6.1.1. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, a rhwystro problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldeb iechyd a newid hinsawdd. Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â'r adrannau blaenorol sy'n cofnodi effeithiau'r CCG a hefyd y ddogfen atodol *'Ymarfer Da mewn Helpu Pobl i Ddod o Hyd i Waith: Gwersi gan Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGD'* sy'n nodi'r ffyrdd effeithiol o gefnogi unigolion i fyw bywydau o ansawdd gwell a dod o hyd i waith neu rôl wirfoddoli.

6.1.2. Mae tystiolaeth eang bod tlodi a chyfleoedd bywyd gwael yn cyfateb i ddiweithdra hirdymor ac anweithgarwch economaidd e.e., y 'Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi' (Llywodraeth Cymru 2012), ac yn y Cynllun Gweithredu Tlodi Plant dilynol, sy'n pwysleisio pwysigrwydd cefnogi rhieni i ddod o hyd i waith (Llywodraeth Cymru 2015).

6.1.3. Mae adnabod cysylltiadau achosol hirdymor gyda thystiolaeth rhwng effeithiau rhaglenni cymharol fyrdymor ac ysbeidiol (megis CCG) ac amcanion strategol tymor hirach fel y rhai a nodir yn y Ddeddf yn heriol, yn enwedig o ystyried absenoldeb trefniadau hydredol i bennu sut mae unigolion a chymunedau'n llwyddo dros amser.

6.1.4. Fodd bynnag, bu i CCG dargedu unigolion lle'r oedd tlodi ac allgáu cymdeithasol yn aml yn gynhenid. Mae'r gwerthusiad yn cadarnhau fod y cymorth drwy'r CCG wedi helpu nifer o unigolion a'i fod yn gweithredu'n effeithiol ar drothwy cymorth cyflogadwyedd, llesiant a lles. Mae cyfuno'r agweddau hyn yn hanfodol er mwyn helpu pobl sydd mewn amgylchiadau heriol neu sydd ar fin eu goresgyn tuag at fywydau a gwaith o ansawdd gwell ac felly eu helpu i drechu tlodi.

6.1.5. Amcan sylfaenol a chraidd CCG oedd 'gwrth-dlodi' a bu iddo gyfrannu at amcanion y Ddeddf drwy:

a) Fynd i'r afael â phrif yrrwr tlodi, iechyd gwael ac eithrio cymdeithasol: diweithdra. Mae adolygiad llenyddiaeth y gwerthusiad yn nodi bod *'diweithdra, yn arbennig absenoldeb hirdymor o'r farchnad lafur, â chysylltiad cryf ag effeithiau niweidiol ar fywydau unigolion (ac o bosibl eu teuluoedd).*''

b) Cefnogi'r rheiny oedd yn wynebu heriau difrifol megis iechyd meddwl gwael, dibyniaethau neu anawsterau dysgu: mae cymorth llwyddiannus yn y cyd-destun hwn yn agwedd sylweddol wrth wella lles unigolion, teuluoedd a'r gymuned yn y pen draw.

c) Yn gyntaf, mae'n helpu pobl sydd wedi profi diweithdra ac anallu i [ail] ymgysylltu gyda'r farchnad lafur, ac yn ail, mae'n gweithio gyda phobl mewn amgylchiadau heriol a gyda disgwyliadau isel i'w helpu nhw gredu bod modd iddyn nhw ymgysylltu gyda'r farchnad lafur neu fod yn fwy gweithgar mewn cymdeithas, er enghraifft, drwy wirfoddoli.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

6.1.6. Mewn termau ymarferol, llwyddodd y dull i gyfuno cymorth i ddatblygu sgiliau a galluoedd meddal a chaled ac ar ei orau, rhoddodd egwyddorion cynllunio rhaglenni effeithiol ar waith yn ogystal ag ymarfer da o ran cynnig cymorth i'r bobl sydd fwyaf angen y cymorth hwnnw (gwelwch Adran 7 hefyd). Bu i CCG gefnogi 23000+ o unigolion wedi'u targedu gyda chanlyniadau megis:

a. Hybu eu Sgiliau Meddal gan gynnwys hybu eu hyder a'u cymhelliant.

b. Paratoi pobl i fod yn barod i weithio.

c. Ymwneud gyda buddion profiadol, e.e. drwy leoliadau gwaith neu wirfoddoli.

d. Uwchsgilio, hyfforddiant neu ennill cymwysterau penodol.

e. Paratoi pobl i gyflawni addysg neu hyfforddiant pellach.

f. Helpu pobl i ddod o hyd i waith tymor hirach neu ddod yn hunangyflogedig

6.1.7. Mae tystiolaeth gadarn i gefnogi llwyddiant y CCG i gyfrannu tuag at amcanion hirdymor y Ddeddf yn ymwneud â'r canlynol:


a. Y llwyddiannau sydd wedi'u harchwilio fel sydd wedi'u crybwyll yn Adran 3.6 a'u crynhoi yn Siart 19 isod: mae'r rhain i gyd yn gamau cadarnhaol sydd â gwerth i'r unigolyn allu trechu tlodi, er y byddai dilyniant systematig i roi darlun hydredol o'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd i unigolion wedi bod yn werthfawr – bu i'r gwerthusiad fwrw golwg ar enghreifftiau o astudiaethau achos o'r hyn sy'n llwyddiannus, ond dydy'r rhain ddim yn cynnig enghraifft strwythuredig.

b. I ba raddau wnaeth sgiliau meddal ac agweddau megis hybu hyder a goresgyn rhwystrau gyflawni canlyniadau cadarnhaol: yn amlwg, fel y'u cofnodwyd, mae'r rhain yn bwysig ond yn yr un modd efallai y byddai angen cymorth dibynnol mwy hirdymor i'w cynnal.

c. Dadansoddiad cost / budd cadarnhaol drwy'r asesiad Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad sy'n asesiad gofalus o effaith gyda thybiaethau wedi'u datgan ac sydd yr un mor ofalus o sut cafodd yr effeithiau eu cynnal ar ôl 2 flynedd. Mae'r gymhareb o £1 a wariwyd i £3.37 o fuddion mesuradwy sydd wedi'u cyflawni ar gyfer rhaglen sy'n gweithredu ar raddfa CCG i'w ganmol yn fawr.

6.1.8. Mae data CCG hefyd yn cynnwys data wedi'i ddilysu o ofyniad bod cyrff buddiolwyr yn cofnodi lle mae gan unigolion weithgareddau neu elfennau o hyfforddiant a chymorth sy'n mynd i'r afael yn benodol ag agwedd ar leddfu tlodi fel gofyniad ehangach: Mae data CCG hyd at Orffennaf yr 31ain yn cofnodi bod

16768 o unigolion wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd neu hyfforddiant penodol a oedd o gymorth. Gallai gweithgareddau o'r fath helpu gyda chyllid personol neu fanteisio ar fanc bwyd yn ategol i gymorth arall.




6.1.9. Mae'r ddogfen atodol *'Ymarfer Da mewn Helpu Pobl i Ddod o Hyd i Waith: Gwersi gan Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC'* yn disgrifio arfer da ynghylch cefnogi pobl mewn amgylchiadau heriol yn effeithiol.

6.1.10. Mae ein canfyddiadau'n llunio darlun o arfer dda ledled y CCG wrth gefnogi unigolion a grwpiau sy'n wynebu heriau. Wrth bennu arfer dda, mae llawer o debygrwydd ym 'mhrofiad' grŵp 16-24 oed â'r grŵp 25 oed a hŷn, er enghraifft, pwysigrwydd magu a hybu hunan-hyder. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau rhwng y grwpiau oedran:

a) Mae cyfeillgarwch rhwng cyfoedion yn bwysicach fyth i bobl ifanc: *"gwelwn fod darparu mewn grwpiau'n effeithiol gan fod pobl yn meithrin perthynas yn syth ac mae'n elfen bwysig wrth wneud iddyn nhw fod eisiau dychwelyd".*

b) Roedd pobl hŷn yn gwerthfawrogi gallu rhyngweithio er mwyn rhannu profiadau a darganfod nad ydyn nhw 'ar eu pennau eu hunain' o ran eu profiadau.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

c) Er ei fod yn cyffredinoli, mae pobl hŷn yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar ddeilliannau iddyn nhw ac ar newid eu bywydau er gwell.

d) Roedd gan bobl ifanc oedd ddim mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET) lai o nodau penodol yn gyffredinol, sy'n cyfleu bod llawer yn dechrau ar eu llwybr at waith gyda dim neu ond ychydig o brofiad blaenorol i fanteisio arno, neu unrhyw alwedigaeth ddymunol benodol.

6.1.11. Er bod y gwerthusiad wedi canfod bod y CCG yn llwyddiannus, rydym hefyd yn awgrymu dysgu a model ar gyfer trefniadau'r dyfodol a allai wella effeithiau a buddion gweithio gyda grwpiau wedi'u targedu gan y CCG ymhellach yn Adran 7.

## Y Cyflog Byw

6.1.12. Bu i CGGC hyrwyddo gwerth a phwysigrwydd talu cyflog byw yn frwd, fodd bynnag, o ystyried nad oes data hydredol systematig ar ôl i'r unigolion gymryd rhan, does dim gwybodaeth i hysbysu i ba raddau y talwyd y cyflog byw i'r unigolion hynny a ddaeth o hyd i waith yn llwyddiannus. Bu i waith maes y gwerthusiad ganfod darlun cymysg:

a. Bu i gyfran o gyflogwyr lleoliadau gwaith a'r rheiny wnaeth gyflogi pobl ar ôl iddyn nhw gymryd rhan yn y CCG dalu'r Gwir Gyflog Byw.

b. Fodd bynnag bu i nifer o'r unigolion a wnaeth ddod o hyd i waith yn llwyddiannus gychwyn gweithio mewn swyddi lefel mynediad (gydag isafswm cyflog fel arfer) neu mewn sectorau oedd yn cyflogi pobl ar gytundebau dim oriau. Tra bod gwaith sicr hirdymor yn ddymunol, nid yw'n bosibl bob amser, a gall pobl elwa o hyd o gyflogaeth (ac mae rhai sectorau fel manwerthu ac adeiladu'n gweithredu ar y sail hon).

c. Mae'n bosibl bod dyhead Llywodraeth Cymru bod mudiadau'n talu'r Gwir Gyflog Byw wedi cyflwyno neges gymysg pan fo llymder mai dim ond ar isafswm statudol y gellir ad-dalu'r CCG (a rhaglenni eraill). Byddai'n ddefnyddiol adolygu'r anghysondeb hwn ar gyfer y dyfodol fel arwydd ac anogaeth i gyflogwyr.

# 6.2. Themâu Trawsbynciol

## Cyfraniad CCG at Gyfleoedd Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd:

6.2.1. Mae'r gwerthusiad hwn yn cadarnhau bod CCG wedi cefnogi nifer fawr o bobl dan anfantais (gan gynnwys y rheiny sy'n NEET ac o gefndir Du, Asiaidd neu grwpiau Ethnig Lleiafrifol (BAME), rheiny gydag anawsterau dysgu neu yn profi neu yn dod allan o broblemau iechyd meddwl). Bu iddo hefyd fynd i'r afael â heriau i ferched sy'n ceisio dychwelyd i neu ymuno â'r farchnad lafur. Bu i waith maes y


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

gwerthusiad ganfod yn gyson bod CCG ar ei gorau yn trawsnewid bywydau pobl er gwell.


6.2.2. Mae'r cydbwysedd rhwng merched a dynion sy'n cymryd rhan yn 55% i 45% (gwelwch Siart 20 isod). Gan dderbyn bod ffigyrau wedi codi a gostwng ar hyd oes y CCG a bod COVID 19 yn aflonyddwr sylweddol, mae ciplun o ddata diweddar yn dangos y canlynol:

a. Cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru gyda 76.9% o ddynion (78.9% yn y DU) a 68.6% o ferched (72.2% yn y DU) wedi'u nodi mewn gwaith.

b. Diweithdra yn 3.9% i ddynion yng Nghymru (3.9% yn y DU) a 3.6% i ferched (3.6% yn y DU).

c. Anweithgarwch Economaidd yn 19.9% i ddynion yng Nghymru (17.8% yn y DU) a 28.8% i ferched (25.1% yn y DU)[19].

6.2.3. Mae gwaith maes y gwerthusiad hefyd yn cadarnhau y bu i'r CCG gefnogi cydraddoldeb yn nhermau galwedigaethol heb unrhyw ragfarnau cynhenid amlwg o ran ymgysylltu â diwydiannau, sectorau neu brosiectau.




6.2.4. Bu i 1297 o unigolion fu'n rhan o'r CCG nodi eu bod yn rhan o grwpiau Pobl Ddu, Asiaidd ac o gefndir Ethnig Lleiafrifol (oddeutu 5.6% o holl unigolion y CCG)

[19] https://gov.wales/labour-market-overview-august-2022

gyda Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod 4.9% o boblogaeth Cymru o grwpiau Du, Asiaidd neu o gefndir Ethnig Lleiafrifol[20] gyda thystiolaeth ategol bod tlodi yn her arbennig i gyfran sylweddol o'r grŵp hwn. Mae ciplun o ddata diweddar hyd at y flwyddyn ddaeth i ben ar Ragfyr yr 31ain 2021[21] yn dangos ar y cyfan:

a. Mae cyfradd cyflogaeth poblogaeth grwpiau Pobl Ddu, Asiaidd ac o gefndiroedd Ethnig Lleiafrifol yn 64.8% o gymharu â 73.5% ar gyfer y boblogaeth wen yng Nghymru.

b. Mae cyfradd anweithgarwch economaidd poblogaeth grwpiau Pobl Ddu, Asiaidd ac o gefndiroedd Ethnig Lleiafrifol yn 27% o gymharu â 23.5% ar gyfer y boblogaeth wen ar adeg casglu'r data.

c. Ar gyfer y cyfnod 2015 – 16 hyd at 2019 – 20 roedd tebygolrwydd o 29% o bobl gyda 'penteulu' eu cartref yn dod o grŵp ethnig heb fod yn wyn yn byw mewn tlodi incwm cymharol yng Nghymru o gymharu â 24% lle mae 'penteulu' eu cartref yn dod o grŵp ethnig gwyn [22].

6.2.5. Mae Tabl 9 isod yn cynnig dadansoddiad o unigolion oedd yn rhan o'r CCG fesul ethnigrwydd.

**Tabl 9: Cronfa Cynhwysiant Gweithredol: Dadansoddiad Ethnigrwydd**

*(Ffynhonnell: Data CGGC o 23096 o Gofnodion)*

| Categor | Cronfa: Pobl Ifanc Dwyrain Cymru | Cronfa: Dwyrain Cymru 25+ Oed | Cronfa: Pobl Ifanc Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Cronfa: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 25+ Oed | Cyfanswm: Yr holl Gronfeydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn Cymraeg | 347 | 1192 | 3760 | 6462 | 11761 |
| Gwyn Prydeinig | 505 | 1282 | 2128 | 5379 | 9294 |
| Gwyn Gwyddelig neu Wyn Arall | 25 | 106 | 60 | 258 | 449 |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig: Bangladeshi, Indiaidd, Pacistanaidd neu Arall | 47 | 127 | 33 | 136 | 343 |
| Du a Du Prydeinig, Affricanaidd, Caribïaidd neu Arall | 39 | 180 | 38 | 131 | 388 |
| Tsieineaidd | - | 7 | 3 | 22 | 32 |
| Gwyn ac Asiaidd Cymysg, Du Affricanaidd, Caribïaidd neu Arall | 42 | 103 | 67 | 102 | 314 |
| Arall | 26 | 84 | 20 | 98 | 228 |
| Dim Data / Mae'n well gen i beidio â dweud | 9 | 172 | 22 | 84 | 287 |
| **Cyfanswm** | 1040 | 3253 | 6131 | 12672 | 23096 |

[20] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/summaryofeconomicactivityinwales-by-year-ethnicity

[21] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity/summaryofeconomicactivityinwales-by-year-ethnicity

[22] https://gov.wales/relative-income-poverty-april-2019-march-2020-html


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

## Dangosyddion Lefel Achos Thema Trawsbynciol 'Camau Cadarnhaol'

6.2.6. Roedd y Themâu Trawsbynciol hefyd yn cynnwys 'camau cadarnhaol' manylach gyda'r nod o wirio cynhwysedd y rhaglen ac yn arbennig a oedd unigolion wedi'u galluogi lle'r oedden nhw'n profi anableddau neu gyflyrau iechyd, a oedd angen cymorth i oresgyn rhwystrau megis talu costau teithio neu gymorth ar gyfer gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill, a chynnig mentora.

6.2.7. Ar y lefel uchaf, moeseg y CCG oedd dewis buddiolwyr wedi'u dilysu sy'n gallu cyrraedd a chefnogi pobl sy'n wynebu heriau sylweddol i wella'u bywydau a dod o hyd i waith neu rôl wirfoddoli. Drwy ddiffiniad, roedd angen i'r mudiadau hyn hwyluso cymryd rhan er mwyn darparu cymorth ac mae'r canlyniadau sydd wedi'u cofnodi yn yr adrannau blaenorol yn arwydd o'r llwyddiant.

6.2.8. Yn fwy penodol, bu i waith maes y gwerthusiad ganfod bod y mwyafrif o gyrff buddiolwyr oedd wedi'u hariannu yn ymrwymo i sicrhau bod eu hunigolion sy'n cymryd rhan wedi'u cefnogi'n ddigonol. Roedd hyn yn cynnwys agweddau megis cymorth gyda chostau teithio a sicrhau bod pobl gydag anableddau wedi eu cynnwys a heb eu heithrio – roedd gan nifer o'r cyrff oedd wedi'u hariannu genadaethau penodol i helpu pobl gyda chyflyrau penodol. Mae'r ddogfen atodol *'Ymarfer Da mewn Helpu Pobl i Ddod o Hyd i Waith: Gwersi gan Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC'* yn disgrifio beth sy'n effeithiol ynghylch cynnig cymorth gydag astudiaethau achos eglurhaol.

6.2.9. At hyn, bu i arolwg i unigolion yn ystod cam 3 ofyn oedd eu hanghenion penodol wedi'u bodloni. Yn anffodus, fel y soniwyd yn gynharach, roedd y gyfradd ymateb yn siomedig ac felly roedd y canlyniadau'n ddangosol yn hytrach nac yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r Siartiau isod yn dangos ymatebion i gwestiwn cyffredinol ynghylch i ba raddau cafodd anghenion yr unigolion eu bodloni (Siart 21) ac i ba raddau cafodd rhai anghenion penodol eu bodloni (Siart 22). Tra bod ychydig o'r ymatebion yn negyddol, mae'r rhan helaeth yn gadarnhaol neu'n cydnabod fod rhai camau wedi'u gweithredu i helpu o leiaf.

6.2.10. Dyfyniadau gan yr unigolion oedd yn cymryd rhan:


> *"Roedd fy mentor yn fy annog i wirfoddoli a fy helpu i ddod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli yn gymorth aruthrol"*
>
> *"Mae'r holl fentoriaid yn wych a bu iddyn nhw deilwra'u cymorth i fodloni'ch anghenion personol chi. Prosiect anhygoel yn enwedig gan fod fy amgylchiadau yn gymhleth a doedd dim cymorth arall ar gael imi."*
>
> *"Dylid cynnig treuliau"*



RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP


**Siart 21: Asesiad Unigolion : A oedd y Gymorth yn Addas i'ch Amgylchiadau (e.e., Iechyd / Rhyw / Ethnigrwydd / Oedran)**

*(Ffynhonnell Arolwg Unigolion sy'n Cymryd Rhan yn CCG 2022 o 74 o Ymatebion gyda 3 Heb Ymateb – Yn Nodi Cyfradd Ymateb Gymedrol)*




**Siart 22: Asesiad Unigolion: A wnaeth Cymorth CCG Fodloni Unrhyw Anghenion Penodol?**

*(Ffynhonnell Arolwg Unigolion sy'n Cymryd Rhan yn CCG 2022 o 72 o Ymatebion gyda 5 Heb Ymateb – Yn Nodi Cyfradd Ymateb Gymedrol)*






RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

## Gweithdy Cydraddoldeb

6.2.11. Fel rhan o'r gwaith ar gamau terfynol y gwerthusiad, fe gynhaliwyd gweithdy cydraddoldeb bach i fuddiolwyr (Gorffennaf 2022) i fwrw golwg ar a dilysu canfyddiadau ynghyd â chadarnhau gwaith gwerthuso ynghylch yr hynny sy'n effeithiol o safbwynt cydraddoldeb. Ar y cyfan, bu i hyn gadarnhau canfyddiadau blaenorol gyda dysgu megis:

a. Mae CCG yn hyblyg dros ben, a dydy ei feini prawf cymhwysedd ddim yn diarddel pobl.

b. Bu i CCG gynnig cymorth penodol i fodloni anghenion unigol (gan gynnwys mynd i'r afael â dyledion, tlodi bwyd, digartrefedd) a hybu hyder a sgiliau cymdeithasol fel rhagofynion cyn cychwyn ar lwybrau tuag at waith neu wirfoddoli.

c. Awgrym bod galw cynyddol am gymorth i bobl gydag anghenion dysgu ychwanegol ac Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth gydag ymdeimlad bod rhaglenni prif ffrwd yn ailgyfeirio'r unigolion hyn, gan nad ydyn nhw'n sicr pa gymorth i'w gynnig iddyn nhw.

d. Bu i'r CCG alluogi mudiadau i gyrraedd mwy o bobl nac erioed o'r blaen: nid o reidrwydd o sylfaen cleientiaid newydd, ond gan helpu mwy o bobl mewn angen yn eu grŵp cleientiaid presennol.

e. Mae pobl sy'n anweithgar yn economaidd a allai fod yn fregus yn fwy anodd eu hadnabod pan nad ydyn nhw mewn unrhyw 'system' penodol felly mae mudiadau buddiolwyr yn ceisio ymgysylltu gyda nhw drwy estyn llaw tuag at wasanaethau y gallai'r unigolyn fod wedi bod ynghlwm â nhw megis banciau bwyd neu feddygfeydd.

f. Dydy rhai grwpiau ethnig lleiafrifol ddim yn ceisio cymorth gan y gallai gwneud hynny gael ei ystyried yn fethiant yn eu diwylliant nhw: mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd ymgysylltu lle gall fod rhwystrau iaith eisoes.

g. Cynnig hyfforddiant a chymwysterau mewn ffordd wahanol i sefydliadau addysg 'safonol' a allai fod â'u rhwystrau eu hunain fodd bynnag mae'n bosibl na fyddai hyn ar gael mewn ardaloedd cefn gwlad.

h. Gall cymhlethdod gweinyddol ac iaith gwaith papur fod yn rhwystr a gallai digalonni unigolion posibl, yn enwedig i bobl lle nad ydy Cymraeg na Saesneg yn iaith gyntaf iddyn nhw a phan fo angen cymorth gyda llythrennedd a rhifedd ar yr unigolyn.

## Ar y cyfan a wnaeth y CCG fynd i'r afael â Chydraddoldeb yn Effeithiol?



RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

6.2.12. Do. Roedd yn hollgynhwysol a bu iddo gyfrannu tuag at nodau Llywodraeth Cymru ynghylch cydraddoldeb. Ymysg yr enghreifftiau eglurhaol mae'r canlynol:

a. Mae'r gymhareb o unigolion CCG oedd yn ddynion a merched yn 55% / 45%, ond mae'r gymhareb o gymwysterau mae dynion a merched wedi'u cyflawni yn 50% / 50% (gwelwch Siart 5).

b. Mae'r dadansoddiad sgiliau meddal yn dangos fod asesiadau dynion a merched Du, Asiaidd ac o gefndiroedd Ethnig Lleiafrifol yn gadarnhaol ar y cyfan o ran sut bu i'r CCG eu helpu i oresgyn rhwystrau rhag dod o hyd i waith (gwelwch Siart 9) ond bu i fwy o ferched ymgysylltu na dynion (551 o ferched o gymharu â 496 o ddynion).

6.2.12. Mae data'r CCG yn cynnwys data wedi'i ddilysu wedi'i gaffael o ofyniad bod cyrff buddiolwyr yn cofnodi lle mae gan unigolion sy'n cymryd rhan weithgareddau neu elfennau mewn hyfforddiant a chymorth sy'n mynd i'r afael yn benodol ag agwedd o gydraddoldeb fel gofynion ehangach: mae data CCG hyd at Orffennaf yr 31ain yn cofnodi bod 13,769 o unigolion wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd neu hyfforddiant penodol sy'n meithrin cydraddoldeb.

## Sut mae'r unigolion CCG yn Bodloni Targedau'r Cynllun Busnes Gwreiddiol yng Nghyd-destun Cydraddoldeb a Chynhwysiant?

6.2.13. Mae hwn yn gwestiwn anodd i'w ateb o ystyried natur y ffordd cafodd y targedau eu gosod a'r tyndra rhwng y fethodoleg targedu a chynllun y rhaglen (gwelwch Adran 3.2.), a hyn yn arbennig oherwydd fod y CCG yn destun cyfres o ymarferion ailbroffilio sylweddol yn ystod pob un o'r tri cham am resymau pragmatig cadarn (gwelwch Adran 3.3.).

6.2.14. Yn y cyd-destun hwn, mae'n debyg y byddai'n fwy ymarferol i fwrw golwg ar y feirniadaeth o sut bu i'r CCG lwyddo'n gyson i gyrraedd pobl o'r grwpiau targed amrywiol ar y cyfan. Bu'r CCG yn elfen bwysig yn seilwaith adeiladwaith polisi a rhaglenni llawer mwy ac mae wedi chwarae rhan benodol wrth feithrin arbenigedd a gallu y tu hwnt i'r gweithredoedd prif ffrwd ynghlwm â'r meysydd chyflogadwyedd, llesiant a lles. Mae'n debyg bod p'un a oedd yn bodloni'r disgwyliadau cafodd eu gosod yn ystod haf 2015 yn gyfan gwbl yn llai craidd i'r cwestiwn a wnaeth o lwyddo i gyfrannu'n gynhyrchiol at her lawer ehangach yng Nghymru. Mae'r gwerthusiad hwn yn cadarnhau ei fod wedi llwyddo.

6.2.15. Er ei fod y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad hwn, mae gwerth arfaethedig mewn trosolwg gan Lywodraeth Cymru o fuddsoddiad ac effeithiau CGE er mwyn asesu sut wnaeth y rhaglenni amrywiol gyda'i gilydd gyrraedd – neu beidio â chyrraedd – y grwpiau oedd wedi'u targedu mewn perthynas ag angen wedi'i hysbysu ledled Cymru.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

## 6.3. Ydy CCG wedi cyfuno Datblygiad Cynaliadwy gyda Chodi Ymwybyddiaeth, Addysg a Hyfforddiant

6.3.1. Nod craidd CCG oedd cefnogi pobl oedd yn wynebu – neu oedd ar fin goresgyn – amgylchiadau heriol. Roedd y rhaglen hon yn canolbwyntio ar gaffael sgiliau bywyd angenrheidiol a lleoliadau a hyfforddiant ymarferol yn ymwneud â gwaith. Mae cynaliadwyedd yn feta-amcan, ond nid yw wedi'i ddiffinio'n benodol o ran gofynion dyfarniadau neu'r gweithgareddau gaiff eu hariannu. Yn ymarferol:

a) Mae gan y rhan fwyaf o fuddiolwyr ymrwymiad at gynaliadwyedd gaiff ei ddangos mewn gwahanol ffyrdd: gall mudiad gyda phrif bwrpas o roi cefnogaeth i ddioddefwyr trais yn y cartref ailgylchu neu ddefnyddio cynnyrch masnach deg mewn gweithgareddau dyddiol ond bod cynaliadwyedd ddim wedi'i nodi fel prif amcan.

b) Mae nifer o fuddiolwyr yn ymgorffori cynaliadwyedd yn weithredol i mewn i'w cynnig i'r rhai sy'n cymryd rhan, ac i rai, mae cynaliadwyedd yn brif yrrwr, er enghraifft, wrth annog rheoli coetir cynaliadwy, deall ecoleg neu greu swyddi yn ymwneud ag adnewyddu dodrefn neu offer y cartref er mwyn lleihau gwastraff.

c) Mae system ddata CCG yn cynnwys data wedi'i ddilysu o ofyniad bod cyrff buddiolwyr yn cofnodi lle mae gan unigolion weithgaredd neu elfen benodol o hyfforddiant a chymorth sy'n mynd i'r afael yn benodol ag agwedd ar gynaliadwyedd: bu i ddata CCG hyd at Orffennaf yr 31ain gofnodi bod 12,707 o unigolion wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch o'r fath.

d) Yn ymarferol, mae sbectrwm priodoliad yn amrywio o bod cynaliadwyedd yn greiddiol i'r prosiect CCG, i fod yn gymharol ymylol. Fodd bynnag mae gwaith maes y gwerthusiad yn ategu'r ffaith bod nodau datblygu cynaliadwy wedi'u hadlewyrchu'n fras ond nid yn gyffredinol mewn prosiectau CCG.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

**Darlun:** ymgysylltu gydag unigolion sy'n lleiaf tebygol o ddod o hyd i waith gyda phroblemau corfforol a meddyliol iechyd cymhleth gan gynnwys anableddau dysgu.

Mae'r prosiect yn cynnig sgiliau, profiad gwaith a chymwysterau i'r rhai sy'n cymryd rhan, yn cryfhau eu CV ac yn eu helpu i fagu hyder i chwilio am waith gyda thâl, er enghraifft, annog y rhai sy'n cymryd rhan i ystyried beth hoffan nhw ei wneud, ychwanegu at eu profiadau ac annog creadigedd. Bu'r buddiolwr yn gweithio gyda mudiadau lleol sy'n ymgysylltu gydag amrywiaeth, er enghraifft, rhai archfarchnadoedd, ar gyfer lleoliadau gwaith. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn rhannu profiadau, heriau a phroblemau: maen nhw'n mynd allan gyda'i gilydd yn aml er mwyn annog ethos o dîm, gan gasglu sbwriel ar draeth yn ddiweddar fel rhan o'r cwrs amgylcheddol. Bu i un person oedd yn cymryd rhan (sydd ag awtistiaeth) ysgrifennu cerdd o ganlyniad i hyn

*"Rydw i wedi gwneud ffrindiau da iawn"*

*"Mae'n dda gwybod nad ydym ni ar ein pennau ein hunain gyda'n problemau a'n anawsterau – fe allwn ni rannu ein rhwystredigaeth"*

*"Rydw i wedi dysgu i wneud cyflwyniadau – fuaswn i byth wedi meddwl y buaswn i'n gallu sefyll o flaen pobl a siarad – ond mi alla' i. Mae'n teimlo'n wych. Mae gen i gymaint fwy o hyder."*

*"Roeddwn i'n arfer bod mor nerfus wrth siarad gyda phobl eraill, pobl nad ydw i'n eu hadnabod, dydw i ddim yn poeni bellach"*

*"Fuaswn i byth wedi dychmygu y buaswn i'n mwynhau casglu sbwriel ar draeth gymaint – roedd yn gymaint o hwyl, fe gawsom ni amser gwych ac yn bwysicach, roeddem ni'n teimlo ein bod ni'n gwneud rhywbeth da, ac roedd hyn hefyd yn gwneud imi deimlo'n dda."*

## 6.4. Sut cafodd Dewis Iaith ei Adnabod a'i Fodloni

6.4.1. Roedd y canlynol ynghlwm â methodoleg y gwerthusiad:

a. Cyfweliadau gyda buddiolwyr ac unigolion er mwyn ehangu dealltwriaeth o ddewis iaith, yn ogystal â dau arsylwad trylwyr gyda buddiolwyr a'r unigolion yn ymwneud â hyn yn benodol.

b. Adolygiad ehangach ynghylch y galluogwyr a'r rhwystrau o ran y defnydd o Gymraeg yn benodol mewn cyd-destunau megis y CCG.

6.4.2. Mae papur ar wahân yn ymhelaethu ar ganfyddiadau'r grynodeb sydd wedi'u crybwyll isod: '*Meithrin y Defnydd o'r Gymraeg: Gwersi o'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol'*.

6.4.3. Ar y cyfan, mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn atseinio ymchwil arall gan gynnwys adroddiad Cyngor Ar Bopeth ynghylch y defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus, "Saesneg yn ddiofyn – *Deall y defnydd a'r diffyg defnydd o wasanaethau Cymraeg"* (2015).



RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

6.4.4. Mae CGGC yn mynd ati i feithrin y Gymraeg ac roedd siaradwyr Cymraeg ar gael ar gyfer CCG. Mae gan CGGC rôl ehangach mewn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel sydd wedi'i gydnabod gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

6.4.5. **Yr Her:**

a. Bu i gyfran fach o unigolion oedd yn rhan o'r CCG ddewis yn ffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gyntaf (2%). Fodd bynnag, y tu hwnt i ymgysylltiad penodol oedd yn canolbwyntio ar yr iaith Gymraeg, ar y cyfan ni fu i'r buddiolwyr a'r unigolion godi unrhyw faterion o ran dewis iaith neu ddefnyddio Saesneg y tu hwnt i ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (roedd croeso cyffredinol i ddatblygiadau CGGC yn ystod y CCG o ran gwella gwasanaethau Cymraeg).

b. Mae'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn llawer amlycach na'r defnydd ffurfiol mewn dogfennau a phrosesau swyddogol, gan adlewyrchu profiad ac ymchwil ehangach, a her gyffredin yng Nghymru.

c. Mae Saesneg yn dueddol o gael ei derbyn fel y norm a'r iaith ddiofyn.

d. Roedd buddiolwyr mewn ardaloedd lle'r oedd llawer o'r trigolion yn siarad Cymraeg yn ystyried y Gymraeg yn bwysig: mae'r mudiad yn ei ddefnyddio'n rheolaidd ac fel iaith gymunedol a gallai hefyd fod yn anghenraid i fanteisio ar gyfleoedd gwaith. Hefyd, mae siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwy cyfforddus yn mynegi eu hunain drwy gyfrwng y Gymraeg – mae'n bwysig er mwyn cefnogi rhai unigolion bregus.


6.4.6. Nid yw'r 2% o unigolion oedd yn rhan o'r CCG, wnaeth gofnodi eu bod yn dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg fel iaith gyntaf, yn nodi i ba raddau yr oedd y Gymraeg yn gyfrwng cyfathrebu mewn prosiectau CCG.

6.4.7. Gwnaeth nifer sylweddol o'r buddiolwyr ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud gyda'r unigolion mewn sefyllfa gymdeithasol anffurfiol ond doedden nhw ddim yn ei ystyried fel rhan annatod o'r gwasanaeth i'w cleientiaid. Bu i leiafrif ddefnyddio Cymraeg yn ffurfiol yn eu hyfforddiant sgiliau, ond bu i lawer mwy ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'r unigolion oedd yn cymryd rhan.

6.4.8. Roedd unigolion Cymraeg eu hiaith oedd yn cymryd rhan yn fodlon defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu ond roedden nhw'n llawer llai hyderus ac yn amharod i ddefnyddio'r Gymraeg yn ffurfiol, yn enwedig wrth gwblhau ffurflenni swyddogol: fodd bynnag, efallai y bydd llawer o unigolion yn wyliadwrus ynghylch unrhyw ymgysylltiad gyda 'swyddogion'.

6.4.9. Mae Siart 23 yn dangos hyn gan gyferbynnu'r 2% â'r graddau ehangach y gallai pobl fod â gallu i siarad y Gymraeg.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP




6.4.10. Mae amharodrwydd pobl sy'n medru'r Gymraeg i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg yn seiliedig ar:


a. Rhwystrau strwythurol gyda diffyg dewis neu allu i gyfathrebu yn y Gymraeg; a

b. Rhwystrau ymddygiadol: diffyg hyder yn ansawdd y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, ofn o gamddealltwriaeth wrth weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, a phryder bod Cymraeg yn 'rhy ffurfiol' neu'n rhy 'dechnegol'.

6.4.10. Gellir cyflawni targedau hirdymor ac uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i feithrin y Gymraeg fel iaith gyntaf fwyfwy yn rhannol, er enghraifft drwy'r system addysg. Fodd bynnag, mae her ledled Cymru sy'n awgrymu newid diwylliannol yn ogystal ag ymarferol gyda defnydd mwy rhagweithiol o'r Gymraeg fel yr iaith ddiofyn a'r Saesneg fel ail ddewis ac nid y dewis diofyn.

6.4.11. Enghraifft o hyn ydy'r ffaith, o'r 2% o'r unigolion oedd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn y CCG, roedd y grŵp mwyaf o'r rheiny yn 18 – 24 oed (gwelwch Siart 22 isod).


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP




6.4.12. Bu i'r gwerthusiad ganfod bod yr agweddau lliniarol sydd o blaid meithrin y defnydd o'r Gymraeg yn ymwneud â'r canlynol:

a. **Diwylliant sefydliadol**: bydd mudiadau sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n hyderus yn ei defnyddio gyda siaradwyr Cymraeg digonol mewn gwell sefyllfa i gefnogi ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destun anffurfiol a ffurfiol. Mae'n ymddangos bod meddu ar siaradwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg hefyd yn annog mwy o unigolion a mudiadau i gynnal busnes drwy gyfrwng y Gymraeg.

b. Dylai **Prosesau cynllunio** asesu lle mae angen sgiliau Cymraeg ac, enghraifft, gallan nhw ofyn i fudiadau Cymraeg eu hiaith eu cynorthwyo. Dylai siaradwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg fod ynghlwm â phob swyddogaeth sy'n ymwneud â gweinyddu rhaglenni.

c. **Annog a mabwysiadu enghreifftiau o arfer da**, e.e., cynlluniau megis 'Cynnig Cymraeg / Welsh Offer'.

d. **Cefnogi staff** i deimlo'n fwy hyderus yn eu gallu i siarad Cymraeg a chreu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

e. **Monitro dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth** drwy gydol taith y defnyddiwr er mwyn sicrhau caiff cyfleoedd eu cynnig i ddefnyddio'r Gymraeg drwyddi draw.

f. **Symlder ac eglurder o ran defnydd ffurfiol o'r Gymraeg**: sicrhau bod modd i fudiadau adolygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn dogfennau, gwefannau ac ati er mwyn mynd i'r afael â phryderon bod y Gymraeg yn 'rhy dechnegol'.

g. **Defnyddio cymhorthion TG**: bu i'r pandemig COVID 19 ysgogi arferion gweithio ar-lein newydd, gyda rhai yn debygol o barhau ynghlwm â chyflawni gwasanaeth yn y dyfodol: cyfle i estyn gwasanaethau Cymraeg drwy ddefnyddio Rhaglenni Ffôn megis 'Vocab' (sy'n defnyddio geiriadur wedi'i ddatblygu gan Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor i helpu gwefannau i ddefnyddio Cymraeg symlach ac sy'n haws ei darllen).

6.4.13. Roedd dau buddiolwr gafodd eu cyfweld yn ymwneud gydag unigolion oedd yn chwilio am iaith lle'r oedd Arabeg ac Wrdw yn iaith gyntaf iddyn nhw. Nod cymorth CCG oedd gwella cyfleoedd i ddod o hyd i waith a bu iddyn nhw ymuno â CCG o grŵp o fyfyrwyr oedd yn cyflawni cyrsiau 'Saesneg fel Iaith Dramor' er mwyn cynnig cyfle iddyn nhw hybu eu hyder a datblygu eu sgiliau.

# Adran 7: Trosolwg: A oedd CCG yn Llwyddiannus a'r Gwersi ar gyfer y Dyfodol?

## 7.1. Trosolwg: A oedd CCG yn Llwyddiannus?

7.1.1. Fe wnaeth CCG gyrraedd grwpiau wedi'u targedu a 'gwneud gwahaniaeth' o ran eu bod wedi llwyddo i helpu nifer o bobl oedd yn wynebu heriau.

7.1.2. Ar y cyfan, bu i CCG ychwanegu elfen hyblyg ym mholisi cyflogadwyedd Cymru gyda gwerth mewn cynnig cymorth wedi'i deilwra'n arbennig lle:

a. Nad oedd modd bodloni'r anghenion yn gyfan gwbl drwy ddulliau sefydliadol mwy; ac

b. Ymwneud gyda grwpiau sydd yn nodweddiadol y tu hwnt i gyrraedd mentrau cyflogadwyedd prif ffrwd.

7.1.3. Roedd CCG yn unigryw gan ei fod yn estyn ledled Cymru yn ogystal ag yn gallu gweithredu ar lefel micro neu leol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol ledled Cymru (fodd bynnag roedd yr olaf yn anarferol).

7.1.4. Roedd gan CCG rai agweddau arbennig a oedd yn annatod i sicrhau deilliant llwyddiannus o ganlyniad i'r rhaglen. Er nad oedden nhw'n unigryw yn unigol, pan


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

gyfunwyd nhw roedden nhw'n hwyluso cyfraniad penodol y byddai polisïau a rhaglenni cyfoes eraill yn trafferthu i fynd i'r afael â nhw.

7.1.5. I raddau helaeth, roedd modd galluogi'r cyfraniad hwn gan hyblygrwydd anarferol o eang a chynhenid i ddiwallu anghenion lleol, unigol a phenodol amrywiol: doedd dim fformiwla nac ychwaith dull unigol i ymgysylltu gydag a chynorthwyo unigolion oedd yn cymryd rhan.

7.1.6. Roedd CCG yn gweithredu ar drothwy amcanion cyflogadwyedd, llesiant a lles ac felly roedd yn gallu mynd i'r afael â llesiant unigol, ffordd o fyw, hyder a sgiliau meddal hefyd sydd yr un mor bwysig â chaffael sgiliau penodol yn ymwneud â gwaith o ran tywys pobl sy'n wynebu heriau ar hyd llwybr tuag at waith neu rôl wirfoddol hirdymor.

7.1.7. Bu i'r rhaglen ychwanegu gwerth o ganlyniad i ymgysylltu gyda chyrff amrywiol gyda sgiliau a phrofiad eang i gefnogi unigolion a grwpiau sydd yr un mor amrywiol. Yn benodol, bu iddo gynnal a datblygu rôl a chapasiti sector gwirfoddol ar raddfa er mwyn paratoi mudiadau a oedd yn fwy cyfarwydd gyda'r grwpiau neu gymunedau oedd wedi'u targedu'n nodweddiadol ac a oedd yn gallu rhoi deallusrwydd emosiynol ar waith er mwyn diwallu eu hanghenion. Bu i'r buddsoddiad hwn ategu a datblygu capasiti a hynny dros nifer sylweddol o flynyddoedd drwy raglenni olynol (roedd y rhai allweddol wedi'u hariannu gan CGE).

7.1.8. Roedd y mudiadau buddiolwyr hyn yn aml yn rai bach ac mewn rhai achosion, mae'n bosibl bod y staff wedi wynebu amgylchiadau tebyg i'w unigolion oedd yn cymryd rhan. Bu iddyn nhw gynnig eu hymrwymiad a brwdfrydedd i greu cyfleoedd, er enghraifft, i ganfod neu greu cyfleoedd arloesol, megis ymgysylltu gyda marchnadoedd lleol newydd (a micro yn aml) neu weithgareddau economaidd a allai sicrhau twf. Mae'r cyfleoedd 'arbennig' hyn yn aml iawn y tu hwnt i faes rhaglenni prif ffrwd mwy.

7.1.9. Bu i CCG hefyd ychwanegu gwerth ynghlwm â'r canlynol:

a. Ehangu'r gronfa o fudiadau sy'n meddu ar wybodaeth leol berthnasol a'u paratoi i gyrraedd grwpiau sydd wedi'u targedu gan y rhaglen.

b. Estyn cysylltiad cymunedol er mwyn cyrraedd grwpiau wedi'u targedu gyda chymuned a ddiffinnir yn eang i gynnwys ardal ond hefyd grwpiau penodol megis y rheiny sy'n gwella o drais yn y cartref, y rheiny gydag anawsterau dysgu neu Bobl Ddu, Asiaidd neu o gefndiroedd Ethnig Lleiafrifol.

c. Ar ei gorau, meithrin rhwydweithio lleol er mwyn dwyn mudiadau ynghyd a chyfeirio pobl at y cymorth priodol.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

d. Cynnig cymorth angenrheidiol (hanfodol gan amlaf) personol a wedi'i deilwra i unigolion: er nad ydy hyn yn unigryw i CCG, bu i'r rhaglen ehangu cyrhaeddiad rhaglenni cyflogadwyedd Cymru ymysg y grwpiau hynny oedd yn lleiaf tebygol o ymgysylltu gyda mwy o gynigion prif ffrwd o gymorth.

e. Paru'r bobl briodol gyda'r swydd neu ddeilliant priodol ar gyfer yr unigolyn.

f. Eto, nid yw'n unigryw, ond wrth gynnig lleoliadau gwaith, bu i CCG leihau'r risg i gyflogwyr: roedd patrwm cyfarwydd lle'r oedd unigolion yn cychwyn drwy dderbyn cymorth neu fanteisio ar leoliadau ac yna yn dod o hyd i waith neu rôl wirfoddoli mwy hirdymor gyda'r darparwr cymorth neu gyflogwr y lleoliad oherwydd y berthynas glós a ffurfiwyd drwy'r cymorth neu'r lleoliad cychwynnol.

7.1.10. Mae'r ddogfen atodol *'Ymarfer Da mewn Helpu Pobl i ddod o Hyd i Waith: Gwersi gan Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC yn adnabod nodweddion cynllun rhaglen a pherfformiad buddiolwyr da yn y cyd-destun hwn ynghyd ag astudiaethau achos eglurhaol.*

7.1.11. Ymhlith y gydnabyddiaeth gyson o werth CCG a rôl CGGC ynddo, beirniadaeth gyson oedd bod gofynion a systemau gweinyddol CCG yn achosi rhwystredigaethau eang. Roedd y systemau hyn wedi'u cynllunio i fodloni gofynion UE felly mae sefyllfa polisi a rhaglen ar ôl Brexit yn gyfle i roi systemau priodol a chymesur ar waith yn y dyfodol. Mae Adran 3.2 yn archwilio hyn yn fanylach.

| |
|---|
| Unigolyn oedd yn rhan o CCG a gafodd ei chyflogi wedyn gan y corff buddiolwr wnaeth ei chefnogi hi: "*Mae hi wedi bod yn wych imi, a dw i wirioneddol yn golygu hynny, bu'n brofiad anhygoel a hyd yn oed rŵan, dw i'n edrych ymlaen at godi yn y bore a gweld pobl… mae'n bechod na fyddai'n parhau a dwi'n teimlo'n drist ac yn emosiynol am hynny. Os ewch chi rhagddi i gymryd rhan mewn prosiect CCG fel fi a'i gydio gerfydd ei war a manteisio i'r eithaf arno, mae'n gwbl lwyddiannus, wir yr*" |

**Materion sy'n Codi**

7.1.12. Hefyd, bu i dri chwestiwn perthnasol godi sydd ddim yn feirniadaeth o'r CCG ond yn ystyriaethau sydd wedi'u crybwyll yn adran 7.2 isod ynghylch bwrw golwg ar ddysgu ar gyfer y dyfodol, yn benodol:

a. Cymorth ar gyfer y rheiny sy'n 'anodd eu cyrraedd / nas clywir yn aml': bu i nifer o unigolion elwa o gymorth CCG ond roedden nhw'n parhau i fod ymhell o'r marchnadoedd llafur yn sgil eu hamgylchiadau : mae cyflogadwyedd yn bwysig, ond fe ddylai gwirfoddoli ac ymgysylltu adeiladol â'r gymuned barhau i fod wrth wraidd yr amcanion hyn fel



RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

deilliannau llwyddiannus : dydy pawb ddim yn debygol o ymuno â'r farchnad lafur ond mae yna dal buddion sylweddol ynghlwm â chefnogi pobl i fynd rhagddi i fyw bywydau mwy buddiol.

b. Mae hyn yn ymestyn i ystyried gwerth datblygu llwybrau cymorth ar gyfer unigolion o'r fath er mwyn sicrhau bod modd iddyn nhw feddu ar gymorth parhaus a phriodol am gyhyd ag y mae ei angen arnyn nhw i fynd rhagddi i fyw bywydau gwell a dod o hyd i waith, rôl wirfoddol neu pa bynnag ddewis byddai orau i'r unigolyn (er enghraifft, bu i CCG gynhyrchu enghreifftiau lle mae cymryd rhan yn arwain at unigolion neu grwpiau'n cymryd cyfrifoldeb dros hunan-gymorth cadarnhaol neu gamau gweithredu i helpu eraill sydd y tu hwnt i'r farchnad lafur).

c. Er bod amgylchiadau economaidd yn gyfnewidiol, mae nifer o unigolion yn wynebu ansicrwydd ynghylch a oes gwaith addas ar gael iddyn nhw: gan edrych tua'r dyfodol, mae gwerth felly ynghlwm â meithrin perthnasau agosach gyda chyflogwyr arfaethedig i ddeall yn well a hysbysu lle mae'r cyfleoedd, sut i fanteisio arnyn nhw a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau a allai atal deilliant llwyddiannus i'r cyflogwr a'r gweithiwr. Gallai hyn, er enghraifft, ymwneud â rhoi cynnig ar gyfleoedd a chymorth drwy ymrwymiadau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol.

**Safbwyntiau'r Buddiolwyr**

7.1.13. Mae'r gwerthusiad hwn yn cadarnhau gwerth ymgysylltu gyda'r trydydd sector mewn trefniadau yn y dyfodol o ran cefnogi'r rheiny sydd wedi'u hymylu fwyaf neu sy'n wynebu'r mwyaf o heriau am y rhesymau sydd wedi'u crybwyll uchod ac mewn adrannau blaenorol. Mae'r farn hon yn eang, yn enwedig fel y gellid ei ddisgwyl gan fudiadau buddiolwyr CCG ond hefyd gan randdeiliaid ehangach. Yn arbennig:

a. Roedd barn gyffredin fod gan y sector gwirfoddol rôl werthfawr i'w chwarae o ran gweithio gyda'r rheiny 'sy'n anodd eu cyrraedd' / y rheiny 'nas clywir yn aml'. Mae hyn law yn llaw â phryder y byddai adnoddau naill ai'n gyfyngedig neu ddim ar gael o gwbl yn y dyfodol a byddai hyn yn tanseilio gallu'r sector gwirfoddol i chwarae rhan a bydd y bobl sy'n wynebu'r amgylchiadau mwyaf heriol yn cael ei hesgeuluso.

b. Tra byddai'n anghywir i awgrymu bod mudiadau mwy (a hynny'n rhai sector gwirfoddol, cyhoeddus neu breifat) methu â dangos deallusrwydd emosiynol, mae'n rhesymol honni bod systemau a rhaglenni sefydliadol sy'n gweithredu ar raddfa helaeth yn llai addas i ddiwallu anghenion sydd wedi'u teilwra'n drylwyr ac unigol y rheiny sydd ymhellach o'r farchnad lafur oherwydd eu hamgylchiadau.

7.1.14. Yn ychwanegol i ymgysylltu gyda nifer helaeth o fudiadau buddiolwyr drwy gyfweliadau, astudiaethau achos a grwpiau ffocws yn ystod pob cam o'r




RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP


gwerthusiad, bu i'r gwerthusiad wirio asesiadau buddiolwyr o werth CCG mewn arolwg byr yn 2022.

7.1.15. Er na chafwyd llawer iawn o ymatebion i'r arolwg oherwydd roedd rhai buddiolwyr yn 'rhoi'r gorau' i waith CCG neu'n gweithio'n galed i gwblhau prosiectau wedi'u hariannu, maen nhw'n ategu canfyddiadau ehangach y gwerthusiad.

7.1.16. Roedd CCG yn adnodd galluogi pwysig; hoffai nifer o fudiadau buddiolwyr barhau i gynnal gweithgareddau sydd wedi'u cefnogi'n flaenorol gan CCG ond mae diffyg adnoddau yn debygol o atal y gallu i wneud hynny.


7.1.17. Mae Siartiau 25, 26 a 27 isod yn egluro hynny.





RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP




## 7.2. Gwersi ac Egwyddorion Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

7.2.1. Mae'r adran hon yn disgrifio sut gallai dysgu o'r profiad CCG lywio polisi a rhaglenni yn y dyfodol mewn perthynas â'r rheiny sydd fwyaf ymylol neu sy'n 'anodd eu cyrraedd / nas clywir yn aml'.

7.2.2. **Egwyddor cynllunio 1: dylai systemau gynnig ymgysylltiad tymor hirach a chyson gydag unigolion ynghyd â gwell cydweithio a rhannu data rhwng mudiadau.**

7.2.3. Mae'r sefyllfa cyflogadwyedd ar ôl Brexit sy'n dod i'r amlwg a'r sefyllfa polisi a rhaglenni llesiant a lles yng Nghymru'n parhau i fod yn gymhleth. Yn nodweddiadol, bu rhaglenni yn y gorffennol yn rhai tymor byr gan amlaf. Gallai hyn fod yn anghydnaws ag anghenion cymorth y rhai sy'n wynebu amgylchiadau heriol sydd fel arfer angen cymorth parhaus a chyson i fyw bywydau mwy sefydlog a magu hyder cyn datblygu sgiliau a phrofiad yn y gweithle.

7.2.4. Dydy ymyriadau stacato ac sydd heb eu cydlynu gan amryw fudiadau ddim yn debygol o fod yn llwyddiannus.

7.2.5. **Egwyddor cynllunio 2: cynnal cyswllt a chymorth parhaus i unigolion cyhyd ag y bo'i angen**.

7.2.6. Yn aml iawn, mae angen map trywydd wedi'i deilwra ar bobl sydd wedi'u targedu ar gyfer CCG os mai gwaith neu rôl wirfoddoli ydy'r deilliant gofynnol yn y pen draw. Roedd hyn yn cynnwys angen am *fentora* neu *gymorth personol* i helpu pobl drwy'r camau angenrheidiol er mwyn hybu cyfleoedd yr unigolion i elwa o'r profiad hwnnw ac i sicrhau bod *unigolyn neu fudiad y gellir ymddiried ynddyn nhw* wrth law i helpu os bydd unrhyw rwystrau.

7.2.7. Gellir llunio cyfatebiaethau gyda hyfforddiant neu therapi proffesiynol (a hyd yn oed magu plant) lle caiff y cymorth angenrheidiol ei gynnig ond y nod ydy


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

datblygu sgiliau a gallu a hybu hyder i feithrin annibyniaeth yn hytrach na dibyniaeth. Mae hyn hefyd yn awgrymu y dylai'r rhaglenni fod yn ddetholus ynghlwm ag ymgysylltu gyda darparwyr cymorth addas a gosod meini prawf sy'n gwirio'u gallu o ran cefnogi unigolion yn y modd priodol a phenodol hon. Mae Siart 28 isod yn dangos y gallai hyn fod yn llwyddiannus.


7.2.8. **Egwyddor Cynllunio 3:** mabwysiadu a gweithredu dulliau mwy systematig ynglŷn ag ailgyfeiriadau rhwng mudiadau, er enghraifft drwy arferion cyffredinol, canolfannau gwaith, gwasanaethau cymdeithasol, adrannau datblygu economaidd awdurdodau lleol ac ysgolion o bosibl.

7.2.9. **Egwyddor Cynllunio 4:** rhoi prosesau brysbennu cydweithredol ar waith wrth gefnogi'r rheiny sy'n wynebu'r heriau mwyaf difrifol, ar gyfer:

a. Bwrw iddi i ymgysylltu gydag unigolion a chynnal gweithgareddau; a

b. Cynllunio cymorth mwy hirdymor ar gyfer unigolion ynghlwm â mudiadau allweddol sydd angen ymgysylltu gyda nhw er mwyn cynllunio llwybrau cymorth a mentora a chymorth priodol iddyn nhw (gwelwch Siart 28 isod hefyd).

Siart 28 **Enghraifft: Llwybr Posibl i'r Rhai sy'n Cymryd rhan o fod yn Ymgysylltu i fynd mewn i Waith**




7.2.10. **Egwyddor Cynllunio 5:** dylid teilwra cymorth i fodloni anghenion yr unigolyn. Mae gan bobl 'anodd eu cyrraedd' anghenion a rhwystrau amrywiol a chymhleth fel arfer rhag dod o hyd i waith felly mae angen darparu cymorth effeithiol sy'n ddeallgar, ymatebol a sensitif i'r anghenion hyn. Yn benodol,



RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

mae ymddiriedaeth unigolion yn allweddol gyda thystiolaeth yn dynodi bod staff neu fudiadau gyda chysylltiadau cryf â'r gymuned (wedi'i ddiffinio'n eang er mwyn cyfeirio at le neu grŵp) yn fwy effeithiol fel arfer, fel enghraifft wrth gydweithio gyda chymunedau ethnig lleiafrifol penodol.

7.2.11. **Egwyddor Cynllunio 6:** dylai cymorth gyfuno help i oresgyn rhwystrau a darparu sgiliau meddal gyda chymorth mwy penodol sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth. Bydd unigolion gydag anghenion cymhleth (er enghraifft, heriau iechyd meddwl ac iechyd corfforol, camddefnyddio sylweddau, digartrefedd, problemau troseddu ac ati) yn debygol o fod angen cymorth ynghylch mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn: h.y. bywyd sefydlog yn gyntaf ac efallai y bydd angen cymorth i fynd i'r afael â materion hunan-effeithiolrwydd a hunan-barch fel rhagofyniad i ymuno â'r farchnad lafur h.y., hybu hyder.

7.2.12. **Egwyddor Cynllunio 7**: ymwneud gyda'r grwpiau targed: yn ogystal â chynnal systemau ailgyfeirio ar y cyd rhwng mudiadau a rhannu gwybodaeth, mae meithrin ymddiriedaeth unigolion yn hollbwysig, yn enwedig oherwydd gallai'r rheiny sydd ymhellach o'r farchnad lafur, dybio bod rhaglenni a hyfforddiant cymorth cyflogaeth 'arferol' yn anniddorol neu gallan nhw fod wedi cael profiadau negyddol o gynlluniau cyflogaeth yn y gorffennol. Felly, mae'n rhaid i ddarparwyr cymorth ddeall y grŵp targed a'u hanghenion i sicrhau bod yr ymyriadau'n addas i'r unigolion sy'n cymryd rhan.

7.2.13. **Egwyddor Cynllunio 8:** rhoi trefniadau rhannu data ar waith fel rhan o gynllun y rhaglen a'u monitro.

7.2.14. **Egwyddor Cynllunio 9:** bodloni gofynion ariannu / cyllid cyfatebol cyson: gallai bod yn NEET yn Nwyrain Cymru fod yr un mor heriol ag yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd felly, er enghraifft, mae gwahanol gyllid cyfatebol rhwng ardaloedd sy'n bodoli o dan CGE yn annymunol yn gyffredinol. Bodolaeth ac anghenion y rheiny sydd angen cymorth sydd o'r pwys mwyaf.

7.2.15. **Egwyddor Cynllunio 10:** mae targedau rhaglen pendant yn hanfodol ond maen nhw'n rhoi pwysau ar ansawdd allbynnau a deilliannau i'r unigolion a'r gwerth hirdymor i'r unigolion hynny a'u cymunedau. Felly ewch ati i osod targedau rhifol sy'n realistig o ran ardaloedd lleol ac o ran y graddfeydd amser i'w cyflawni. Byddai targedu'r rheiny sy'n wynebu amgylchiadau heriol ac allai fod yn wyliadwrus yn anghydnaws â thargedau rhifol manwl iawn ar lefel lleol neu ag amserlenni sy'n rhy benodol: 'araf deg mae dal iâr'.

7.2.16. **Egwyddor Cynllunio 11:** datblygu swyddogaeth drosolwg strategol sydd ar wahân i (ond yn gysylltiedig gyda) trosolwg gweithredol er enghraifft er mwyn adolygu deilliannau ac effeithiau daearyddol ac os oes angen, er mwyn arwain y gwaith o ailgyfeirio'r rhaglen os na chaiff y targedau allweddol o ran allbynnau a deilliannau i unigolion eu bodloni.


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP


7.2.17. **Egwyddor Cynllunio 12:** dylai'r trefniadau gwerthuso ymwneud ag olrhain deilliannau'r unigolion ar ôl cwblhau'r prosiect, hyd at 2-3 blynedd yn ddelfrydol.

7.2.18. **Egwyddor Cynllunio 13:** mabwysiadau system data prosiect gyda modd priodol a rhwydd i'w ddefnyddio o gyflwyno data i'w weinyddu ond hefyd er mwyn sicrhau gallu dadansoddol i fonitro ac asesu deilliannau ac effeithiau ynghlwm â gweithiwr/gweithwyr ymchwil proffesiynol sy'n hyddysg mewn mesur a gwerthuso canlyniadau ac effaith.

7.2.19. **Egwyddor Cynllunio 14:** cynnal hyfforddiant, rhwydweithio a sesiynau rhannu gwybodaeth briodol ar gyfer y rheiny sy'n cynnig cefnogaeth gan gynnwys enghreifftiau o arfer da gan ddarparwyr sy'n gallu ac yn fodlon rhannu eu profiadau gydag eraill fel modd o ddysgu, ystyried beth sy'n effeithiol a rhannu arfer gorau o ran yr unigolion sy'n cymryd rhan.

7.2.20. **Egwyddorion Cynllunio 15:** sicrhau bod systemau gweinyddol yn cynnig atebolrwydd priodol ond sydd hefyd yn gymesur â lefelau dyfarnu grantiau.

7.2.21. Mae modd arall o fwrw golwg ar gynllun y rhaglen sy'n ymgorffori hanfod dysgu o'r gwerthusiad ar Siart 30 isod sy'n adnabod y galluogwyr a'r amodau allweddol i sicrhau llwyddiant ynghyd â'r prif ddeilliannau ac effeithiau rydym yn awgrymu ddylai a byddai'n deillio ohono.





RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

## Atodiad 1: Sefyllfa'r Rhaglen yn Ystod y Cyfnod roedd CCG Ar Waith

| Rhaglen / Ffynhonnell Cyllid | Lleol / Graddfa Fach | Rhanbarthol | Wedi'i Dargedu i Ardaloedd neu Wedi'i Dargedu'n Gymharol Llym | Ledled Cymru gyda Thargedau Ehangach a Nodir | Amcanion a Nodir sy'n Debyg yn Frâs i CCG / Elfennau CCG |
|---|---|---|---|---|---|
| CCG (CGE) | | | | x | x |
| Twf Swyddi Cymru (CGE) | | | x | | x |
| Ailgychwyn (Adran Gwaith a Phensiynau) | | | | x | x |
| Rhaglen Gwaith ac Iechyd (Adran Gwaith a Phensiynau) | | | x | | x |
| Kickstart (Adran Gwaith a Phensiynau) | | | x | | x |
| ReACT (Llywodraeth Cymru) | | | x | | |
| Cymunedau dros Waith (Adran Gwaith a Phensiynau / CGE / LlC) | | | x | | x |
| Pontydd i Waith (CGE) | x | | | | x |
| Rhieni, Plant a Chyflogaeth (CGE) | | | x | | x |
| Cymru Iach ar Waith (CGE / Adran Gwaith a Phensiynau / LlC) | | | x | | x |
| Gweithffyrdd (CGE) | | x | | | x |
| Cyflawni Newidiadau drwy ddod o hyd i Waith (CGE) | | | x | | x |
| OPUS (Consortiwm Rhanbarthol) | | x | | | |


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

| Rhaglen / Ffynhonnell Cyllid | Lleol / Graddfa Fach | Rhanbarthol | Wedi'i Dargedu i Ardaloedd neu Wedi'i Dargedu'n Gymharol Llym | Ledled Cymru gyda Thargedau Ehangach a Nodir | Amcanion a Nodir sy'n Debyg yn Frâs i CCG / Elfennau CCG |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymru'n Gweithio (CGE) | | | x | | |
| Tasglu'r Cymoedd (Llywodraeth Cymru) | | x | | | |
| Swyddi Gwell yn nes at Adref (TUC) | x | | | | |
| Cymru'n Gwneud (Loteri) | | x | | | x |
| Camu i Waith (Loteri) | x | | | | |
| Dyfodol Dynamig (Loteri) | x | | | | x |
| Llwybr at Lesiant Cymunedol a Gwaith (Loteri) | x | | | | x |
| Ffatri'r Dyfodol (Loteri) | x | | | | |
| Creu Etifeddiaeth (Loteri) | x | | | | |
| Cymwys / Gwydn / Grymus (Loteri) | x | | | | x |
| Prosiect Rhieni Ifanc Plant Dewi (Loteri) | x | | | | |
| Prosiect Etifeddiaeth Cymunedol (Loteri) | x | | | | |
| Sgiliau Gwaith i Oedolion (CGE) | | x | | | |
| Meithrin, Darparu, Ffynnu (CGE) | | x | | | |
| Siwrne i Waith (CGE) | | x | | | x |
| Uwchsgilio@Waith (CGE) | | | x | | |


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP

| Rhaglen / Ffynhonnell Cyllid | Lleol / Graddfa Fach | Rhanbarthol | Wedi'i Dargedu i Ardaloedd neu Wedi'i Dargedu'n Gymharol Llym | Ledled Cymru gyda Thargedau Ehangach a Nodir | Amcanion a Nodir sy'n Debyg yn Frâs i CCG / Elfennau CCG |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysbrydoli i Weithio (CGE) | | x | | | |
| Ysbrydoli i Weithio (2) (CGE) | | x | | | x |


RCS ydy enw masnachu Gwasanaeth Ymchwilio ac Ymgynghori Prydain Cyf, Rhif Cwmni 08390837
Cyfeiriad Cofrestredig: 310 Wellingborough Road, Northampton, Northamptonshire, England NN1 4EP